
cwmpas

Dros newid economaidd a chymdeithasol

# Cyngor Celfyddydau Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru a Mudiad Meithrin

## Gwerthuso Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar Adroddiad Gwerthuso Blwyddyn 2



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Tudalen 3** | **1** | **Trosolwg a Nodau** |
| **Tudalen 4** | **2** | **Rolau a Chyfrifoldebau** |
| | 2.1 | Y Bartneriaeth |
| **Tudalen 5** | 2.2 | Prif Rolau |
| **Tudalen 6** | **3** | **Methodoleg** |
| **Tudalen 8** | **4** | **Y Lleoliadau** |
| Tudalen 11 | 3.1 | Cylch Meithrin Arberth |
| Tudalen 14 | 3.2 | Cylch Meithrin Chwilog |
| Tudalen 17 | 3.3 | Cylch Meithrin Corris |
| Tudalen 20 | 3.4 | Cylch Meithrin Crymych |
| Tudalen 23 | 3.5 | Cylch Meithrin Dyffryn Banw |
| Tudalen 26 | 3.6 | Cylch Meithrin Ffynnonwen |
| Tudalen 29 | 3.7 | Cylch Meithrin Llangollen |
| Tudalen 32 | 3.8 | Cylch Meithrin Llanrhaeadr |
| Tudalen 35 | 3.9 | Cylch Meithrin Machynlleth |
| Tudalen 37 | 3.10 | Cylch Meithrin Rhostryfan |
| Tudalen 40 | 3.11 | Cylch Meithrin Rhuthun |
| Tudalen 42 | 3.12 | Cylch Meithrin Y Fali |
| Tudalen 44 | 3.13 | Cylch Meithrin Y Tonnau |
| Tudalen 47 | 3.14 | Cylch yn yr Ysgol |
| Tudalen 49 | 3.15 | Meithrinfa Enfys Fach |
| Tudalen 52 | 3.16 | Miri Morswyn |
| Tudalen 55 | 3.17 | Cylch Chwarae Cymunedol Gogledd Corneli |
| Tudalen 59 | 3.18 | Pobl Fach Llanandras |
| Tudalen 62 | 3.19 | Gofal Dydd Puddleducks |
| Tudalen 65 | 3.20 | St Mary's Preschool |
| Tudalen 67 | 3.21 | The Den |
| Tudalen 68 | 3.22 | Ysgol Feithrin Pont-y-pŵl |
| **Tudalen 72** | **4** | **Effaith** |
| | 4.1 | Effaith ar yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar |
| Tudalen 73 | 4.2 | Effaith ar y Plant |
| Tudalen 74 | 4.2.1 | Perthyn |
| Tudalen 75 | 4.2.2 | Cyfathrebu |
| | 4.2.3 | Archwilio |
| Tudalen 76 | 4.2.4 | Datblygiad Corfforol |
| | 4.2.5 | Llesiant |
| | 4.2.6 | Arsylwi a Sylwi ar Blant mewn Gweithgareddau Creadigol |
| **Tudalen 77** | **5.** | **Cyflawni a Rheoli** |
| | 5.1 | Recriwtio Ymarferwyr Creadigol |
| | 5.2 | Amseru |
| | 5.3 | Y Broses Ymgeisio |
| Tudalen 78 | 5.4 | Pwysigrwydd Perthnasoedd |
| Tudalen 79 | 5.5 | Hyfforddi |
| Tudalen 80 | 5.6 | Cyllid |
| **Tudalen 81** | **6** | **Y Dyfodol** |
| | 6.1 | Recriwtio ar gyfer Blwyddyn Tri |
| Tudalen 82 | 6.2 | Etifeddiaeth |
| **Tudalen 83** | **7** | **Casgliadau** |
| **Tudalen 85** | **8** | **Argymhellion** |

# 1. Trosolwg a Nodau

Mae Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar yn fenter ar y cyd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, Mudiad Meithrin, Blynyddoedd Cynnar Cymru a Llywodraeth Cymru. Caiff ei chefnogi gan Sefydliad Paul Hamlyn.

Yr egwyddor sydd wrth galon Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar yw bod y cam blynyddoedd cynnar yn adeg hollbwysig ym mywyd a datblygiad plentyn. Mae'r egwyddor graidd hwn yn alinio â'r Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir;

"Rydyn ni'n gwybod bod addysg gynnar o safon uchel yn hanfodol i ddatblygiad plant. Mae'r profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau y bydd eu hangen ar gyfer dysgu gydol oes, dinasyddiaeth weithgar a chyflogaeth yn y dyfodol yn dechrau yn y blynyddoedd cynnar."[1]

Eleni, croesawyd Mudiad Meithrin yn bartner i fenter Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar. Daw Mudiad Meithrin â chyfoeth o brofiad a rhwydwaith eang o feithrinfeydd a Chylchoedd Cymraeg i'r fenter.

Pwrpas Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar yw "archwilio pa effaith mae mynd â dysgu creadigol i leoliadau'r Blynyddoedd Cynnar yn ei gael ar ddysgu a datblygu plant 3 – 5 oed."[2]

Y nodau penodol yw:

1. I **ddeall** rôl greiddiol creadigrwydd a chwarae yn natblygiad plant.

2. I gyfuno egwyddorion creiddiol y **Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir** gydag **addysgeg Arferion Creadigol y Meddwl** a dysgu o'r **Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol**

3. I ddatblygu **hyder** yr ymarferwyr blynyddoedd cynnar a'r ymarferwyr creadigol i dreialu ffyrdd newydd o weithio

[1] Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir (llyw.cym)

[2] Gwahoddiad i Dendro gwreiddiol – Gwerthuso Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar

## 2. Rolau a Chyfrifoldebau

### 2.1 Y Bartneriaeth

Mae partneriaeth gyflawni Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin ac asiantaeth Cwmpas.

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r corff swyddogol sy'n ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Trwy gynllun Dysgu Creadigol Cymru, y Cyngor yw'r sefydliad arweiniol, sy'n gyfrifol am weinyddu, rheoli a chyflawni menter Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar yn gyffredinol;

"Mae Dysgu Creadigol Cymru'n cynorthwyo athrawon i archwilio a datblygu dulliau newydd o ddylunio'r cwricwlwm trwy addysgeg dysgu creadigol sy'n gosod y celfyddydau a chreadigrwydd wrth galon addysg."[3]

Blynyddoedd Cynnar Cymru yw'r sefydliad ymbarél mwyaf sy'n cefnogi amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau aelodaeth i'r sector Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru. Ei rôl yn y bartneriaeth yw rhoi cyngor, arweiniad a chefnogaeth er mwyn ymgysylltu â'i rhwydwaith ehangach yn y fenter Dysgu Creadigol ac i rannu'r dysgu canlyniadol ar draws ei rhwydwaith;

"Rydyn ni'n credu, er mwyn rhoi'r cychwyn gorau i blant Cymru mewn bywyd, bod yn rhaid i ni ddarparu gwasanaethau sy'n hyrwyddo datblygiad plant ac yn cefnogi teuluoedd... Ein prif weithgaredd yw gwella datblygiad ac addysg plant cyn-ysgol yng Nghymru drwy annog rhieni i ddeall a darparu ar gyfer eu hanghenion drwy ddarpariaeth a gofal plant cyn-ysgol o safon uchel."[4]

Mae Mudiad Meithrin wedi bod yn dylanwadu ac yn gweithio'n ymarferol i sicrhau bod plant ifanc yng Nghymru yn gallu tyfu'n siaradwyr Cymraeg hyderus. Ei rôl yn y bartneriaeth yw rhoi cyngor, arweiniad a chefnogaeth er mwyn ymgysylltu â'i rhwydwaith ehangach yn y fenter Dysgu Creadigol ac i rannu'r dysgu canlyniadol ar draws ei rhwydwaith.

"Nod Mudiad Meithrin a'i is-gwmnïau yw hybu a hyrwyddo addysg, gofal a datblygiad plant dan bum mlwydd oed, drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg mewn Cylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi ac mewn darpariaethau eraill. Ein nod yw rhoi cyfle i bob plentyn dan oed ysgol yng Nghymru fanteisio ar brofiadau Blynyddoedd Cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg."[5]

Asiantaeth ddatblygu yw Cwmpas sy'n gweithio i greu newid er gwell, yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig.

"Rydym yn gwmni cydweithredol sy'n canolbwyntio ar greu economi decach a gwyrddach a chymdeithas fwy cyfartal, lle mae pobl a'r blaned yn dod gyntaf."[6]

Mae Cwmpas yn gweithio'n gydweithredol â'r bartneriaeth i roi gwerthusiad ffurfiannol o fenter Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar dros ei hamserlen o dair blwyddyn.

---

[3] https://creativelearning.arts.wales/cy/dysgu-creadigol

[4] https://www.earlyyears.wales/cy/amdanom-ni

[5] https://meithrin.cymru/wp-content/uploads/2021/11/adroddiad_blynyddol_cymraeg_20-21.pdf

[6] https://cy.cwmpas.coop/amdanom-ni/

## 2.2 Prif Rolau

Mae'r gwaith o gyflenwi menter Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys tair rôl allweddol.

Gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y Cylchoedd, meithrinfeydd, cylchoedd chwarae a darpariaethau cyn ysgol yw Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar. Maent yn arbenigo yn yr hyn sydd ei angen ar eu staff a'r plant, ac yn gweithio gyda'r ymarferwyr creadigol i benderfynu sut i gynnwys creadigrwydd yn eu lleoliadau.

Artistiaid a gweithwyr creadigol sydd â sgiliau mewn ystod fawr o arferion creadigol yw'r Ymarferwyr Creadigol. Cânt eu recriwtio i ddod â'r sgiliau creadigol a'r profiad sydd eu hangen i'r lleoliadau. Maent yn gweithio'n gydweithredol gyda'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a'r Asiantau Creadigol i ddylunio'r sesiynau creadigol yn y lleoliad, a'u cyflawni.

Mae Asiantau Creadigol yn artistiaid a gweithwyr creadigol hefyd. Eu rôl nhw yw cefnogi a rheoli'r broses. Maent yn cefnogi'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar i recriwtio'r Ymarferwyr Creadigol, i ddylunio a llunio'r sesiynau creadigol, yn cefnogi perthnasoedd a chyfathrebu, gweinyddu a gwaith papur.


Byddwn yn defnyddio'r term "lleoliadau" yn yr adroddiad i gyfeirio at y Cylchoedd, meithrinfeydd a chylchoedd chwarae sy'n rhan o'r fenter Dysgu Creadigol. Byddwn hefyd yn defnyddio'r term 'Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar' yn amnewidiol â 'staff y lleoliad' i gyfeirio at y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y meithrinfeydd, y Cylchoedd a'r cylchoedd chwarae.

# 3. Methodoleg

Mae Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar yn defnyddio dwy brif fethodoleg i fesur effaith ac i brofi cynnydd yn erbyn nodau'r fenter – Arferion Creadigol y Meddwl a'r Meysydd Canolbwyntio a nodir yn y Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.

Mae addysgeg Arferion Creadigol y Meddwl yn seiliedig ar ymchwil a gyflawnwyd gan Bill Lucas, Guy Claxton ac Ellen Spencer.[7] Mae'r ymchwil yn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg consensws ynghylch ystyr creadigrwydd, sy'n golygu nad oes unrhyw ffordd ddiffiniedig o asesu neu olrhain cynnydd creadigrwydd. Mae'r ymchwil yn cyflwyno "diffiniad pum dimensiwn o greadigrwydd"[8] a ellir ei ddefnyddio i roi cefnogaeth er mwyn helpu athrawon i ddatblygu creadigrwydd eu dysgwyr, ac i helpu dysgwyr i gael syniad eang a rennir o beth mae bod yn greadigol yn ei olygu.

Mae'r Cyngor Celfyddydau'n defnyddio Arferion Creadigol y Meddwl (gweler isod). Mae'r model 5-dimensiwn wedi'i ddylunio i helpu dysgwyr ac athrawon i ddychmygu ac ystyried ble mae eu galluoedd ym mhob agwedd ar greadigrwydd, i ddatblygu iaith a rennir neu ffyrdd o siarad am greadigrwydd, ac i fynd ati yn weithredol i chwilio am gyfleoedd i fod yn fwy creadigol ac i ddatblygu eu galluoedd creadigol.





Caiff yr holl gyfranogwyr sy'n cymryd rhan yn y fenter Dysgu Creadigol hyfforddiant ar ddiben Arferion Creadigol y Meddwl. Gofynnir iddynt ddefnyddio methodoleg Arferion Creadigol y Meddwl i ystyried eu datblygiad creadigol eu hunain, a datblygiad y plant sy'n cymryd rhan yn y broses ddysgu creadigol.

[7] https://www.oecd.org/education/ceri/5k4dp59msdwk.pdf

[8] Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir (llyw.cym)

Mae Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar hefyd yn defnyddio chwe 'maes canolbwyntio' sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Mae'r meysydd canolbwyntio hyn yn seiliedig ar y pum llwybr datblygu sef Perthyn, Cyfathrebu, Archwilio, Datblygiad Corfforol a Lles (gweler y diagram isod).

"Arsylwi a Sylwi ar Blant mewn Gweithgareddau Creadigol" yw'r chweched maes canolbwyntio, sy'n seiliedig ar brif egwyddor y Cwricwlwm o "oedolion sy'n galluogi", a ddiffiniwyd yn y Cwricwlwm fel "ymarferwyr medrus, sylwgar a brwdfrydig, sy'n cynnig profiadau dilys a diddorol mewn amgylcheddau effeithiol a chyffrous." [9]




Mae defnyddio'r chwe maes canolbwyntio fel methodoleg yn galluogi i fenter Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar archwilio sut y bydd yn cefnogi'n benodol datblygiad plant ac Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar mewn meysydd sy'n "...hanfodol er mwyn i bob plentyn ifanc ddysgu a datblygu."[10] Mae hefyd yn cefnogi un o nodau canolog y fenter sef cefnogi Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar fel 'oedolion sy'n galluogi', gan roi iddynt y sgiliau a'r hyder i dreialu ffyrdd newydd o weithio a, "chefnogi staff yn y lleoliadau i fod yn arweinwyr ym maes ymarfer creadigol,"[11]

Mae'r gwerthusiad hwn wedi'i fframio o amgylch addysgeg Arferion Creadigol y Meddwl a chwe maes canolbwyntio'r Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.

---

[9] Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir (llyw.cym)


[10] ibid

[11] Cais gwreiddiol Sefydliad Paul Hamlyn


# 3. Y Lleoliadau

Cymerodd 24 o leoliadau rhan yn y fenter ym mlwyddyn dau. Methodd dau leoliad i gwblhau eu prosesau dysgu'n llawn a thrafodir hyn yn fwy manwl yn adran 5.4 o'r adroddiad hwn.

Roedd y lleoliadau wedi'u gwasgaru'n eang drwy Gymru, fel y gwelir ar y map isod neu drwy ddilyn y ddolen hon.



Mae'r lleoliadau mewn cyfuniad o ardaloedd gwledig a threfol. Mae'r graff isod yn categoreiddio'r lleoliadau yn ôl y system categoreiddio gwledig-trefol. [12]





O'r 22 o leoliadau a gwblhaodd y broses ddysgu eleni, roedd tri ohonynt mewn lleoliadau trefol ac un mewn tref fwy o faint. Roedd naw o'r lleoliadau yn y categori "tref wledig". Roedd naw o'r lleoliadau mewn ardaloedd yn y categori gwledig, ac roedd pump o'r rheiny yn y categori poblogaeth fwyaf prin. Yn 2023, roedd 50% o'r lleoliadau a gymerodd rhan yn y fenter Dysgu Creadigol mewn lleoliadau trefol neu drefi. Mae'n gadarnhaol bod mwy o leoliadau mewn mannau gwledig wedi gallu cymryd rhan yn y fenter.

Roedd 67% o'r lleoliadau a gymerodd rhan eleni yn rhai Cymraeg. Cyflawnwyd yr ymgysylltiad cadarnhaol hwn drwy ehangu ar y bartneriaeth a chroesawu Mudiad Meithrin, gan alluogi'r bartneriaeth i fanteisio ar rwydwaith eang y Mudiad o Gylchoedd Cymraeg.

Mae'r siart isod yn defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[13]. Y Mynegai yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n defnyddio wyth mesur gwahanol i asesu pob ardal sef: incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, tai, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol. Caiff pob lleoliad ei blotio yn erbyn y mynegai hwn, ar sail ei ardal gynnyrch ehangach haen is a'r sgôr a gafodd yn erbyn yr wyth mynegai amddifadedd gwahanol.

[12] https://mapdata.llyw.cymru/layers/geonode:rural_urban_classification_of_lsoa

[13] https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-wg:wimd2019_overall




Eleni, mae 17 o'r lleoliadau (sydd cyfwerth â 70.8%) a gymerodd rhan yn y fenter mewn ardaloedd sydd wedi'u categoreiddio fel y 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Roedd y saith lleoliad arall mewn lleoedd a oedd yn ddifreintiedig i ryw raddau, fel y diffinnir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ystod blwyddyn gyntaf y fenter, roedd 50% o'r lleoliadau a gymerodd rhan mewn lleoedd a oedd yn ddifreintiedig i ryw raddau.

Yn ystod y gwerthusiad, casglasom gyfoeth o dystiolaeth a oedd yn unigryw i bob lleoliad. Yn ein barn ni, roedd yn bwysig neilltuo adran benodol o'r adroddiad hwn i bob lleoliad er mwyn archwilio'r dystiolaeth fanwl ac i adrodd y straeon unigol a glywsom wrth siarad â phob lleoliad. Rhoddodd pob lleoliad yn hael o'i amser a chafwyd adborth helaeth ganddynt, wrth iddynt rannu eu meddyliau a'u myfyrdodau ynghyd â'r straeon ynghylch effaith y prosiect ar yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar ac ar y plant.

## 3.1 Cylch Meithrin Arberth

Mae Cylch Meithrin Arberth wedi'i leoli yn Arberth, Sir Benfro. Mae'r Cylch yn lleoliad Cymraeg, mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae'n ardal sy'n "dref wledig a chyrion mewn lleoliad prin".

Roedd ar y lleoliad eisiau archwilio sut i wella'i ddefnydd o'i le awyr agored, cefnogi staff y lleoliad i ddatblygu sgiliau, technegau a gweithgareddau newydd a ellid eu defnyddio ar ôl i'r amser gyda'r gweithwyr creadigol ddod i ben. Roedd dau Ymarferydd Creadigol yn ymgysylltu â'r lleoliad.



Ymwelsom â'r lleoliad a gwylio sesiwn yn cael ei gynnal yn yr awyr agored. Cynhaliwyd y sesiwn yn Saesneg yn bennaf, gydag ychydig o Gymraeg. Daeth yr Ymarferydd Creadigol â'r plant a staff y lleoliad ynghyd yn gyntaf, i ganu cân o groeso ac i chwarae gemau chwarae-rôl. Gallai'r plant ddewis anifail yr hoffent fod a rhedeg ar ôl ei gilydd mewn cymeriad. Anogwyd y plant i deimlo perchnogaeth dros y gêm, a dechreuasant ddyfeisio rheolau newydd, gan droi'n anifeiliaid newydd a chreaduriaid chwedlonol.

Daeth yr Ymarferydd Creadigol â ffyn helyg i'r Cylch, a dangosodd i'r plant sut i ddefnyddio eu cyrff i'w cynhesu er mwyn iddynt blygu heb dorri. Plygodd y plant y ffyn helyg a'u clymu mewn fframiau. Gosodasant eu dail a'u blodau rhwng haenau o bapur sidan, gan greu dalwyr haul crog hardd.

Anogwyd y plant i archwilio man awyr agored mawr y lleoliad trwy gydol y sesiwn, gan fynd a dod fel y mynnant. Roeddent wedi plannu hadau a oedd bellach yn tyfu, ac aeth llawer o'r plant yn ôl i edrych ar eu tyfiant ac i roi dŵr iddynt, gan ymfalchïo wrth ei gilydd faint oedd y planhigion wedi tyfu ers y tro diwethaf iddynt eu gweld. Roedd plant eraill eisiau chwilio am bryfed ac aethant gyda'i gilydd i chwilio dan gerrig, dail a hen ddarnau o bren i ddod o hyd i fwystfilod bach. Er bod y sesiwn yn canolbwyntio ar dasg benodol, roedd yn hamddenol ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Gofynnodd yr Ymarferydd Creadigol gwestiynau i'r plant, gofyn am awgrymiadau, gofyn iddynt enwi gwrthrychau, prosesau, lliwiau a gweadau. Arsylwasom y plant yn defnyddio sgiliau echddygol manwl a bras, yn plygu'r helyg, yn trefnu'r blodau a'r dail yn ofalus, yn defnyddio siswrn i dorri'r papur, llinyn i glymu'r helyg.

Roedd staff y lleoliad yn llai cyffyrddus yn defnyddio'r man awyr agored i gychwyn, gan bryderu am y plant yn rhedeg i ffwrdd, y tywydd, posibilrwydd anafiadau ac ati. Hefyd, roedd staff y lleoliad wedi canolbwyntio i gychwyn ar geisio cadw sylw'r plant ar y prif weithgaredd creadigol. Fodd bynnag, wrth i'r sesiynau mynd yn eu blaenau, ymlaciodd y staff pan oedd y plant yn yr awyr agored a dechreuasant gael eu harwain gan ddiddordebau a chwilfrydedd y plant, yn hytrach na chanolbwyntio ar greu cynnyrch creadigol gorffenedig. Dywedodd y lleoliad bod cymryd rhan yn y fenter Dysgu Creadigol wedi golygu: "Y prif newid yw hyder a helpu'r staff i fod yn anturus yn y lleoliad".

Hoff weithgaredd y plant oedd adeiladu tân. Nid oedd staff y lleoliad yn teimlo'n gyffyrddus â hyn i gychwyn, ond roeddent wir wedi mwynhau'r gweithgaredd. Roeddent wedi tostio bara ar y tân, a roddodd gwefr i'r plant. Dywedodd y staff bod y plant "wrth eu boddau".

Roedd y staff hefyd yn gadarnhaol iawn am effaith y sesiynau. Teimlasant eu bod wedi dysgu llawer oddi wrth y sesiynau a'u bod yn fwy hyderus yn arwain gweithgareddau yn yr awyr agored. Dywedasant: "Aeth yn dda iawn, mae'r plant wedi dwlu." Dywedodd aelod arall o'r staff, "Byddai'n dda petai'r sesiwn wedi mynd ymlaen yn hirach."

**Prif effeithiau - Plant**

**CHWILFRYDIG**

Anogwyd a chefnogwyd chwilfrydedd naturiol y plant a'u diddordeb mewn bwystfilod bach a phryfed yn ystod y sesiwn, a daeth yn weithgaredd rheolaidd yn y lleoliad.

**DYFALBARHAUS**

Roedd rhaid i'r plant gynhesu'r ffyn helyg cyn eu plygu er mwyn peidio â'u torri. Arsylwasom blant yn rhoi cynnig arall arni ar ôl torri'r ffyn ar y cynnig cyntaf, ac yn llwyddo i'w plygu.

**CYDWEITHIOL**

Roedd y plant yn cydweithio i daenu glud dros ddarnau mawr o bapur sidan, gan helpu ei gilydd i ganfod y darnau a oedd angen eu gludo, a helpu ei gilydd i roi'r papur dros y fframiau helyg.

**LLAWN DYCHYMYG**

Roedd y plant yn gallu bod yn anifeiliaid i gychwyn, cyn iddynt benderfynu bod yn ddreigiau ac ungyrn wrth chwarae. Dechreuasant chwarae gêm gyda'r rheolau a roddwyd iddynt gan yr Ymarferydd Creadigol, cyn creu rheolau newydd a chytuno arnynt gyda'i gilydd, gan greu gêm newydd llawn dychymyg.

**DISGYBLEDIG**

Roedd rhaid i'r plant fod yn ofalus gyda'r papur sidan gwlyb gan ei fod yn fregus, ac wrth dal y ffyn helyg cyn eu clymu gan eu bod yn sbringar. Dysgasant sut i drin y deunyddiau a ddefnyddiant mewn ffyrdd gwahanol i gyflawni'r canlyniadau dymunol.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**

Roedd staff y lleoliad yn agored i syniadau newydd, yn awyddus i ddysgu ac archwilio sut y gallai'r plant elwa ar y syniadau a'r gweithgareddau newydd.

**DYFALBARHAUS**

Magodd staff y lleoliad hyder yn defnyddio'r man awyr agored, gan weithio i oresgyn eu pryderon ynghylch risg a chadw pawb i ganolbwyntio ar yr un dasg. Bellach teimlant yn fwy hyderus i ddefnyddio'r man awyr agored i'w botensial llawn.

**CYDWEITHIOL**

Gweithiodd staff y lleoliad fel tîm i sicrhau bod y plant yr oedd arnynt angen byrbrydau neu ddefnyddio'r toiled yn gallu gwneud hynny'n ddiogel, gan alluogi gweddill y plant i barhau i chwarae tu allan.

**LLAWN DYCHYMYG**

Mae'r staff yn teimlo eu bod yn fwy "anturus" yn y lleoliad, yn gallu defnyddio ystod o ymarferion creadigol i ymgysylltu â'r plant, ac yn gallu bod yn llawn dychymyg wrth ddefnyddio'r man awyr agored sydd ganddynt a'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

**DISGYBLEDIG**

Mae'r sesiynau wedi galluogi'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar i arbrofi gydag ystod o brosesau a gweithgareddau creadigol awyr agored, gan ddatblygu eu sgiliau creadigol a'u hyder.

## 3.2 Cylch Meithrin Chwilog

Mae [Cylch Meithrin Chwilog] wedi'i leoli ar Benrhyn Llŷn yng Ngwynedd. Mae'r Cylch yn lleoliad Cymraeg mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae wedi'i leoli yn un o ardaloedd lleiaf poblog Cymru, a ddisgrifir yn 'bentref gwledig gwasgaredig mewn lleoliad prin'.

Roedd y cynllun ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar gynnwys y Cylch yn y gymuned "…drwy daith greadigol fydd yn pontio cenedlaethau". Roedd ar y Cylch eisiau dod â'r cenedlaethau iau a hŷn ynghyd i wneud gweithgareddau gyda'i gilydd, er mwyn gwella dealltwriaeth a pharch.

Roedd y lleoliad wedi recriwtio dau Ymarferydd Creadigol a weithiodd gyda'r plant a'r oedolion hŷn gyda'i gilydd ym mhob sesiwn. Roedd y sesiynau'n cynnwys ystod eang o ddulliau creadigol gwahanol, gan gynnwys symud, dawns, chwarae rôl llawn dychymyg, paentio, canu ac ioga. Roedd yr Ymarferwyr Creadigol yn creu amgylchedd hamddenol a chefnogol ym mhob sesiwn er mwyn annog y plant ifanc a'r oedolion hŷn i gyd-chwarae. "Daeth dwy genhedlaeth ynghyd i ddawnsio, symud, canu, chwerthin ac i chware."[14]




[14] Ffurflen Werthuso Cylch Meithrin

Gallai'r plant a'r oedolion ddefnyddio'u dychymyg, gan greu roced a thrên o focsys cardfwrdd gwag, esgus bod yn blanhigion yn tyfu yn yr heulwen a dawnsio fel pili pala o amgylch y neuadd. Daeth y sesiynau i ben trwy ddathlu, gyda'r plant a'r oedolion hŷn yn perfformio sioe i'r rhieni a gofalwyr. Dywedodd y rhieni bod y plant wedi tyfu'n fwy hyderus, "Roedd un rhiant wedi rhyfeddu at ba mor hyderus oedd ei merch fach swil i siarad o flaen pawb yn y sesiwn rhannu."[15]

Roedd y sesiynau'n llwyddiant ysgubol, gyda'r Cylch yn nodi ar ei ffurflen werthuso bod y plant wedi gwneud cynnydd ym mhob un o'r meysydd canolbwyntio, a holl arferion creadigol y meddwl. Dywedodd y Cylch bod y sesiynau wedi galluogi'r plant i ddatblygu eu hunanhyder a'u hunan-barch. Trwy fod yn rhydd i ddefnyddio'u dychymyg, daethant yn fwy creadigol ac yn fwy hyderus yn eu galluoedd creadigol eu hunain. Mae eu hyder corfforol a'u sgiliau echddygol bras wedi gwella, a gall y plant cyfathrebu'n well o ganlyniad i'w rhyngweithio â'r oedolion hŷn.

Dywedodd y Cylch hefyd bod y sesiynau wedi helpu'r plant i deimlo'n fwy cysylltiedig â'u cymuned, ac wedi cefnogi eu hymdeimlad o gynefin. Mae'r cysyniad hwn yn agwedd arwyddocaol ar y Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir a'r Cwricwlwm i Gymru ehangach, a gaiff ei drafod yn fwy manwl yn hwyrach yn yr adroddiad. Dywedodd y rhieni eu bod yn teimlo'n fwy o ran o'r pentref wrth iddynt ddod i adnabod yr oedolion hŷn a gymerodd rhan yn y sesiynau, a fyddai'n aros i'w cyfarch ar y stryd. Wrth grynhoi'r sesiynau, dywedodd yr Asiant Creadigol ei fod yn "daith greadigol arbennig a fydd yn aros yn y cof am amser hir."[16]

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**

Roedd y plant yn gyffrous i weld pob gweithgaredd newydd, ac yn gallu defnyddio'u chwilfrydedd naturiol i archwilio'r eitemau a'r gweithgareddau newydd bob sesiwn. Gallasant chwarae gyda'r oedolion hŷn, dod i'w hadnabod a ffurfio perthynas, canu a dawnsio gyda nhw. Helpodd hyn i'r plant a'u teuluoedd greu cysylltiadau â'r bobl hŷn, datblygu ymdeimlad cryfach o gymuned, a herio unrhyw ragdybiaethau negyddol o'r hyn mae pobl o bob oed yn gallu ei wneud.

**DYFALBARHAUS**

Cyflwynwyd gweithgareddau, eitemau a syniadau newydd i'r plant ym mhob sesiwn, a chawsant eu hannog i ddefnyddio eu dychymyg i arwain eu gweithredoedd. Nid oedd y plant yn gyfarwydd â'r oedolion hŷn a ymunodd yn eu chwarae chwaith. Llwyddodd y plant i oresgyn unrhyw ansicrwydd, gan feithrin cyfeillgarwch â'r bobl hŷn, a chymryd rhan ymhob gweithgaredd yn eu ffyrdd unigryw eu hunain.

**CYDWEITHIOL**

Gweithiodd y plant gyda'i gilydd a gyda'r oedolion hŷn ymhob sesiwn i greu bydoedd llawn dychymyg, lle gallasant fynegi eu hunain trwy symud, canu, dawnsio a chwarae. Cydweithiodd y plant i greu paentiadau a defnyddio bocsys i adeiladu'r Wyddfa. Datblygasant eu gallu i gyfathrebu â'i gilydd a gyda'r oedolion hŷn i gyflawni eu nodau creadigol a rennir.

**LLAWN DYCHYMYG**

Roedd pob sesiwn yn gyfle i'r plant defnyddio'u dychymyg i fod yn anifeiliaid, creaduriaid môr, planhigion a phryfed. Datblygasant empathi â'r oedolion hŷn yn ystod y sesiynau, gan eu hystyried yn ffrindiau ac yn bobl i rannu, chwarae a siarad â hwy.

[15] Ibid

[16] bid

**DISGYBLEDIG**
Roedd y plant yn gallu ymarfer eu symud corfforol a'u sgiliau cyfathrebu ymhob sesiwn, gan feithrin hyder yn y ddau. Roeddent hefyd yn gallu rhannu eu sgiliau â phobl, a dysgu sgiliau newydd gyda'r bobl hŷn a gymerai rhan yn y sesiynau.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**
Ysbrydolodd y sesiynau staff y lleoliad i oresgyn y rhagdybiaeth y dylid cynllunio creadigrwydd yn gaeth, ac y dylid ystyried pob cam yn fanwl. Mae'r staff wedi ymlacio ac wedi derbyn y syniad bod plant yn greadigol yn naturiol ac yn gallu gwneud unrhyw syniad yn rhywbeth cyffrous.

**DYFALBARHAUS**
Effaith sylweddol a ddisgrifiwyd gan y lleoliad oedd bod, "…y staff llawer hapusach ac yn teimlo'n fwy egnïol wrth gynnal sesiynau creadigol."[17] Mae'r gweithgaredd a fodelwyd gan yr Ymarferwyr Creadigol yn y sesiynau wedi galluogi staff y lleoliad i deimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio symud corfforol gyda'r plant, ac i'w ystyried yn fuddiol iddynt hwy ac i'r plant.

**CYDWEITHIOL**
Dywedodd staff y lleoliad eu bod yn teimlo'n rhan fwy pwysig o'u cymuned oherwydd y sesiynau. Teimlasant gysylltiad cryfach rhyngddyn nhw, y plant, yr oedolion hŷn a'r gymuned ehangach oherwydd y sesiynau pontio'r cenedlaethau. Daeth y sesiynau â'r staff, y plant a'r gymuned ynghyd i rannu syniadau ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

**LLAWN DYCHYMYG**
Bu'r sesiynau'n gymorth i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar weld bod creadigrwydd yn gallu tarddu o'r pethau symlaf. Mae'r sesiynau wedi'u hysbrydoli i weld sut allent ddefnyddio deunyddiau syml, rhad eraill i ysbrydoli creadigrwydd ymysg y plant.

**DISGYBLEDIG**
Mae'r staff wedi gallu datblygu ac ehangu ar eu hymarferion creadigol, gan ddysgu syniadau a thechnegau newydd i'w defnyddio gyda'r plant ar ôl i'r sesiwn ddod i ben. Dywedodd y staff y gallant weld posibiliadau newydd ar gyfer parhau i weithio gyda'r gymuned leol, a bwriadant barhau i ddatblygu'r berthynas a grëwyd ganddynt.

[17] ibid

## 3.3 Cylch Meithrin Corris

Mae Cylch Meithrin Corris wedi'i leoli ym mhentref Corris, pum milltir i'r gogledd o Fachynlleth yng Ngwynedd. Mae'r Cylch yn lleoliad Cymraeg mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae wedi'i leoli yn un o ardaloedd lleiaf poblog Cymru, a ddisgrifir yn 'bentref gwledig a gwasgaredig mewn lleoliad prin'. Mae'r Cylch yn rhan amlwg o'r gymuned.

Bwriadai'r lleoliad ddefnyddio'r sesiynau creadigol i ddatblygu hyder i fynd i'r awyr agored beth bynnag fo'r tywydd. Roedd hefyd arno eisiau ysbrydoliaeth ynghylch defnyddio adnoddau naturiol yn ei weithgareddau creadigol.

Canolbwyntiodd y sesiynau ar fynd tu allan a defnyddio adnoddau naturiol mewn prosesau creadigol amrywiol. Ni chyflwynwyd gweithgareddau tra strwythuredig i'r plant; yn hytrach, rhoddwyd eitemau a gweithgareddau iddynt a'u cynorthwyo i wneud fel y mynnant â hwy yn greadigol. Roeddent wedi bod yn mynd am dro, ond roedd y sesiynau'n eu hannog i aros ac archwilio eu hamgylchedd, i chwarae yn y mwd yn ymyl yr afon ac i brofi a dysgu o'u hamgylchedd naturiol. Helpodd y plant i adeiladu tân a'i ddefnyddio i goginio bwyd. Creasant batrymau ar ddefnydd drwy fwrw dail a blodau â morthwyl. Defnyddiwyd y sesiynau hefyd i siarad am natur a'r amgylchedd naturiol, i ddysgu'r geiriau a'r termau cywir am bethau, ac i ddeall sut mae pethau'n tyfu ac yn newid gyda'r tymhorau. Dywedodd yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar: "Roeddwn i wir yn mwynhau pan oedd y plant yn dod o hyd i ddeunyddiau naturiol diddorol eu hunain".



Nododd ffurflen werthuso'r lleoliad ei fod wedi gwneud cynnydd ym mhob maes canolbwyntio a holl arferion creadigol y meddwl. Yn arbennig, mwynhaodd y plant y cyfle i gyffwrdd a theimlo pethau yn yr awyr agored, a'r cyfle i gael yn fudr a chwarae heb boeni am faeddu eu dillad. Gallai staff y lleoliad deimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio gwrthrychau naturiol a daethant o hyd i eitemau drwy fod yn greadigol gyda'r plant. Mae'r prosiect wedi hau hadau creadigrwydd a fydd yn tyfu'n syniadau newydd ymysg y staff ac ymysg y plant.

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**

Roedd y plant yn fwy hyderus yn ymgysylltu â natur a'r amgylchedd naturiol ar ôl y sesiynau. Teimlasant yn fwy hyderus yn chwarae mewn mwd, yn mynd yn fudr, yn cyffwrdd gwrthrychau naturiol ac yn ymchwilio i bethau y daethant o hyd iddynt wrth ymchwilio yn yr awyr agored.

**DYFALBARHAUS**

Roedd y plant yn hapus i ddal ati gyda thasgau anodd neu brosesau creadigol newydd, ac yn dychwelyd at bethau nad oeddent wedi gallu eu cwblhau.

**CYDWEITHIOL**

Gallai'r Ymarferydd Creadigol weithio gyda'r plant i adeiladu tân, cydweithio i wneud bwyd i'w rhannu, ac i helpu ei gilydd i ddysgu sgiliau newydd. Dywedodd arweinydd y lleoliad, "Mwynheais y sesiwn pan adeiladon ni gychod pren. Collwyd un o'r cychod wrth inni eu hwylio, a dechreuodd y plant eraill rhannu eu cychod nhw â'r ferch a gollodd ei chwch hi. Roedd yn brofiad dysgu cryf."

**LLAWN DYCHYMYG**

Gallai'r plant ddefnyddio'u dychymyg yn chwarae rôl, yn dyfeisio gemau newydd i chwarae yn yr awyr agored,  yn datblygu eu symud corfforol a'u sgiliau echddygol bras.

**DISGYBLEDIG**

Gallai'r plant ymarfer ystod o brosesau creadigol, yr oedd angen datblygu technegau gwahanol ar eu cyfer, fel defnyddio pin rholi, cymysgu mewn bowlen fawr a siapio clai. Roeddent yn gallu ystyried yr hyn nad oedd yn gweithio, a helpu ei gilydd i gael y canlyniadau dymunol.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**

Dywedodd staff y lleoliad eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn archwilio yn yr awyr agored gyda'r plant, ac yn teimlo eu bod yn gallu ymgysylltu â'r plant mewn ffyrdd gwahanol.

**DYFALBARHAUS**

Cymerodd amser i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar feithrin hyder i ddefnyddio'r man awyr agored yn fwy anturus. Bu'r sesiynau'n helpu'r staff i deimlo'n fwy cyffyrddus wrth adeiladu tân a chwarae yn y mwd.

**CYDWEITHIOL**

Cydweithiodd staff y lleoliad i gefnogi'r Ymarferydd Creadigol i archwilio'r man awyr agored gyda'r plant. Gallasant weithio gyda'r Ymarferydd Creadigol i ehangu ar eu harferion a'u sgiliau creadigol eu hunain, ac i drosglwyddo'r sgiliau i gydweithwyr eraill yn y lleoliad.

## LLAWN DYCHYMYG

Cefnogodd yr Ymarferydd Creadigol staff y lleoliad i weld potensial llawn yr amgylchedd naturiol o amgylch y Cylch. Galluogodd y sesiynau i'r staff weld sut ellid defnyddio unrhyw beth i ysbrydoli creadigrwydd ymysg y plant, a byddant yn parhau i ganiatáu i'w dychymyg arwain gweithgareddau yn y dyfodol.

## DISGYBLEDIG

Cefnogodd yr Ymarferwyr Creadigol yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar i ddatblygu ystod o sgiliau a thechnegau y gallasant eu defnyddio i ymgysylltu â'r plant. Gallai'r staff ystyried yr hyn a fyddai'n gweithio yn eu lleoliad nhw, gan ganolbwyntio ar lunio'u dysgu er mwyn diwallu orau eu hanghenion nhw ac anghenion y plant sy'n dod i'r Cylch.

## 3.4 Cylch Meithrin Crymych

Mae Cylch Meithrin Crymych wedi'i leoli ym mhentref Crymych yng ngogledd ddwyrain Sir Benfro. Mae'r Cylch yn lleoliad Cymraeg mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae wedi'i leoli yn un o ardaloedd lleiaf poblog Cymru, ac wedi'i ddisgrifio'n 'bentref gwledig a gwasgaredig mewn lleoliad prin'.

Roedd ar y lleoliad eisiau defnyddio'r sesiynau i wella hyder staff y lleoliad, i'w galluogi nhw i fod yn fwy creadigol gyda'r plant ac i ehangu ar eu haddysg greadigol. Hefyd, roedd arno eisiau gwneud defnydd gwell o'r man awyr agored, "…yn dilyn llais y plant."

Penododd y lleoliad dau Ymarferydd Creadigol, a ddefnyddiodd ystod o weithgareddau, sgiliau a thechnegau i ymgysylltu â'r plant. Ymwelsom â'r lleoliad a chymryd rhan mewn sesiwn yn seiliedig ar gerrig, a hanes, mythau a chwedlau'r ardal. Defnyddiwyd pwysigrwydd carreg i hanes a diwylliant y lleoliad yn greadigol er mwyn tanio dychymyg y plant. Dysgasant am bwysigrwydd y chwarel leol ac am y cerrig gleision a fwyngloddiwyd ar gyfer Côr y Cewri. Dychmygodd y plant eu bod yn teithio ar drên y Cardi Bach, a gludodd y cerrig o'r chwarel. Hudwyd y plant gan straeon am y cewri a daflodd y cerrig mawr a welir ar y bryniau. Creodd y plant gromlechi, a adlewyrchai Pentre Ifan, gan ddefnyddio pethau o bob math. Roeddent hyd yn oed yn defnyddio'u byrbrydau i greu cromlechi.



Yn ystod y sesiynau, defnyddiwyd gwrthrychau naturiol, wedi'u hailgylchu neu a ddaethpwyd o hyd iddynt, a alluogodd i staff y lleoliad weld sut y gellid defnyddio unrhyw beth bron yn greadigol gyda'r plant. Defnyddiasant dail a malurion o'r coed cyfagos i greu lluniau ar lawr y maes chwarae. Yn ystod y sesiwn, arsylwom y plant yn tynnu llun mewn cynhwysydd llawn lludw, yn ymarfer gwneud marciau ac yn mwynhau teimlad cyffyrddadwy'r lludw, yn gwneud eu llythrennau a'u henwi'n uchel. Roedd y plant yn esgus bod yn gewri, gan gymryd eu tro i luchio carreg fawr. Canodd y plant eu cân newydd 'Adeiladu Cromlech' yr oeddent wedi'i ddysgu yn ystod y sesiynau.

Dywedodd y staff bod gwelliant mawr wedi bod yn hyder un plentyn, a allai dalu sylw llawer yn well ers cymryd rhan yn y sesiynau. Dywedodd y staff hefyd bod geirfa'r plant wedi gwella a'u bod yn defnyddio llawer o eiriau newydd o'r sesiynau yn eu chwarae bob dydd.

Cafodd y plant eu trochi mewn mythau, chwedlau a hanes eu hardal leol yn ystod y sesiynau, gan eu galluogi nhw i ddeall natur a'r ardal leol yn well, ac i gael cysylltiad cryfach â hwy. Roedd y sesiynau'n amlwg yn galluogi'r plant i ddatblygu ymdeimlad o gynefin, ac i weld eu hunain fel rhan o hanes, diwylliant a thirwedd gyfoethog.

Teimlai'r staff yn fwy hyderus o lawer yn defnyddio llawer o brosesau, gwrthrychau a thechnegau gwahanol ar ôl iddynt gymryd rhan. Dywedasant, "Mae'r cyfoeth o ddychymyg a ddaethant [yr ymarferwyr creadigol] â nhw yn wych - am ysbrydoliaeth." Dywedodd staff y lleoliad hefyd eu bod yn teimlo wedi'u grymuso gan y ffordd y defnyddiodd yr ymarferwyr creadigol deunyddiau mor syml â'u troi'n weithgareddau creadigol anhygoel i'r plant, "Mae wedi'i greu o ddim byd! Mae'n anhygoel"

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**
Ysbrydolwyd y plant i ddysgu mwy am eu hanes a diwylliant lleol, i ddatblygu ymdeimlad o ryfeddod ynghylch y byd naturiol a'r tirweddau gwyllt o'u cwmpas. Roedd arnynt eisiau ymweld â'r ardaloedd lleol a ddysgasent amdanynt, ac roeddent yn parhau i fod yn chwilfrydig am eu hardal leol.

**DYFALBARHAUS**
Fel rhan o weithgaredd, defnyddiodd y plant dail, conau pin, nodwyddau a deunyddiau eraill a gwympodd oddi ar y coed i greu llun enfawr o gromlech yn yr ardd. Roedd angen i'r plant gydweithio fel rhan o'r dasg i greu amlinell y llun yn gyntaf, cyn ei lenwi â deunyddiau a gasglwyd o'r lle chwarae cyfan. Cymerodd amser ac ymdrech iddynt orffen y llun, ac roedd angen i'r plant barhau i weithio hyd nes y gwelsant y darlun gorffenedig.

**CYDWEITHIOL**
Cydweithiodd y plant i adeiladu tŵr a chromlech o gerrig sbwng, yn helpu ei gilydd i ddewis y garreg orau ar gyfer y lefel nesaf, a chyfathrebu eu bwriadau a chynnig awgrymiadau i'w gilydd, hyd nes iddynt gyflawni eu nodau.

**LLAWN DYCHYMYG**
Trwy gydol y sesiwn a arsylwyd gennym, defnyddiodd y plant eu dychymyg i fod yn gewri, adar, ceffylau, trenau, brenhinoedd a marchogion. Arweiniodd y plant y sesiynau gyda'u hawgrymiadau llawn dychymyg, yn troi llechi'n hetiau gwrach ac yn dychmygu bywydau pobl leol o'r gorffennol drwy wrando ar sŵn clocsen yn cerdded ar garreg.

**DISGYBLEDIG**

Gwellhaodd gallu’r plant i ganolbwyntio a chymryd rhan mewn gweithgareddau heb gymaint o gymorth gan y staff. Ar ôl iddynt gymryd rhan yn y sesiynau, roedd y plant yn fwy hyderus yn ymgymryd ag amrywiaeth o brosesau creadigol newydd ac yn fwy bodlon yn rhoi cynnig ar bethau newydd.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**

Teimlasai’r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn fwy hyderus yn rhoi cynnig ar bethau newydd gyda’r plant, i fod yn fwy anturus ac i ganiatáu i’r plant arbrofi. Bu’r sesiynau yn gymorth iddynt weld nad oes angen adnoddau neu offer drud ar greadigrwydd o reidrwydd, ac y gallai godi o unrhyw beth sydd wrth law.

**DYFALBARHAUS**

Cafodd y ffordd y cymerodd yr Ymarferwyr Creadigol rhan yn y sesiynau effaith barhaol ar staff y lleoliad. Gwelsant fod eu hymagwedd agored, frwdfrydig, llawn dychymyg a chadarnhaol gyda’r plant wedi’u helpu nhw i deimlo’n llai cyfyngedig yn y dyfodol. Gwelsant faint yr oedd y plant yn gallu ei gyflawni, o roi’r cyfle iddynt roi cynnig ar bethau newydd a chanolbwyntio llai ar geisio strwythuro gweithgareddau, a mwy ar fwynhau'r broses greadigol.

**CYDWEITHIOL**

Dywedodd staff y lleoliad wrthym y teimlasant fod y sesiynau wedi, “ehangu ar ein gwybodaeth a’n sgiliau.” Esboniasant ei fod yn hawdd iddynt fynd yn sownd “mewn rhigol” a bod y sesiynau wedi dod â’r tîm ynghyd, ac wedi’i ysbrydoli i barhau â’r gweithgareddau creadigol.

**LLAWN DYCHYMYG**

Roedd staff y lleoliad yn llawn brwdfrydedd am eu cynlluniau i’r dyfodol. Hoffant fynd â’r plant i ymweld â rhai o’r safleoedd hanesyddol a ddysgasant amdanynt, i ddefnyddio cerrig o’r chwarel leol i adeiladu gardd gerrig a chromlech yn yr ardd gyda’r plant. Mae’r staff wedi trafod ystod o syniadau llawn dychymyg y maent yn bwriadu eu cyflwyno i’r lleoliad yn y dyfodol.

**DISGYBLEDIG**

Roedd y sesiynau wedi helpu i’r staff ddatblygu sgiliau creadigol newydd ac i ddatblygu eu sgiliau presennol. Gallasent ystyried yr hyn a weithiai’n dda yn eu lleoliad, a’r pethau a ellid eu gwella neu eu diwygio i ddiwallu anghenion y plant.

## 3.5 Cylch Meithrin Dyffryn Banw

Mae Cylch Meithrin Dyffryn Banw wedi'i leoli yn ymyl pentref Llangadfan ym Mhowys. Mae'r Cylch yn lleoliad Cymraeg mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae wedi'i leoli yn un o ardaloedd lleiaf poblog Cymru, a ddisgrifir yn 'bentref gwledig a gwasgaredig mewn lleoliad prin'.

Roedd y Cylch newydd symud i'w safle newydd mewn ysgol, ac roedd arno eisiau defnyddio'r sesiynau i ganolbwyntio ar bontio fel thema. Pontio rhwng y cartref a'r Cylch, Cylch a'r ysgol, pontio mewn natur. Roedd ar y Cylch eisiau galluogi'r plant i dyfu, i ddatblygu cysylltiadau agosach, ac i'w cefnogi nhw i adnabod eu teimladau a'u mynegi, er mwyn cefnogi eu lles. Roedd yn bwysig i'r lleoliad gefnogi'r plant i deimlo'n ddiogel ac i'w helpu i ddatblygu eu hymdeimlad o gynefin trwy'r sesiynau.

Mae gan y Cylch fan awyr agored mawr sy'n bwysig iawn iddo, gyda hanes a rennir a chysylltiadau â'r gymuned. Gweithiodd y lleoliad â dau Ymarferydd Creadigol – un yn arddwr ac yn arweinydd ysgol goedwig profiadol, a'r llall ag arbenigedd mewn archwilio'r byd naturiol. Daethant â phlant hŷn o'r ysgol i'r sesiynau er mwyn helpu i feithrin cysylltiadau rhwng plant y Cylch a'r ysgol. Roedd ar y lleoliad eisiau gwneud mwy o ddefnydd o'r man awyr agored a deall sut i ymgysylltu'r plant â natur mewn ffyrdd newydd.



Roedd y sesiynau'n canolbwyntio ar ganiatáu i'r plant archwilio natur, plannu planhigion a hau hadau i dyfu bwyd, cysylltu â bywyd gwyllt ac i fynegi eu hunain trwy symud, paentio a chreu. Roedd y sesiynau'n gydweithredol, gan ddwyn y plant, yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a'r Ymarferwyr Creadigol ynghyd i archwilio a phrofi natur. Dywedodd y lleoliad, "Ategodd pwysigrwydd addysg blynyddoedd cynnar a pha mor greadigol ydyw."[18] Teimlai'r Ymarferwyr Creadigol ei fod yn gyfle gwych, gan ddisgrifio'r plant bach fel, "y bobl fwyaf creadigol yn y byd".[19]

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**
Roedd galluogi i'r plant deimlo'n rhydd i archwilio a rhyfeddu ar natur wrth galon y sesiynau. Roeddent yn caniatáu i'r plant ddilyn eu chwilfrydedd naturiol, defnyddio offer, cloddio ac archwilio'r man awyr agored fel y mynnant.

**DYFALBARHAUS**
Roedd angen sgiliau echddygol manwl ar rai o'r tasgau fel marcio neu baentio. Dangosodd y plant dyfalbarhad pan oedd pethau'n anodd, ac roeddent yn dal ati i ymarfer hyd nes iddynt feistroli'r technegau.

**CYDWEITHIOL**
Cydweithiodd y plant hŷn a'r plant iau gyda'i gilydd i ddysgu sgiliau newydd. Roedd y plant hŷn yn modelu ymddygiad a thechnegau i'r plant iau, gan helpu iddynt ddysgu. Gwellhaodd sgiliau'r plant hŷn o ran dangos ac esbonio i'r plant iau.

**LLAWN DYCHYMYG**
Creodd y plant masgiau a gwisgoedd er mwyn archwilio'r syniadau o bontio'r hunan a'r ffordd yr ydym yn newid ac yn tyfu fel pobl. Gallai'r plant dychmygu eu hunain fel rhywun arall, neu feddwl sut allent newid wrth dyfu, gan greu cysylltiadau rhwng eu profiadau eu hunain a rhai pobl eraill.

**DISGYBLEDIG**
Defnyddiodd y gweithgareddau creadigol ystod o dechnegau, ac roedd plant y Cylch yn gallu ymarfer a meistroli'r defnydd o siswrn i dorri siapau.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**
Roedd y sesiynau wedi helpu'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar i deimlo'n fwy hyderus yn archwilio posibiliadau newydd ar gyfer defnyddio'r man awyr agored gyda'r plant. Gallasant weld defnydd newydd ar gyfer eitemau bob dydd, ac ailgylchu deunyddiau i'w defnyddio mewn creadigrwydd a chwarae.

**DYFALBARHAUS**
Mae staff y lleoliad wedi gallu gweld buddion cymryd eu hamser i archwilio yn yr awyr agored a natur. Daethant yn fwy hyderus yn gadael i'r plant arwain y ffordd, yn hytrach na threfnu gweithgareddau strwythuredig gyda chanolbwynt rhagddiffiniedig.

[18] Ffurflen Werthuso Dyffryn Banw

[19] ibid

### CYDWEITHIOL
Roedd gan staff y lleoliad natur gydweithredol ac roeddent yn gweithio fel tîm, ond roedd y sesiynau'n eu helpu nhw i ystyried sut i reoli'r heriau o fod yn yr awyr agored gyda phlant bach. Mae gofynion o ran aros o fewn y gymhareb ac anghenion toiled neu fyrbrydau'r plant yn golygu bod angen ymdrech gydweithiol ar anturiaethau awyr agored, ond maent o fudd i'r staff ac i'r plant.

### LLAWN DYCHYMYG
Helpodd y sesiynau i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar weld y potensial o ddefnyddio'r man awyr agored mewn ystod fawr o ffyrdd newydd a chyffrous. Roedd y sesiynau'n helpu'r plant i fod yn weithgar ac i fynegi eu hemosiynau trwy chwarae, a wnaeth helpu i staff y lleoliad weld sut allent barhau â'r gweithgareddau hyn yn y dyfodol.

### DISGYBLEDIG
Cefnogodd y sesiynau yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar i ddatblygu eu sgiliau creadigol ymhellach, ac i fyfyrio ar sut allant ddwyn yr hyn a ddysgasant yn y sesiynau ymlaen i'r dyfodol.

## 3.6 Cylch Meithrin Ffynnonwen

Mae Cylch Meithrin Ffynnonwen wedi'i leoli yn ymyl pentrefan bach Login yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cylch yn lleoliad Cymraeg, mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae wedi'i leoli yn un o ardaloedd lleiaf poblog Cymru, a ddisgrifir yn 'bentref gwledig a gwasgaredig mewn lleoliad prin'.

Roedd ar y lleoliad eisiau datblygu hyder yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau newydd a datblygu sgiliau newydd. Hefyd, roedd arno eisiau canolbwyntio ar gefnogi'r plant i fod yn fwy annibynnol, i ymgysylltu'n fwy rhydd ac i gyfathrebu'n fwy hyderus.

Gweithiodd y lleoliad gyda dau Ymarferydd Creadigol yn archwilio sut allent ddefnyddio'r man awyr agored yn fwy effeithiol ac mewn ffyrdd a ymgysylltai â chreadigrwydd y plant. Daeth yr Ymarferwyr Creadigol ag ystod fawr o weithgareddau a phrosesau creadigol gwahanol i'r Cylch, a threuliasant amser yn ymgysylltu â'r plant mewn grwpiau llai er mwyn sicrhau y gallai pob un ohonynt roi cynnig ar y gweithgaredd. Mae oedrannau plant y lleoliad yn amrywio o 18 mis i 4 blwydd, felly roedd rhaid i'r Ymarferwyr Creadigol fod yn hyblyg ac addasadwy iawn er mwyn sicrhau y gallai'r holl blant gymryd rhan ym mhob gweithgaredd.

Gwelsom ganlyniadau arbrofion y plant â phrintio 'seianoteip' (gweler y lluniau isod).



Roedd y plant wrth eu boddau â'r gweithgaredd hwn, a'r ffordd hudol ymddangosodd y delweddau ar y papur wrth eu datgelu i olau'r haul. Dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yr oedd yn ddiddorol iddynt weld sut y defnyddiodd yr artistiaid prosesau syml ond effeithiol gyda'r plant.

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**

Dim ond 18 mis oed oedd y plentyn ieuengaf a gymerodd rhan yn y sesiwn, ond roedd yn gallu cymryd rhan weithgar ym mhob un o'r gweithgareddau. Arweiniwyd yr Ymarferwyr Creadigol gan y plant, gan addasu'n gyflym a chefnogi'r plant i gymryd rhan lle bo angen. Roedd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a'r Ymarferwyr Creadigol wedi synnu i weld gallu hyd yn oed y plant lleiaf wrth iddynt roi cynnig ar ystod o brosesau creadigol, a'u meistroli.

**DYFALBARHAUS**

Roedd rhaid i'r plant ymarfer defnyddio'r offer i'w defnyddio'n effeithiol, yn enwedig ar gyfer y gweithgaredd lle roeddent yn bwrw dail a blodau â morthwyl i wneud patrymau mewn defnydd. Roedd angen arnynt fod yn ddyfalbarhaus ac yn awyddus i barhau i roi cynnig arni hyd nes iddynt gyflawni'r canlyniadau a ddymunasant.

**CYDWEITHIOL**

Cydweithiodd y plant i adeiladu polion totem o hen focsys cardfwrdd. Roedd angen iddynt gydweithio er mwyn dod o hyd i'r bocsys maint cywir i'w rhoi ar ben ei gilydd yn effeithiol a hefyd helpu i ddylunio, tynnu llun, paentio a chreu collage ar y pentwr gorffenedig. Roedd y plant yn falch o'u gwaith ac wedi gallu cyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol.

**LLAWN DYCHYMYG**

Dywedodd yr Ymarferwyr Creadigol bod plant y Cylch "mor ddychmygus" ac yn agored i roi cynnig ar unrhyw brofiad newydd. Dechreuodd y plant llai hyderus ymuno â'r gweithgareddau a siarad wrth i'r sesiynau mynd rhagddynt. Arsylwodd yr Ymarferwyr Creadigol bod holl blant y Cylch yn ymgysylltu'n well, yn barod i rannu eu syniadau ac yn cyfathrebu'n well erbyn diwedd eu hamser gyda'r Cylch.

**DISGYBLEDIG**

Dywedodd yr Ymarferwyr Creadigol y bu rhaid iddynt ddiwygio eu cynlluniau gwreiddiol, gan ganiatáu i'r plant ddychwelyd at yr un gweithgareddau yn hytrach na symud ymlaen i'r nesaf pob sesiwn. Roedd y plant eisiau ymarfer a gwella eu technegau – yn arbennig wrth ddefnyddio'r offer.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**

Cafodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar eu hysbrydoli gan yr Ymarferwyr Creadigol i weld potensial ystod o ddeunyddiau. Fel tîm, cawsant eu hysbrydoli i barhau i "arbrofi"[20] ac i ddatblygu mwy o ffyrdd i ymgysylltu â chreadigrwydd y plant ac i archwilio sut i ddefnyddio'r man awyr agored.

[20] Ffurflen Werthuso Cylch Meithrin Ffynnonwen

**DYFALBARHAUS**

Mae'r lleoliad wedi dechrau defnyddio mwy ar y man awyr agored ers darganfod ffyrdd o'i wneud yn fwy deniadol a chyffrous i'r plant. Mae'r staff wedi ystyried yr amser a dreuliwyd tu allan yn fuddiol ac y cafodd, "…effaith bositif ar y staff a'r plant."[21]

**CYDWEITHIOL**

Cydweithiodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar i alluogi cynifer o blant â phosibl i gymryd rhan yn y gweithgareddau – yn enwedig y rhai tu allan. Cydweithredodd y staff i weithio gyda'r plant mewn grwpiau bach er mwyn iddynt gymryd rhan yn y gweithgareddau gyda'r Ymarferwyr Creadigol.

**LLAWN DYCHYMYG**

Yn ystod y sesiynau, defnyddiodd yr Ymarferwyr Creadigol amrywiaeth fawr o ddeunyddiau a achubwyd, a ailgylchwyd neu a addaswyd. Dywedodd staff y lleoliad bod hynny wedi'u helpu nhw i weld y potensial creadigol mewn llawer o bethau na fyddant wedi'u defnyddio fel arall.

**DISGYBLEDIG**

Roedd angen defnyddio offer yn y sesiynau, a helpodd yr Ymarferwyr Creadigol i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar deimlo'n gyffyrddus ynghylch rheoli'r risgiau'n gysylltiedig â chaniatáu i'r plant ddefnyddio morthwylion a llifiau.


[21] ibid

## 3.7 Cylch Meithrin Llangollen

Mae Cylch Meithrin Llangollen wedi'i leoli yn nhref Llangollen, Sir Ddinbych. Mae'r Cylch yn lleoliad Cymraeg, mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae wedi'i leoli mewn ardal a ddisgrifir yn 'dref wledig a chyrion'.

Mae'r Cylch wedi'i leoli mewn capel a ddefnyddir ar gyfer addoli a gweithgareddau cymunedol hefyd, sy'n golygu bod cyfyngiadau ar y ffordd y gellir defnyddio'r gofod – yn enwedig y man awyr agored sy'n fach ac yn anodd ei gyrraedd. Roedd ar y lleoliad eisiau canolbwyntio ar ffyrdd o alluogi'r plant i fynd i'r awyr agored, ymgysylltu â natur, cysylltu â'r ardal o'u cwmpas, a datblygu ymdeimlad o berthyn. Gweithiodd y lleoliad â dau Ymarferydd Creadigol i'w helpu i gyflawni'r nodau hyn.

Cydweithredodd yr Ymarferwyr Creadigol â chartref gofal drws nesaf i'r lleoliad, gan ganiatáu i'r plant ddefnyddio tiroedd helaeth y cartref. Arweiniodd yr Ymarferwyr Creadigol y plant ar ymweliadau â'r gerddi cyn eu cynnwys mewn ystod eang o weithgareddau fel ffeltio, paentio gyda'u traed, marcio a phrintio gan ddefnyddio inc a rholiau, defnyddio offer, llinynnau a phwlïau. Cefnogwyd y staff a'r plant gan yr Ymarferwyr Creadigol i ddefnyddio deunyddiau naturiol a rhai a gafwyd hyd iddynt yn eu creadigrwydd er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd ac i helpu iddynt "feithrin cysylltiad agosach â natur."[22]



[22] Ffurflen Werthuso Cylch Meithrin Llangollen

Roedd y plant yn gallu datblygu ymdeimlad o berthyn yng ngardd y cartref gofal. Yn benodol, mwynhasant gyfarfod â rhai o'r trigolion a chi llathaid y perchnogion.

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**
Ers cymryd rhan yn y sesiwn, mae rhieni'r plant a staff y lleoliad wedi arsylwi arnynt yn casglu ffyn a gwrthrychau naturiol a gafwyd hyd iddynt i'w defnyddio fel brwsys paent a deunyddiau adeiladu. Maent yn fwy cyffrous i archwilio eu hamgylchedd naturiol ac i ddilyn eu chwilfrydedd, ble bynnag yr aiff â nhw.

**DYFALBARHAUS**
Dywedodd yr Ymarferwyr Creadigol nad oedd rhai o'r plant yn gyffyrddus yn gwneud llanast ac yn baeddu eu dwylo ar ddechrau'r sesiynau. Wrth i'r sesiynau mynd rhagddynt, daeth y plant yn fwy cyffyrddus ac yn fwy parod i gymryd rhan mewn gweithgareddau synhwyraidd ac i faeddu ychydig fel rhan o'u chwarae.

**CYDWEITHIOL**
Cafodd y plant cwrdd â thrigolion hŷn y cartref gofal, a meithrin perthynas â hwy. Roeddent yn gallu rhannu eu profiadau creadigol â'r trigolion, gan ddangos iddynt y pethau a ddaethpwyd o hyd iddynt, ac esbonio sut yr oeddent yn mynd i'w defnyddio. Roedd hyn yn eu helpu i deimlo'n fwy o ran o'u cymuned, ac i ddatblygu ymdeimlad o gynefin.

**LLAWN DYCHYMYG**
Gallai'r plant arwain y gweithgareddau creadigol a dilyn eu dychymyg. Galluogodd y sesiynau iddynt greu eu bydoedd dychmygol eu hunain, "gwnaethon nhw greu castell a theyrnas, lle'r oedd crocodeil cyfeillgar yn byw sef... yr ymarferydd blynyddoedd cynnar a wnaeth droi'n sglefren fôr. Roedd yr olygfa hefyd yn cynnwys llong morladron yr oeddent wedi'i greu o flwch coch, ac yn defnyddio darnau sbâr o bren fel rhwyfau."

**DISGYBLEDIG**
Dangoswyd i'r plant sut i ddefnyddio offer fel morthwyl pren a phegiau, ac roeddent yn gallu ymarfer defnyddio'r morthwyl yn effeithiol. Cawsant eu cefnogi gan yr Ymarferwyr Creadigol i ddatrys problemau dros eu hunain, gan feddwl sut i gyflawni'r canlyniadau roedd arnynt eu heisiau trwy ddefnyddio'r deunyddiau wrth law.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**
Defnyddiwyd deunyddiau naturiol a rhai a gafwyd hyd iddynt yng ngweithgareddau creadigol y sesiynau, gan alluogi staff y lleoliad i deimlo'n fwy hyderus am y ffaith nad oes angen offer a deunyddiau drud ar greadigrwydd o reidrwydd.

**DYFALBARHAUS**
Dywedodd yr Ymarferwyr Creadigol bod staff y lleoliad yn agored iawn i roi cynnig ar bethau newydd, rheoli risg a goddef peidio â gwybod sut y byddai rhywbeth yn troi allan. Dywedasant, "mae'n hyfryd gweld tîm sy'n holl gytûn â'r un ffordd o feddwl – ac mor agored i brofiadau newydd a gadael i'r plant eu harwain, a dilyn eu chwilfrydedd."

## CYDWEITHIOL

Cydweithredodd staff y lleoliad â'r Ymarferwyr Creadigol a dysgu oddi wrth ei gilydd, gan rannu eu gwybodaeth arbenigol a sgiliau er budd pawb a gymerodd rhan. Roedd ymddygiad staff y lleoliad yn fodel o Oedolion sy'n galluogi dysgu, a helpodd yr Ymarferwyr Creadigol staff y lleoliad i werthfawrogi, "..gwerth cymryd cam yn ôl a chaniatáu i'r plant llywio eu chwarae a'u chwilfrydedd eu hunain."[23]

## LLAWN DYCHYMYG

Wrth i'r sesiynau fynd rhagddynt, arsylwodd yr Ymarferwyr Creadigol staff y lleoliad yn tyfu'n fwy cyffyrddus yn gadael i'r plant arwain, ac i ymuno â nhw yn eu bydoedd dychmygol.

## DISGYBLEDIG

Mae'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar wedi gallu datblygu ystod o dechnegau a phrosesau creadigol newydd y bwriadant fwrw ymlaen â nhw yn y dyfodol. Gwelsant y gwerth o gamu'n ôl ac arsylwi'r plant yn chwarae, i ddefnyddio'r arsylwadau er mwyn ystyried sut orau i gynorthwyo a galluogi i'r plant chwarae.

[23] Ibid

## 3.8 Cylch Meithrin Llanrhaeadr

Mae Cylch Meithrin Llanrhaeadr wedi'i leoli ym mhentref Llanrhaeadr, ychydig i'r de o Ddinbych yn Sir Ddinbych. Mae'r Cylch yn lleoliad Cymraeg, mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae wedi'i leoli mewn ardal a ddisgrifir yn 'bentref gwledig a gwasgaredig'.

Mae'r lleoliad wedi'i leoli mewn hanner neuadd ysgol, sy'n golygu mae'n rhaid iddynt roi popeth i gadw ar ôl pob sesiwn. Fodd bynnag, mae'r Cylch yn gallu defnyddio man awyr agored a pharciau a choetiroedd gerllaw. Bwriadodd y lleoliad defnyddio'r sesiynau i'w helpu i ddefnyddio'r man awyr agored yn well ac i gefnogi'r plant i fod yn fwy hyderus wrth symud yn greadigol.

Bu'r lleoliad yn gweithio gyda dau Ymarferydd Creadigol â sgiliau chwarae yn yr awyr agored a dawns. Roedd y sesiynau yn canolbwyntio ar adeiladu hyder yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a'r plant i symud a dawnsio'n ddigymell ac yn llawen. Defnyddiodd yr Ymarferydd Creadigol a arbenigai mewn dawns a symud themâu megis 'o dan y môr' a chynnwys symud a dawns yn y teithiau awyr agored.

Ymwelsom â'r lleoliad ac arsylwi sesiwn dawns yn mynd rhagddo. Gweithiodd un o'r Ymarferwyr Creadigol gyda'r plant i greu dawns i stori'r "Tri Mochyn Bach". Aeth y plant tu allan gyda'r ail Ymarferydd Creadigol i adeiladu ffeuau o friciau pren, ac i wisgo i fyny os yr hoffent, gan ddilyn thema'r Tri Mochyn Bach. Cynlluniwyd y sesiwn yn dda, gyda chydweithrediad yr Ymarferwyr Creadigol a staff y lleoliad. Gwahoddwyd y plant i chwarae, ac i ddefnyddio'r deunyddiau ac adnoddau ym mha bynnag ffordd yr hoffent, i gymryd rhan yn y gweithgaredd gymaint ag yr hoffent, ac i fynd â'u gemau llawn dychymyg i gyfeiriadau newydd.



Dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar eu bod yn fwy hyderus yn gwneud mwy yn yr awyr agored, yn enwedig y gweithgareddau a ystyriwyd yn rhy beryglus cyn i'r sesiynau ddechrau. Gwelsant nad oedd angen strwythuro neu gynllunio gweithgareddau symud a dawns yn fanwl, ac y gallasant fod yn ddigymell a digwydd yn unrhyw le. Dywedodd y staff, "Teimlwn yn fwy hyderus fel staff i gyflawni sesiynau dawns a symud. Bydd yr hyder hwn yn ein helpu ni i annog y plant i fagu hyder lle bo angen hefyd."[24]

Dywedodd un rhiant "Mae fideos dydd Llun yn fodd i fyw!" ac un arall "Maen nhw mor dda, mae'n anhygoel beth maen nhw'n ei gyflawni mewn cyn lleied o amser."[25]

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**
Roedd y plant yn gallu defnyddio eu dychymyg yn ddirwystr yn ystod y sesiynau, a chawsant nifer o wahoddiadau i chwarae gan yr Ymarferwyr Creadigol. Drwy gamu'n ôl, roedd yr oedolion yn galluogi'r plant i ddefnyddio'u dychymyg ac yn rhoi rhyddid iddynt chwarae'n greadigol.

**DYFALBARHAUS**
Gallai'r plant herio eu galluoedd eu hunain yn ystod y sesiynau awyr agored, gan ddringo, neidio ac ehangu ar eu hyder corfforol. Trwy ailadrodd gweithgareddau a derbyn heriau newydd, gallai'r plant ddatblygu sgiliau newydd a chredu yn eu galluoedd eu hunain.

**CYDWEITHIOL**
Cydweithiodd y plant â'i gilydd i berfformio stori'r Tri Mochyn Bach. Yn ystod y gweithgaredd awyr agored a arsylwom, roedd y plant yn cydweithredu'n dda yn adeiladu ffeuau i guddio ynddynt rhag y blaidd.

**LLAWN DYCHYMYG**
Rhoddwyd bocsys o 'jync' i'r plant a'u gwahodd i'w defnyddio i chwarae fel yr hoffent. Defnyddiasant eu dychymyg i greu eu gemau eu hunain.

**DISGYBLEDIG**
Roedd y plant eisiau ailadrodd symudiadau fel martsio, gan ei fod yn eu helpu i ddatblygu a gwella eu hyder o ran symud corfforol. Gwelodd yr Ymarferwyr Creadigol gwelliant yn hyder a phleser y plant wrth symud fel aeth y sesiynau yn eu blaenau.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**
Dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar bod y sesiynau wedi'u helpu nhw i weld posibiliadau newydd a ffyrdd o ddefnyddio'u sgiliau i gefnogi creadigrwydd y plant yn y dyfodol. "Rydym hefyd wedi dechrau meddwl am ba adnoddau y gallwn ni eu darparu i'r plant er mwyn rhoi iddynt y rhyddid i fynegi eu hunain yn greadigol."

[24] Ffurflen Werthuso Cylch Meithrin Llanrhaeadr.

[25] Dogfen fyfyrio a rannwyd gan y lleoliad.

**DYFALBARHAUS**

Helpodd y sesiynau i'r staff deimlo'n fwy hyderus yn ymgysylltu â'r plant mewn gweithgareddau mwy anturus, fel dringo ac adeiladu tân. Roedd rhai o staff y lleoliad yn arbennig o bryderus am risg, ond roedd y sesiynau'n helpu iddynt deimlo eu bod yn gallu asesu a rheoli risg yn well, "Yn benodol... roedd y gefnogaeth a gafodd un aelod o'r staff wedi symud eu hofnau ynghylch chwarae mentrus, a gallai gweld y buddion cadarnhaol a ddaethant i'r plant ac i'r lleoliad."[26]

**CYDWEITHIOL**

Roedd staff y lleoliad wedi cyd-ystyried ble roedd angen cymorth arnynt ac wedi pennu meysydd lle'r oedd arnynt eisiau datblygu. Gweithiasant gyda'i gilydd fel tîm gyda'r Ymarferwyr Creadigol i ymgysylltu'n llawn â'r sesiynau, gan roi a derbyn adborth.

**LLAWN DYCHYMYG**

Mae'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio adnoddau a thechnegau creadigol gwahanol i hwyluso creadigrwydd y plant. Maent wedi cymryd syniadau gan yr Ymarferwyr Creadigol ac yn cynllunio sut i'w defnyddio mewn ffyrdd newydd llawn dychymyg i barhau â'u taith greadigol gyda'r plant.

**DISGYBLEDIG**

Mae staff y lleoliad wedi datblygu eu hyder eu hunain o ran chwarae yn yr awyr agored a dawnsio drwy ymgysylltu'n weithredol â'r gweithgareddau gyda'r plant. Maent hefyd wedi cynnwys rhieni a gofalwyr, gan gasglu eu barn a'u sylwadau ynghylch yr effaith a gafwyd ar blant unigol, er mwyn helpu iddynt adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio yn eu lleoliad nhw.

[26] Ffurflen werthuso Cylch Meithrin Llanrhaeadr

## 3.9 Cylch Meithrin Machynlleth

Mae Cylch Meithrin Machynlleth wedi'i leoli yn nhref Machynlleth ym Mhowys. Mae'r Cylch yn lleoliad Cymraeg, mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae wedi'i leoli yn un o ardaloedd lleiaf poblog Cymru, a ddisgrifir yn 'bentref gwledig a gwasgaredig mewn lleoliad prin'.

Bwriadai'r lleoliad defnyddio'r sesiynau i alluogi'r plant i ddysgu mwy am y byd naturiol ac i ddatblygu sgiliau gwaith coed a sgiliau awyr agored. Roedd arno eisiau cynnwys symud, canu a dawns hefyd. Gweithiodd y lleoliad gyda dau Ymarferydd Creadigol a ganolbwyntiasant ar ddatblygu chwarae yn yr awyr agored, gan ddefnyddio offer, symud a dawns. Arweiniwyd sesiynau yn yr awyr agored gan yr Ymarferwyr Creadigol, yn chwarae cuddio, yn chwilio am bryfed, yn canu caneuon ac yn dawnsio. Cynhaliwyd y sesiynau ym mhob tywydd, gan adeiladu hyder staff y lleoliad i ymgysylltu â'r plant yn yr awyr agored unrhyw adeg o'r flwyddyn. Galluogodd y sesiynau i'r staff ddatblygu ffyrdd newydd o ddefnyddio'u hadnoddau hefyd, ac i deimlo'n fwy hyderus yn cefnogi'r plant yn defnyddio offer. Defnyddiwyd ardal awyr agored goediog ar gyfer y sesiynau, nad oedd y lleoliad wedi mynd iddo cyn hynny.

Aeth yr Ymarferwyr Creadigol â'r plant i ardd gymunedol, lle cymerasant ran mewn sesiwn gyda gwirfoddolwyr cymunedol. Y gobaith yw y bydd y berthynas hon â'r ardd yn parhau, gan alluogi'r plant a staff y lleoliad i rannu yn y broses o dyfu a bwyta eu bwyd eu hunain. Rhoddodd y sesiynau symud cyfle i'r plant "...ddatblygu ymwybyddiaeth o'u cyrff o ran eu cydsymud, cryfder craidd a chydbwysedd, a sgiliau echddygol bras a manwl."[27]

Dathlwyd diwedd y sesiynau drwy gynnal digwyddiad yn y Cylch i'r teuluoedd ei fynychu a rhannu'r profiad dysgu gyda'u plant. Dywedodd yr Ymarferwyr Creadigol ei fod, "... mor hyfryd i weld y plant yn cymryd yr awenau ac yn dangos/cyfarwyddo'r rhieni/teulu yn ystod y sesiwn hwn."[28] Dywedodd y lleoliad bod defnyddio dau Ymarferydd Creadigol wedi golygu bod y sesiynau'n fyrrach nag y byddent wedi'i hoffi. Roedd un o'r Ymarferwyr Creadigol yn llai hyderus yn siarad Cymraeg a olygai y cafodd rhywfaint o Saesneg ei defnyddio. Dywedodd yr Asiant Creadigol "..mae'n debyg bod diffyg Ymarferwyr Creadigol sy'n hyderus yn y Gymraeg"[29] a bod hyn yn rhywbeth i'w ystyried yn y dyfodol.

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**
Galluogodd y sesiynau awyr agored i'r plant cael eu harwain gan eu chwilfrydedd naturiol ac i archwilio'u hamgylchedd.

**DYFALBARHAUS**
Gallai'r holl blant rhoi cynnig ar weithgareddau newydd ac ymarfer pethau a oedd yn anodd iddynt yn ystod y sesiynau. Dywedodd yr Asiant Creadigol, "Nid oedd un plentyn yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgaredd o greu bwydwr adar ac roedd eisiau rhoi gorau i ddefnyddio'r pliciwr tatws ar ôl ceisio stripio'r pren deirgwaith. Trwy roi cefnogaeth ac anogaeth iddo, aeth ymlaen â'r dasg a llwyddo i greu eitem orffenedig erbyn y diwedd."

[27] Ffurflen werthuso Cylch Meithrin Machynlleth.

[28] ibid

[29] ibid

**CYDWEITHIOL**

Cydweithiodd y plant â'i gilydd - yn enwedig yn y gweithgareddau awyr agored lle'r oedd angen iddynt gydweithredu i gyflawni eu nodau. Dywedodd yr Asiant Creadigol, "Roedd grŵp bach o blant yn y sesiwn ysgol goedwig, a gwelwyd newid amlwg yn eu cyflwyniad erbyn diwedd y prosiect. Roeddent yn hapusach i ymuno â'r grŵp bach hwn a ddiogelwyd, roedd eu hyder wedi tyfu ac erbyn y diwedd, roeddent yn teimlo'n gyffyrddus ac wedi adeiladu perthynas gyda'r ymarferydd creadigol, gan siarad ag ef am bethau a oedd yn digwydd yn eu bywydau nhw."

**LLAWN DYCHYMYG**

Anogwyd y plant i ofyn cwestiynau, i wneud cysylltiadau newydd ac i ddefnyddio'u dychymyg, "Roedd y plant yn hapus yn archwilio, yn gofyn ac yn ateb cwestiynau. Roeddent yn gyffyrddus yn addasu caneuon newydd, yn rhoi cynnig ar waith rhythmig."[30]

**DISGYBLEDIG**

Roedd y plant yn gallu datblygu eu sgiliau, yn arbennig o ran defnyddio offer a symud corfforol, drwy gael y cyfle i ailadrodd ac ymarfer gweithgareddau yn ystod y sesiynau.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**

Gallai staff y lleoliad herio eu rhagdybiaethau o ran risg a'r hyn roedd y plant yn gallu ei wneud drwy arsylwi'r Ymarferwyr Creadigol.

**DYFALBARHAUS**

Roedd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn gallu teimlo'n fwy hyderus yn galluogi'r plant i ddefnyddio offer, ac i deimlo'n fwy cyffyrddus yn rheoli risg. Dywedasant, "Mae'r staff yn teimlo'n ddewrach ynghylch amrywiaeth o offer a'u defnyddio."[31]

**CYDWEITHIOL**

Gweithiodd staff y lleoliad gyda'r Ymarferwyr Creadigol i gynnwys y plant yn y sesiynau, a'u cyffroi ynddynt. Bwriadant barhau â llawer o'r gweithgareddau a symud eu dysgu ymlaen yn y dyfodol.

**LLAWN DYCHYMYG**

Gallai'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar weld sut i ddefnyddio'u hadnoddau presennol, gwrthrychau naturiol ac eitemau eraill a gafwyd hyd iddynt yn greadigol. Dywedodd yr Asiant Creadigol bod yr Ymarferwyr Creadigol wedi, "...dod ag egni a ysbrydolodd y plant, y lleoliad a'r staff, ac ysgogi'r Antis."

**DISGYBLEDIG**

Roedd y sesiynau wedi galluogi staff y lleoliad i ystyried sut y gallent ddefnyddio eu man awyr agored yn greadigol yn y dyfodol, a'u helpu nhw i ymarfer ystod o arferion creadigol gwahanol er mwyn ymgysylltu â'r plant.

---

30 ibid

31 ibid

## 3.10 Cylch Meithrin Rhostryfan

Mae Cylch Meithrin Rhostryfan wedi'i leoli ym mhentref Rhostryfan, i'r de o Gaernarfon yng Ngwynedd. Mae'r Cylch yn lleoliad Cymraeg, mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae mewn ardal a ddisgrifir yn 'bentref gwledig a gwasgaredig'.

Mae'r lleoliad mewn neuadd ysgol, a rhaid iddo roi popeth i gadw ar ddiwedd bob sesiwn. Roedd hyn yn peri heriau i'r Cylch o ran pa weithgareddau a ellid eu cyflawni gyda'r plant. Roedd y lleoliad yn rhannu'r man awyr agored gyda'r ysgol hefyd, ac roedd ei fynediad iddo wedi'i gyfyngu ar adegau oherwydd gweithgareddau'r ysgol. Nid oedd y lleoliad wedi cwblhau ffurflen cynllunio, ond roedd wedi penodi dau Ymarferydd Creadigol â phrofiad mewn symud, dawns a chwarae yn yr awyr agored.

Yn ystod y sesiynau, gallai'r plant cymryd rhan mewn amrywiaeth fawr o weithgareddau tu mewn a thu allan, gan gynnwys chwarae rôl llawn dychymyg, dawns, creu cacenni mwd a defnyddio defnydd i greu hamogau a ffeuau. Gallasent archwilio'r ardal tu allan, chwilio am bryfed ac archwilio'r gwrthrychau naturiol y daethant o hyd iddynt. Cawsant sesiwn terfynol gyda cherddor, a rhoddwyd clocsiau iddynt ddawnsio a chanu gyda'i gilydd.



**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**
Cafodd y plant y rhyddid i archwilio yn yr awyr agored yn ystod y sesiynau, gan chwilio am bryfed, yn procio dan fonion coed ac mewn boncyffion i ddod o hyd i bethau. Roedd y rhyddid a roddwyd iddynt gan yr Ymarferwyr Creadigol yn eu galluogi nhw i ddilyn eu chwilfrydedd, a dysgu geiriau am y pryfed a'r gwrthrychau y daethant o hyd iddynt. Dywedodd yr Ymarferwyr Creadigol, "...gwelwyd rhai plant yn blodeuo wrth fod yn yr awyr agored."

**DYFALBARHAUS**
Dywedodd yr Ymarferwyr Creadigol, "Profodd y bythefnos gyntaf yn eithaf heriol i'r ymarferwyr creadigol ond daeth newid amlwg wrth i'r plant ddechrau mwynhau'r ymweliadau a'r gweithgareddau yr oedd yr YC yn eu cyflwyno." Arhosodd y plant gyda'r gweithgareddau newydd a heriol a gyflwynwyd iddynt hyd nes iddynt ddechrau eu mwynhau.

**CYDWEITHIOL**
Gwahoddwyd y plant i chwarae gyda nifer fawr o focsys gwag. Defnyddiasant y bocsys i greu llongau a rhwyfau. Cydweithiasant â'i gilydd i wireddu'r weledigaeth hon a rannwyd a helpu ei gilydd i gymryd rhan, gyda rhai ohonynt yn rhwyfo ac eraill yn llywio'r llong.

**LLAWN DYCHYMYG**
Trwy gydol y sesiynau, cafodd y plant eu hysbrydoli i ddefnyddio'u dychymyg ac i archwilio'u hamgylchedd yn rhydd. Croesawyd y gwahoddiadau i chwarae a estynnwyd i'r plant yn ystod y sesiynau, a daethant yn fwy hyderus yn mynegi eu hunain trwy chwarae llawn dychymyg.

**DISGYBLEDIG**
Roedd y plant yn fwy hyderus ac yn gyffyrddus i symud a dawnsio erbyn diwedd y sesiynau. Trwy ymgysylltu'r plant â dawns yn rheolaidd, daethant yn fwy hyderus yn mynegi eu hunain trwy symud.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**
Dywedodd yr Asiant Creadigol bod staff y lleoliad yn fodlon iawn i gymryd rhan yn y gweithgareddau ac i roi cynnig ar bethau. Teimlodd fod hyder y staff yn eu hunain wedi tyfu, yn ogystal â'u hyder yng ngalluoedd y plant. Gwelodd yr Asiant Creadigol bod y staff yn dechrau teimlo'n ddigon hyderus i gynnwys eu syniadau eu hunain yn y sesiynau, i archwilio pa weithgareddau eraill y gallent eu cynnwys er mwyn ymgysylltu'n greadigol â'r plant.

**DYFALBARHAUS**
Roedd yr heriau a gododd oherwydd lleoliad y Cylch yn golygu bod cynllunio'r sesiynau yn fwy anodd ac yn fwy cymhleth. Fodd bynnag, gweithiodd staff y lleoliad gyda'r Ymarferwyr Creadigol i roi cynnig ar ffyrdd newydd o drefnu'r gofod, i ddarganfod beth a weithiodd orau.

**CYDWEITHIOL**
Oherwydd yr angen i roi popeth i gadw ar ddiwedd y sesiwn a'r diffyg mynediad i'r man tu allan, roedd rhaid i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar weithio'n gydweithredol â'i gilydd a gyda'r Ymarferwyr Creadigol. Roedd y sesiynau cyntaf yn anodd.

**LLAWN DYCHYMYG**

Dywedodd yr Ymarferwyr Creadigol bod yr "…holl staff yn sicrhau darpariaeth sydd yn sicrhau cyfleoedd cynhwysfawr i'r plant ddefnyddio eu dychymyg ac offer yn eu hamgylchedd i ffurfio eu dymuniadau. Gall y staff ymuno yn eu chwarae yn berthnasol a chyfoethogi eu profiadau wrth ychwanegu at eu profiadau heb gyfyngu eu syniadau."

**DISGYBLEDIG**

Cafodd heriau cychwynnol y sesiynau cyntaf eu goresgyn trwy gydweithredu gan staff y lleoliad a'r Ymarferwyr Creadigol, a'u gwaith tîm. Roedd rhaid i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar ystyried yr hyn a weithiai yn y lleoliad, a helpu'r Ymarferwyr Creadigol i lunio'r sesiynau er mwyn iddynt weithio yn eu Cylch nhw. Gallasant ddatblygu eu sgiliau a'u galluoedd drwy gymryd rhan yn y sesiynau.

## 3.11 Cylch Meithrin Rhuthun

Mae Cylch Meithrin Rhuthun wedi'i leoli yn nhref Rhuthun yn Sir Ddinbych. Mae'r Cylch yn lleoliad Cymraeg, mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae mewn ardal a ddisgrifir yn 'dref wledig a chyrion'.

Canolbwyntiodd cynllun y lleoliad ar ddatblygu chwe maes canolbwyntio'r Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir yng Nghymru. Nododd y cynllun hefyd bod y lleoliad yn canolbwyntio ar ddatblygu holl Arferion Creadigol y Meddwl. Roedd ar y lleoliad eisiau defnyddio'r sesiynau i annog cyfathrebu, hyder wrth symud a defnyddio'u lleisiau.

Penododd y lleoliad Ymarferydd Creadigol sy'n gerddor ac yn artist symud. Gweithiodd gyda'r lleoliad i ddod ag offerynnau cerdd i'r sesiynau, helpu'r plant i ddysgu am rythm, i greu eu hofferynnau cerdd eu hunain o wrthrychau naturiol, ac i arbrofi gyda'r synau y gallant eu creu gyda'u lleisiau a'u cyrff. Cynhaliwyd llawer o'r sesiynau tu allan, gan gynnig ffyrdd newydd o ddefnyddio man awyr agored y lleoliad a rhoi i'r plant y cyfleoedd a'r hyder i fynegi eu hunain yn rhydd.

Defnyddiodd y plant amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol a rhai wedi'u hailgylchu i greu eu hofferynnau eu hunain, megis siglo india-corn mewn hen boteli. Gallai'r plant ymarfer defnyddio offer gwahanol a rhoi cynnig ar brosesau gwahanol trwy gydol y sesiynau. Dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar bod y sesiynau wedi digwydd ar adeg pan oedd y Cylch yn datblygu ei man awyr agored, a bod yr amseru'n berffaith. Disgrifiasant y gweithgareddau a'r offerynnau a ddaeth yr Ymarferydd Creadigol gydag ef i'r sesiynau yn "hynod effeithiol".

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**
Cafodd y plant y cyfle i ryngweithio ac arbrofi ag ystod o offerynnau, archwilio ac arbrofi i greu synau, rhythmau a thonau gwahanol.

**DYFALBARHAUS**
Roedd y plant yn gallu creu eu hofferynnau cerdd eu hunain o wrthrychau naturiol a rhai wedi'u hailgylchu, heb wybod pa sŵn y byddai'r offerynnau yn eu gwneud. Roedd angen arnynt ddefnyddio grymoedd gwahanol, defnyddio symudiadau a gweithrediadau gwahanol i greu synau mwy swnllyd neu fwy tawel, gan roi cynnig ar wahanol ffyrdd o wneud y sŵn yr oedd arnynt ei eisiau.

**CYDWEITHIOL**
Cydweithiodd y plant i greu caneuon neu i greu synau a wneir gan wrthrychau gwahanol. Roedd rhaid iddynt weithio'n gydweithredol i greu sŵn trên, gan gyflymu ac arafu'r synau wrth i gyflymder y trên newid.

**LLAWN DYCHYMYG**
Defnyddiodd y plant eu dychymyg trwy gydol y sesiynau, yn creu geiriau newydd i ganeuon, synau newydd gyda'u cyrff ac offerynnau cerdd.

**DISGYBLEDIG**
Gallai'r plant defnyddio offer i ymarfer gwneud offerynnau cerdd gwahanol o ddeunyddiau naturiol. Roedd hyn yn eu galluogi nhw i ddatblygu technegau gwahanol ac i fireinio eu sgiliau gyda'r offer.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**
Gallai'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar ehangu ar eu dealltwriaeth o sut y gellid defnyddio cerddoriaeth yn y Cylch. Helpodd y sesiynau iddynt ystyried cerddoriaeth yn fwy na dim ond canu hwiangerddi yn ystod amser cylch, a dechreuasant ddefnyddio cerddoriaeth mewn ffyrdd gwahanol drwy gydol y diwrnod.

**DYFALBARHAUS**
Cyflwynodd yr Ymarferydd Creadigol cysyniadau cerddorol cymhleth i'r plant, gan ddangos i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar bod gwerth mewn rhoi cynnig ar bethau, hyd yn oed pan na wyddech sut y byddai'r plant yn ymateb. Wrth roi cynnig ar syniadau a chysyniadau mwy cymhleth gyda'r plant, dywedodd yr Asiant Creadigol bod staff y lleoliad yn fwy parod i roi cynnig ar bethau newydd gyda'r plant wedi iddynt gymryd rhan yn y sesiynau.

**CYDWEITHIOL**
Gweithiodd holl staff y lleoliad gyda'r Ymarferydd Creadigol i gynnwys yr holl blant yn y sesiynau. Roeddent hefyd yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm i reoli'r heriau a achoswyd gan waith adeiladu yn y man awyr agored, gan ddatrys problemau gyda'r adeiladwyr i greu ardal a oedd mor effeithiol â phosibl ar gyfer y plant.

**LLAWN DYCHYMYG**
Helpodd y sesiynau i staff y lleoliad weld y gellid creu offerynnau cerdd o unrhyw beth bron, ac nid oedd angen arnynt fod yn ddrud. "A toes dim rhaid i sesiynau cerddoriaeth fod yn ffurfiol, a toes dim angan prynu offerynnau drud."[32]

**DISGYBLEDIG**
Teimlodd staff y lleoliad bod y sesiynau wedi rhoi iddynt amrywiaeth o syniadau a ffyrdd newydd o gynnwys cerddoriaeth mewn gweithgareddau gyda'r plant, "...roedd y ffordd roedd o'n symleiddio syniadau cerddorol mawr i'r plant ifanc yn rhywbeth y byddwn ni yn parhau i'w gwneud yma."[33]

[32] Ffurflen werthuso Cylch Meithrin Rhuthun

[33] ibid

## 3.12 Cylch Meithrin Y Fali

Mae Cylch Meithrin Y Fali wedi'i leoli ar arfordir gorllewinol Ynys Môn. Mae'r Cylch yn lleoliad Cymraeg, mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae mewn ardal a ddisgrifir yn 'dref wledig a chyrion mewn lleoliad prin'.

Roedd ar y lleoliad eisiau datblygu gallu'r plant i ganolbwyntio, ynghyd â'u llythrennedd corfforol. Teimlai y byddai rhoi profiadau amlsynhwyraidd i'r plant yn eu helpu nhw i gynnal eu dyfalbarhad mewn tasgau. Roedd y lleoliad hefyd yn adnabod ioga fel ffordd o gefnogi hyder y plant wrth symud.

Gweithiodd y lleoliad gyda dau Ymarferydd Creadigol a arbeniga mewn symud, ioga a mynegiant corfforol, chwarae synhwyraidd a chwarae tu allan. Yn ystod pob sesiwn, rhoddwyd amser i ymestyn y corff ac i wneud ioga, pan fyddai'r plant yn symud ac yn canu, ac yn canolbwyntio ar symud eu cyrff. Symudodd y sesiynau ymlaen wedyn at wahodd y plant i chwarae, archwilio profiadau synhwyraidd drwy ymgysylltu â gwahanol ddeunyddiau, tecstilau, teimladau a lliwiau. Roedd y plant yn gallu defnyddio'u dychymyg a chwarae'n rhydd, gan droi'n bwy bynnag neu beth bynnag yr hoffasant.

Dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar bod y plant yn gallu canolbwyntio a dyfalbarhau yn well wrth ymgysylltu â'u gweithgareddau tu allan, i ffwrdd o'r bocsys dirifedi o deganau a gemau a oedd ganddynt yn y lleoliad. Gwelsant nad oedd y plant yn gallu canolbwyntio'u sylw cystal pan oeddent yn chwarae â theganau â defnydd rhagddiffiniedig (ceir, ceginau ac ati) ac roeddent yn synnu i weld sut cafodd y plant eu hysbrydoli i fod yn llawn dychymyg gyda phethau syml megis bocsys gwag.

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**

Teimlodd staff y lleoliad bod y sesiynau wedi sbarduno dychymyg naturiol y plant, a bod yr Ymarferwyr Creadigol wedi caniatáu i'r plant arwain gyda'u dychymyg.

**DYFALBARHAUS**

Fel y dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar, roedd "...y plant wedi dod yn amlwg wrth weithio gyda'r ymarferwyr a bod y staff wedi sylwi effaith wrth iddynt gyd chwarae gyda'r plant. Roedd yr amser roeddynt wedi'i rhoi i "ddangos diddordeb mawr" yn y plant wedi cael effaith ar eu gallu i gadw at dasg a dyfalbarhau ar dasg."[34]

**CYDWEITHIOL**

Sylwodd staff y lleoliad bod y plant yn cydweithio'n well, roedd llai o anghytuno ac roedd y plant yn fwy tebygol o aros ar dasg pan oeddent tu allan neu i ffwrdd o lawer o deganau a dynnai eu sylw.

**LLAWN DYCHYMYG**

Roedd y gweithgareddau a ddaeth i'r lleoliad trwy law'r Ymarferwyr Creadigol yn ddeniadol, ac yn cael eu cyfarwyddo a'u llywio gan ddychymyg a diddordeb y plant. Roedd hyn yn helpu i gynnal sylw'r plant am adegau hirach, "...syniad mor syml ond y plant wedi gallu defnyddio eu dychymyg ac wedi ymrwymo am gyfnod sylweddol."

[34] Ffurflen werthuso Cylch Meithrin Y Fali

**DISGYBLEDIG**

Roedd y plant yn datblygu sgiliau a thechnegau creadigol newydd trwy gydol y gweithgareddau oherwydd eu bod yn gallu canolbwyntio ar yr hyn a dynnai eu sylw. Gwelodd yr Ymarferwyr Creadigol bod un plentyn a oedd yn dawel yn y sesiynau ar y cychwyn wedi dechrau dawnsio a chwarae gyda'r plant eraill.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**

Mae'r sesiynau wedi rhoi cyfleoedd i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar weld sut mae syniadau creadigol newydd yn effeithio'n gadarnhaol ar egni a hyder y plant.

**DYFALBARHAUS**

Gallai'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar ymddiried yn yr ymagweddau a ddygwyd i'r Cylch gan yr Ymarferwyr Creadigol, hyd yn oed os oeddent yn ymddangos yn groes i'r reddf i gychwyn. Cawsant eu hysbrydoli gan symlrwydd y sesiynau, a'u synnu i weld y graddau roedd y plant yn ymgysylltu ag eitemau syml, ac i weld am ba mor hir yr oedd y rhain yn cynnal eu sylw.

**CYDWEITHIOL**

Gallai'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar ganiatáu i'r plant arwain y sesiynau creadigol, gan ymuno ynddynt gyda'r plant. Dywedodd yr Asiant Creadigol bod staff y lleoliad wedi modelu gwaith tîm a chwilfrydedd i'r plant yn y ffordd yr oeddent yn ymgysylltu â'r gweithgareddau creadigol.

**LLAWN DYCHYMYG**

Dywedodd staff y lleoliad eu bod wedi mwynhau gweld sut roedd yr Ymarferwyr Creadigol wedi ymgysylltu â'r plant, gan roi rhyddid iddynt a dilyn eu harweiniad llawn dychymyg. Teimlasant y byddent yn parhau i ddefnyddio'r ffordd hon o ymgysylltu â'r plant yn y dyfodol.

**DISGYBLEDIG**

Cynigiodd y sesiynau syniadau a thechnegau syml, effeithiol a rhad. Dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar, "Roedd cyd weithio gyda'r ymarferwyr creadigol wedi bod yn agoriad llygaid."[35]

[35] ibid

## 3.13 Cylch Meithrin Y Tonnau

Mae Cylch Meithrin Y Tonnau wedi'i leoli ar yr arfordir yn Abermaw, Gwynedd. Mae'r Cylch yn lleoliad Cymraeg, mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae mewn ardal a ddisgrifir yn 'dref wledig a chyrion mewn lleoliad prin'.

Canolbwyntiodd cynllun y lleoliad ar ddatblygu chwe maes canolbwyntio'r Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir yng Nghymru. Nododd y cynllun hefyd bod y lleoliad yn canolbwyntio ar ddatblygu dau o chwe Arfer Creadigol y Meddwl. Mae'r Cylch wedi'i leoli ar lan y môr yn Abermaw, a disgrifiodd y ffurflen gynllunio bwriad i ddefnyddio'r sesiynau i helpu'r Cylch i wneud gwell defnydd o'r traeth a'r lan môr gyda'r plant. Dymunasant ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau corfforol y plant, eu hyder, dyfalbarhad a sgiliau datrys problemau.

Penododd y Cylch dau Ymarferydd Creadigol gyda phrofiad o chwarae tu allan ac archwilio. Roedd y sesiynau'n cynnwys llawer o deithiau i'r traeth enfawr, yn edrych ar y creaduriaid a ddaethpwyd o hyd iddynt, dysgu am y traeth, y planhigion a'r creaduriaid sy'n byw yno. Yn creu cerddoriaeth ac adeiladu twneli fel cwrs rhwystrau i belau bach rholio drwyddo. Bu'r plant yn archwilio ardaloedd o goetir hefyd, yn cwrdd â phili palod, dringo, archwilio'r afon, dal bwystfilod bach, sblasio a chwarae. Defnyddiasant offer fel driliau a morthwylion hefyd i wneud crefft gyda phren, ac adeiladu tân i goginio arno, i eistedd o'i gwmpas a'i fwynhau.



Dywedodd yr Ymarferwyr Creadigol bod y plant wedi datblygu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am eu hamgylchedd lleol, gan feithrin gwerthfawrogiad o natur a bioamrywiaeth, a helpodd iddynt deimlo ymdeimlad o gynefin a chysylltiad cryf â'u hamgylchedd. Ymlaciodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar gan fwynhau bod yn yr awyr agored gyda'r plant, yn gallu gadael mynd o ddwylo, gadael i'r plant archwilio a dilyn eu dychymyg. Dywedodd un o'r Ymarferwyr Creadigol, "Gwelais hyder y staff yn tyfu bob wythnos ac roedd yn braf gweld y staff yn mwynhau bod tu allan ac yn gwisgo'n addas. Cafodd y plant gymaint o hwyl ac roeddent wedi ymgysylltu â'r sesiwn oherwydd bod y staff yn wych ac yn cael hwyl hefyd."

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**

Gallai'r plant archwilio'u hamgylchedd naturiol, gan ddilyn ei chwilfrydedd am y byd o'u cwmpas. Daethant o hyd i greaduriaid o bob math ym mhob un o'r amgylcheddau awyr agored a ymwelsant â hwy, ac roeddent yn gallu dysgu amdanynt, eu cynefinoedd a'u pwysigrwydd i'r ecosystemau lleol.

**DYFALBARHAUS**

Gallai'r plant ddatblygu eu sgiliau awyr agored a'u hyder o ran cadw eu hunain yn ddiogel, yn enwedig o amgylch y tân a adeiladwyd ganddynt.

**CYDWEITHIOL**

Dysgodd y plant sut i gydweithio i gyflawni nod, megis adeiladu tân. Dysgasant am fod yn amyneddgar ac aros eu tro, a phwysigrwydd aros er mwyn cadw pawb yn ddiogel.

**LLAWN DYCHYMYG**

Defnyddiodd y plant eu dychymyg i arwain pob sesiwn, gan ddyfeisio cwrs rhwystrau wrth gloddio twneli yn y tywod ar gyfer pibellau, a defnyddio'r pibellau fel sleidiau er mwyn rholio peli ar hyd y cwrs.

**DISGYBLEDIG**

Gallai'r plant ddatblygu geiriau Cymraeg newydd ym mhob un o'r lleoliadau awyr agored a ymwelwyd â hwy, gan wella eu hyder a'u sgiliau cyfathrebu.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**

Galluogodd y sesiynau i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar gymryd rhan yn yr archwilio tu allan a mwynhau natur mewn ffordd chwilfrydig a chreadigol. Yn ystod y sesiynau, ymddangosodd bod y ffocws yn symud o reoli risg, cyfrif pennau a diogelu, i fwynhau archwilio, a rhannu rhyfeddod a chyffro'r plant yn yr hyn a ddarganfuwyd ganddynt.

**DYFALBARHAUS**

Profodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar y buddion o fynd â'r plant tu allan a mwynhau'r amgylcheddau gwahanol. Gallent weld sut i reoli risg, cadw pawb gyda'i gilydd ac yn ddiogel, tra'n cynnig profiadau deniadol, anturus a chyffrous i'r plant.

**CYDWEITHIOL**

Cydweithiodd holl staff y lleoliad er mwyn galluogi i'r plant cael profiadau awyr agored cyfoethog yn ystod y sesiynau. Gallent gydweithredu i sicrhau bod yr holl blant yn ddiogel, a hefyd yn gallu ymgysylltu'n llawn â'r broses archwilio ac yn antur y sesiynau.

**LLAWN DYCHYMYG**

Arsylwodd yr Ymarferwyr Creadigol bod hyder staff y lleoliad wedi tyfu wrth iddynt ddefnyddio'u dychymyg i feddwl am syniadau a gweithgareddau newydd fel aeth y sesiynau yn eu blaenau.

**DISGYBLEDIG**

Dywedodd yr Ymarferwyr Creadigol bod staff y lleoliad wedi ymlacio fel aeth y sesiynau yn eu blaenau ac wedi gallu ystyried eu canfyddiadau o risg, "...bod y plant yn ddiogel i weithio'n eithaf annibynnol gyda morthwyl a hoelion."[36]

[36] ibid

## 3.14 Cylch yn yr Ysgol

Mae Cylch yn yr Ysgol wedi'i leoli yn Llanfair-ym-muallt, Powys. Mae'r Cylch yn lleoliad Cymraeg, mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae mewn ardal a ddisgrifir yn 'dref wledig a chyrion mewn lleoliad prin'.

Canolbwyntiodd cynllun y lleoliad ar ddatblygu chwe maes canolbwyntio'r Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir yng Nghymru. Nododd y cynllun hefyd bod y lleoliad yn canolbwyntio ar ddatblygu pum Arfer Creadigol y Meddwl. Canolbwyntiodd cynllun y lleoliad ar alluogi i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar deimlo'n fwy cyffyrddus yn cynnwys y plant mewn chwarae mentrus. Dymunai ddatblygu sgiliau awyr agored, yn adeiladu tân ac yn defnyddio offer.

Bu'r lleoliad yn gweithio gyda dau Ymarferydd Creadigol â sgiliau a gefnogai chwarae yn yr awyr agored a chwarae anturus. Roedd y sesiynau'n cynnwys ystod o weithgareddau awyr agored ag elfen o risg. Gallai'r plant greu gwialen bysgota, adeiladu twll tân a choginio gwahanol fwydydd gyda'i gilydd, archwilio a datblygu lluniau seianoteip. Rhoddodd y sesiynau ystod o brofiadau i'r staff ac i'r plant er mwyn datblygu eu hyder yn rheoli risg ac archwilio buddion chwarae anturus yn yr awyr agored.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Estyn yn ddiweddar, a dyfarnodd y lleoliad yn 'rhagorol' ym mhob categori, gan gyfeirio'n arbennig at y ffaith bod y lleoliad yn cefnogi'r plant i chwarae'n fentrus, "Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd y maent wedi adnabod yr angen i ddatblygu'r cyfleoedd i blant gymryd risgiau wrth chwarae yn yr ardaloedd allanol. O ganlyniad i ddilyn hyfforddiant ac ymweld â lleoliadau eraill, maent wedi addasu eu dulliau gan ddatblygu hyder plant i ddod yn fwy medrus i wneud penderfyniadau a rheoli risgiau eu hunain."[37]

Dywedodd yr Ymarferwyr Creadigol bod y plant a staff y lleoliad, "yn credu y gallant wneud nifer o bethau nad oeddent yn credu y gallant eu gwneud o'r blaen."

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**
Cafodd y plant eu hysbrydoli gan y broses o greu lluniau seianoteip, a sbardunodd eu chwilfrydedd a'u dychymyg. Yn arbennig, mwynhasant weld achos ac effaith y broses sy'n creu'r lluniau, ac arbrofi sut allai newidiadau bach arwain at ganlyniadau gwahanol.

**DYFALBARHAUS**
Rhoddodd yr Ymarferwyr Creadigol enghraifft wych o'r plant yn llwyddo i aros gyda thasg pan ddaeth yn anodd, "...pan oedd y plant yn gweithio gyda'r march llifio i greu hudlathau/gwiail pysgota o ganghennau, roedd y gweithgaredd yn anodd i rai ohonynt i gychwyn. Ond trwy ddyfalbarhad a phenderfyniad, daethant i ben â'r dasg drwy ganolbwyntio."[38]

---

[37] estyn.llyw.cymru/system/files/2024-07/Adroddiad%20arolygiad%20-%20Cylch%20yn%20yr%20Ysgol%202024.pdf

[38] ibid

**CYDWEITHIOL**
Dywedodd yr Ymarferwyr Creadigol bod, "Cydweithio i adeiladu pethau'n golygu y gofynnwyd i'r plant gydweithio'n gydweithredol a dyfalbarhau gydag anhawster a datrys problemau gyda'i gilydd."[39]

**LLAWN DYCHYMYG**
Mwynhaodd y plant yn arbennig y gwahoddiadau a gawsant i chwarae ac a wnaeth eu galluogi nhw i ddefnyddio eu dychymyg ac i ddilyn syniadau newydd.

**DISGYBLEDIG**
Gallai'r plant ymarfer a mireinio eu sgiliau newydd yn defnyddio offer oherwydd bod y sesiynau'n dychwelyd at y gweithgareddau hyn sawl gwaith. Erbyn diwedd y sesiynau, teimlai'r plant yn hyderus yn defnyddio'r offer yn effeithiol ac yn annibynnol.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**
Dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar bod y sesiynau wedi rhoi iddynt, "...syniadau newydd gwych ar gyfer coginio a defnyddio'r tân, cymysgu cynhwysion a chreu pethau o bren a chlai."[40] Teimlai'r staff yn fwy hyderus yn archwilio'r posibiliadau a awgrymwyd iddynt gan yr Ymarferwyr Creadigol.

**DYFALBARHAUS**
Gweithiodd staff y lleoliad gyda'r Ymarferwyr Creadigol i ddatblygu asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau a ystyriasant yn fentrus. Er iddynt ddweud eu bod yn bryderus ar y cychwyn, roedd y sesiynau wedi helpu iddynt oresgyn eu hofnau a chroesawu'r buddion a ddaeth o ganiatáu i'r plant gymryd rhan mewn profiadau fel defnyddio offer a thostio malws melys.

**CYDWEITHIOL**
Roedd bod yn rhan o'r broses Dysgu Creadigol wedi galluogi staff y lleoliad i deimlo'n gryfach fel tîm, ac i sylweddoli, "...rydyn ni'n lleoliad grêt, dydyn ni ddim yn canmol digon ar ein hunain."[41]

**LLAWN DYCHYMYG**
Helpodd y sesiynau, "i staff y lleoliad ollwng yr awenau ychydig a theimlo y gallent gamu'n ôl a chaniatáu i'r plant arwain mwy ar eu dysgu."[42] Galluogodd hyn i staff y lleoliad deimlo'n fwy hyderus yn rhannu eu syniadau, defnyddio eu dychymyg, a chreu ffyrdd newydd o ymgysylltu â'r plant.

**DISGYBLEDIG**
Dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar eu bod yn fwy hyderus i ddefnyddio'r offer yr oedd ganddynt eisoes yn y lleoliad. Trwy ddysgu o sut gefnogwyd y plant i ddefnyddio'r offer gan yr Ymarferwyr Creadigol, teimlasant yn fwy hyderus yn gadael y plant i'w defnyddio'n ddiogel.

---

[39] Ffurflen Werthuso Cylch yn yr Ysgol

[40] ibid

[41] ibid

[42] ibid

## 3.15 Meithrinfa Enfys Fach

Mae Meithrinfa Enfys Fach wedi'i leoli yn Aberhonddu, Powys. Mae'r Cylch yn lleoliad Saesneg, mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae mewn ardal a ddisgrifir yn 'dref wledig a chyrion mewn lleoliad prin'.

Roedd ar y lleoliad eisiau defnyddio'r sesiynau i ddatblygu ei amgylchedd dysgu awyr agored, a datblygu sgiliau gwaith coed yn arbennig. Gweithiodd gydag Ymarferydd Creadigol a arbenigai mewn gwaith coed ac a ddaeth ag ystod o offer pŵer i'r lleoliad i'r plant cael creu eu gwaith coed eu hunain. Cefnogwyd y plant i ddefnyddio driliau, llifiau a thorwyr tyno i greu eu stoliau pren eu hunain a mainc siâp draig.



Cymerodd y plant rhan mewn ystod fawr o weithgareddau a gefnogai eu dysgu, o fesur a chyfrif, datrys problemau, amcangyfrif, defnyddio graddau gwahanol o rym ar gyfer offer gwahanol, deall sut i gadw eu hunain yn ddiogel, a chyfathrebu. Mwynhaodd y plant chwarae ar y meinciau, y stolion a'r ysgolion a grëwyd ganddynt gyda'r Ymarferydd Creadigol, yn ymarfer eu cydbwysedd a'u symud corfforol.

Gwelodd staff y lleoliad newid sylweddol mewn rhai o'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n dod i'r lleoliad. Roedd un plentyn a ddisgrifiwyd yn "ddieriau" gan y lleoliad, nad oedd yn ymgysylltu â phobl yn aml, yn gallu eistedd a gwrando gyda'r Ymarferydd Creadigol. Roedd plentyn arall a oedd yn aml yn cael anhawster i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi gallu gwrando ar gyfarwyddiadau, gwisgo goglau diogelwch a defnyddio'r offer. Dechreuodd plentyn arall, yr oedd y lleoliad yn ei ddisgrifio fel plentyn â sgiliau iaith a lleferydd gwael ac nad oedd yn chwarae â'r plant eraill, rhyngweithio â'r Ymarferydd Creadigol wrth i'r sesiynau mynd rhagddynt. Roedd y plentyn yn gallu cyfathrebu â'r Ymarferydd Creadigol a "blodeuodd ei lleferydd"[43].

Creodd y lleoliad fideo a'i rhannu, gan roi darlun o ddiwrnod ym mywyd y lleoliad yn ystod ei brofiad Dysgu Creadigol. Mae'r fideo ar gael i'w weld yma.

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**

Cyflwynwyd deunyddiau newydd i'r plant a rhoddwyd lle iddynt eu harchwilio ac i ryngweithio â nhw yn eu ffyrdd eu hunain.

**DYFALBARHAUS**

Roedd y plant yn ei chael yn anodd trin yr offer ar y cychwyn, ac roedd rhai ohonynt yn ofnus o'r sŵn a wnaethant. Fodd bynnag, llwyddodd y plant i weithio gyda'r Ymarferydd Creadigol i ddatblygu eu hyder yn defnyddio offer.

**CYDWEITHIOL**

Roedd rhaid i'r plant weithio'n gydweithredol â'i gilydd er mwyn sicrhau bod pawb yn ddiogel wrth ddefnyddio'r offer. Gallent weld bwysigrwydd bod yn amyneddgar a chymryd eu tro. Roeddent wedyn yn gallu rhannu'r cynnyrch gorffenedig a grëwyd gan bawb ar y cyd.

**LLAWN DYCHYMYG**

Defnyddiodd y plant yr ysgolion, y stolion a'r meinciau siâp draig yn ystod y sesiynau ac ar eu hôl i chwarae a dyfeisio gemau newydd. "Maen nhw wedi troi'r stolion yn orseddau ar gyfer te parti, wedi defnyddio'r ysgol fel llyfrgell awyr agored, ac wedi hedfan trwy'r awyr ar y fainc bren siâp draig."

**DISGYBLEDIG**

Gallai'r plant ddatblygu ystod o dechnegau gwaith pren, gan feddwl sut oedd angen i bob darn o'r gwaith ffitio at ei gilydd, a sut oedd yr offer yn creu'r siâp roedd arnynt ei angen. Dysgasant eiriau a thermau newydd am y prosesau a'r offer a ddefnyddiasant, a gallent ddisgrifio'u profiadau i'w rhieni a gofalwyr.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**

Ysbrydolodd y sesiynau yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar i archwilio ffyrdd newydd o ddefnyddio eu sgiliau gwaith coed i wella'r lleoliad a'r gweithgareddau i'r plant. Yn lle prynu planwyr a gwestai pryfed newydd, mae staff y lleoliad yn hyderus y gallan nhw a'r plant eu creu o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

[43] Ffurflen Werthuso Enfys Fach

### DYFALBARHAUS

Dywedodd Arweinydd Ystafell y lleoliad am ei hun, "Fel arfer, does neb yn ymddiried ynof i ddefnyddio morthwyl yn y tŷ"[44]. Trwy fagu hyder yn gweithio gyda'r Ymarferydd Creadigol, mae'n teimlo'n hyderus bellach i ddefnyddio ystod o offer gyda'r plant ac yn ei thŷ.

### CYDWEITHIOL

Mae'r staff a gymerodd rhan uniongyrchol yn y sesiynau wedi rhannu eu gwybodaeth a'u brwdfrydedd gydag aelodau eraill o dîm y feithrinfa. Golygai hyn fod y profiad wedi, "llifo allan i rannau eraill o'n lleoliad"[45], gan ysbrydoli aelodau eraill o'r tîm i greu pontydd a silffoedd llyfrau mewn rhannau eraill o'r lleoliad.

### LLAWN DYCHYMYG

Ysbrydolwyd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar gan y profiadau a ddygwyd i'r lleoliad gan yr Ymarferydd Creadigol i ehangu ar eu syniadau o'r hyn sy'n bosibl, ac i feddwl am ffyrdd newydd o ddod â chreadigrwydd i'r lleoliad.

### DISGYBLEDIG

I gychwyn, roedd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn pryderu am y risg o ran y plant yn defnyddio offer pŵer. Fodd bynnag, oherwydd bod yr Ymarferydd Creadigol yn gallu dangos iddynt sut i wneud hynny'n ddiogel, teimlai staff y lleoliad yn fwy hyderus a gallasant ystyried pa mor fuddiol oedd cynnwys y plant yn y gwaith coed, a sut y gellid rheoli unrhyw risgiau'n ddiogel.

[44] ibid

[45] ibid

## 3.16 Miri Morswyn

Mae Miri Morswyn wedi'i leoli ger Caergybi ar Ynys Môn. Mae'r Cylch yn lleoliad Cymraeg, mewn ardal yng nghategori'r 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae mewn ardal a ddisgrifir yn 'ddinas a thref drefol mewn lleoliad prin'.

Roedd ar y Cylch eisiau defnyddio'r sesiynau i ddatblygu cyfathrebu ymysg y staff a'r plant. Roedd arnynt eisiau cefnogi'r defnydd o Gymraeg yn y lleoliad, gan ymestyn geirfa a hyder y plant drwy symud corfforol, dawns a chwarae yn yr awyr agored. Hefyd, roedd arnynt eisiau archwilio sut i feithrin ymdeimlad o weithio fel tîm a chefnogi cydweithrediad ymysg y plant.

Gweithiodd y lleoliad gyda dau Ymarferydd Creadigol a arbenigai mewn dawns, symud, chwarae gweledol a chwarae synhwyraidd. I ddechrau, canolbwyntiodd yr Ymarferwyr Creadigol ar gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r defnydd o Gymraeg, a'r hyder i wneud hynny. Creasant animeiddiad byr a phecyn creadigol ategol, a anfonwyd adref gyda'r plant. Anogodd y pecyn i'r rhieni a phlant ddysgu Cymraeg gyda'i gilydd trwy gemau a heriau llawn hwyl. Cafodd hyn groeso mawr gan y rhieni, a gwelodd y lleoliad bod y broses wedi gwella ei gyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr.



Hefyd, archwiliodd yr Ymarferwyr Creadigol symud creadigol gyda'r plant, gan ddefnyddio dawns ochr yn ochr â geirfa Cymraeg i helpu'r plant fagu cysylltiad agosach â'r iaith. Canasant hwiangerddi Cymraeg, gan edrych ar ystyron y geiriau a'u cysylltu â bywydau a phrofiadau'r plant eu hunain trwy chwarae synhwyraidd. Cyflwynwyd deunyddiau fel basgedi o stripiau defnydd, dail, plu neu bapur lliw i'r plant, a allai ddefnyddio eu dychymyg i'w harchwilio ac i fynegi eu hunain yn greadigol.

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**

Dywedodd yr Ymarferwyr Creadigol bod rhai o'r plant yn swil iawn ac yn ddihyder ar y cychwyn. Fodd bynnag, wrth i'r sesiynau mynd yn eu blaenau, "Daeth hyd yn oed y plant mwyaf swil allan o'u cregyn a chymryd rhan. O ganlyniad maen nhw eisiau cymryd mwy o ran mewn gweithgareddau a lleisio barn."

**DYFALBARHAUS**

Galluogodd y sesiynau i'r plant ddatblygu eu sgiliau Cymraeg trwy archwilio cyffyrddol, propiau a gemau, gan ei wneud yn fwy o hwyl ac yn fwy effeithiol.

**CYDWEITHIOL**

Rhoddwyd darn mawr o bapur ar y llawr i'r plant. Cydweithiodd y plant i ddefnyddio'u traed, esgidiau glaw, eu dwylo a theganau i greu un darlun mawr lliwgar. Edrychasant ar sut roedd symudiadau gwahanol yn creu patrymau a siapau gwahanol, yn symud a dawnsio gyda'i gilydd.

**LLAWN DYCHYMYG**

Gallai'r plant ymgysylltu ag ystod o weithgareddau a deunyddiau trwy chwarae rôl llawn dychymyg. Roedd y sesiynau llai strwythuredig a'r sesiynau wedi'u curadu a ddarparwyd gan yr Ymarferwyr Creadigol yn gyfle i'r plant chwarae ac ymgysylltu â deunyddiau a gwrthrychau mewn ffyrdd newydd.

**DISGYBLEDIG**

Dywedodd y lleoliad bod y dull o ddefnyddio Ymarferwyr Creadigol wedi galluogi'r plant i ddatblygu mwy o hyder wrth symud yn gorfforol ac wrth fynegi eu hunain yn Gymraeg. Roeddent hefyd wedi gweld gwelliant yn ymddygiad y plant, a'u bod yn fwy parod i rannu a gweithio gyda'i gilydd.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**

Teimlodd staff y lleoliad bod y dulliau a ddefnyddiwyd gan yr Ymarferwyr Creadigol wedi'u hysbrydoli i feddwl am ffyrdd o barhau i roi profiadau deniadol i'r plant o fewn y cyfyngiadau o ran niferoedd staff, adnoddau ac amser. Mae'r buddion a gafwyd gan y staff a'r plant wedi ysbrydoli'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar i barhau â'r dulliau a gyflwynwyd yn ystod y sesiynau.

**DYFALBARHAUS**

Mynegwyd pryderon gan rieni ynghylch staeniau paent ar blant oherwydd rhai o'r gweithgareddau paentio. Fodd bynnag, gweithiodd staff y lleoliad gyda'r Ymarferwyr Creadigol i edrych ar sut y gallai'r plant cymryd rhan yn y broses lanhau a chanfod eu bod yn mwynhau ymgymryd â'r rôl hon.

**CYDWEITHIOL**

Mae gan staff y lleoliad lawer o gyfrifoldebau sy'n golygu bod angen i'r tîm cydweithio â'i gilydd yn gydweithredol i sicrhau bod digon o amser ar gael i lanhau a gwneud cinio i'r plant, er mwyn iddynt allu cynnig gweithgareddau cyffrous a deniadol i'r plant, fel y darlun cydweithredol mawr.

**LLAWN DYCHYMYG**

Mae'r dull a fodelwyd gan yr Ymarferwyr Creadigol wedi galluogi staff y lleoliad i deimlo'n fwy hyderus wrth gyflwyno gweithgareddau llai strwythuredig i'r plant, ac i ganiatáu i'r plant archwilio a bod yn fwy chwilfrydig.

**DISGYBLEDIG**

Galluogodd y sesiynau i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar gymryd cam yn ôl ac arsylwi'r plant yn chwarae a chymryd rhan yn y gweithgareddau. Gallasant fyfyrio ar bwysigrwydd caniatáu lle i'r plant chwarae ac ymgysylltu yn eu ffyrdd eu hunain.

## 3.17 Cylch Chwarae Cymunedol Gogledd Corneli

Mae Cylch Chwarae Cymunedol Gogledd Corneli wedi'i leoli ym mhentref Gogledd Corneli ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Cylch Chwarae'n lleoliad Saesneg, mewn ardal yng nghategori'r 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae mewn ardal a ddisgrifir yn 'ddinas a thref drefol'. Ardal y lleoliad sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd ymysg holl leoliadau ail flwyddyn y rhaglen Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar. Ychydig iawn o le dan do sydd gan y lleoliad, a wnaeth y sesiynau'n heriol dros ben i'r staff a'r Ymarferydd Creadigol. Gallasant ddefnyddio gofod a rennir ar gyfer y sesiynau symud, ond cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau eraill mewn ystafell fawr swnllyd, lle'r oedd plant yn bwyta byrbrydau a phethau eraill yn tynnu sylw. Mae gan y lleoliad fynediad i le awyr agored a rennir, ond mae'n dioddef achosion o fandaliaeth a dwyn yn aml. Yn ystod cyfnod y sesiynau, cafodd rhai o'r adnoddau eu dwyn dros nos, a achosodd llawer o rwystredigaeth ac ypset ymysg staff y lleoliad.

Roedd ar y lleoliad eisiau defnyddio'r sesiynau Dysgu Creadigol i wella ei sgiliau chwedleua gan ddefnyddio cerddoriaeth, pypedau a symud. Roedd arno hefyd eisiau archwilio sut i ddefnyddio ei fannau awyr agored mewn ffordd a fyddai'n cyfoethogi ac ysbrydoli. Gweithiodd y lleoliad gydag Ymarferydd Creadigol sy'n gerddor, perfformiwr ac artist. Gweithiodd yr Ymarferydd Creadigol â'r lleoliad, gan ddod â phyped o'r enw Jai i ymuno â'r cylch chwarae. Roedd yr Ymarferydd Creadigol hefyd wedi creu pyped aderyn pinc hardd newydd a fyddai'n aros gyda'r lleoliad ar ôl i'r sesiynau Dysgu Creadigol ddod i ben. Helpodd y plant i ddylunio'r pyped a'i enwi'n Prinny. Mae'r Ymarferydd Creadigol wedi cefnogi un o staff y lleoliad i weithredu Prinny ac i roi llais iddo.



Gallasom arsylwi sesiwn a chroesawyd y plant i'r gweithgareddau trwy ganu caneuon, symud a dawnsio i'r gerddoriaeth gyda'r Ymarferydd Creadigol yn chwarae ei gitâr. Amrywiodd oedrannau'r plant o 18 mis i 4 blwydd, ac roedd ganddynt ffyrdd gwahanol iawn o ymgysylltu â'r gerddoriaeth, ond roedd y sesiwn yn gynhwysol iawn ac yn ddeniadol i'r holl blant. Defnyddiodd yr Ymarferydd Creadigol ganeuon newydd a chyfarwydd, gan roi cyfle i'r plant arwain gweddill y grŵp, yn dewis symudiad i weddill y plant ei ddilyn. Ymunodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn y symud a dawns, ac roedd y plant yn amlwg wedi mwynhau hyn. Cyflwynodd yr Ymarferydd Creadigol ei byped Jai, aderyn mawr glas. Roedd y plant yn gyfarwydd â'r pyped ac wedi sefydlu cysylltiad agos ag ef. Canodd y grŵp cân i ddeffro Prinny, ac aeth y plant i ddod o hyd iddo yn ei nyth. Roedd y plant yn ofalus iawn wrth ddeffro Prinny a'i dynnu o'r nyth, gan lyfnu ei blu a dweud helo yn eu tro. Aeth y grŵp tu allan wedyn at yr ardal goediog yng nghefn y tiroedd. Gwrandawodd y plant ar stori'r Lindysyn Llwglyd Iawn, ac ymuno ynddo, ac roeddent yn gallu rhyngweithio'n greadigol i ddweud y stori trwy symud, defnyddio propiau a gwneud synau. Roedd y plant yn siarad yn uniongyrchol â Jai a Prinny o hyd, yn pasio pethau atynt ac yn eu helpu nhw i berfformio'r stori.

Aeth y plant yn ôl i'r lleoliad a defnyddio driliau ac offer eraill i greu eu hadar eu hunain, gan ddrilio'r tyllau ar gyfer y coesau a'r adenydd cyn dewis lliwiau ac addurniadau. Gwelwyd bod y plant yn helpu ei gilydd i gadw'n ddiogel, yn pasio'r goglau diogelwch ac yn atgoffa ei gilydd i sefyll yn ôl pan oedd rhywun yn defnyddio'r dril. Pan oedd rhai o'r plant yn cymryd eu tro i ddefnyddio'r offer, roedd eraill yn chwarae gyda Prinny, yn ei helpu i fynd lawr y sleid, yn sgwrsio â hi am eu gêm a'r hyn yr oeddent yn ei ddychmygu. Ar ddiwedd pob sesiwn, byddai'r plant yn dod ynghyd gyda'r pypedau i ganu a dweud ffarwel, gan roi Prinny i gysgu yn ei nyth yn ofalus.



Roedd rhywfaint o gam-gyfathrebu a chamddealltwriaeth wedi bod rhwng yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar a'r Ymarferydd Creadigol ynghylch beth i'w ddisgwyl ar y cychwyn, ynghyd â ffiniau rôl yr Ymarferydd Creadigol. Er yr anawsterau cynnar hyn, gweithiodd y lleoliad, yr Asiant Creadigol a'r Ymarferydd Creadigol yn galed i drafod yr anawsterau, ac i gael y broses ddysgu nôl ar ben ffordd. O'r pwynt hwn ymlaen, dechreuodd pawb gydweithio ac roedd y sesiynau'n ffynnu.

Dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar bod y sesiynau wedi cael effaith gadarnhaol amlwg ar eirfa a sgiliau cyfathrebu'r plant. Defnyddiai'r plant mwy o eiriau Cymraeg, ac roeddent yn dangos gwell sgiliau cymdeithasol a pharodrwydd i gydweithredu â'i gilydd. Sylwodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar ar effaith arwyddocaol a gafodd y sesiynau ar y plant sef y gwelliant yn eu gallu i eistedd yn llonydd am hirach, ac i ganolbwyntio. Dywedasant, "Mae'r profiad cyfan wedi bod yn wych."

Creodd y lleoliad fideo am y broses ddysgu sydd ar gael i'w weld yma.

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**

Dywedodd yr Asiant Creadigol bod, "gweithgareddau fel chwilio am fwystfilod bach, archwilio a chwilio am 'Jai' ein haderyn mawr glas, ymchwilio yn y goedwig a darllen straeon gyda'n gilydd wedi ennyn chwilfrydedd yn naturiol."

**DYFALBARHAUS**

Roedd pob sesiwn yn cynnwys y plant mewn gweithgareddau a oedd yn meithrin dyfalbarhad. Gweithiasant gyda'r Ymarferydd Creadigol i ddatblygu'r hyder a'r gallu i ddefnyddio offer. Gofynnwyd iddynt wrando a bod yn amyneddgar, hyd yn oed pan oedd yn anodd iddynt wneud, a dywedodd yr Ymarferydd Creadigol bod y plant yn parhau i roi cynnig ar bethau a oedd yn heriol iddynt, hyd nes iddynt gyflawni eu nodau.

**CYDWEITHIOL**

Roedd y plant mor ofalus o Prinny a Jai, gan fodelu ymddygiad gofalgar a chariadus a wnaeth eu helpu i lunio cysylltiadau â'i gilydd. Dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar, "Dangosodd y plant yn glir bod 'perthyn' yn golygu derbyn pobl eraill cymaint ag y bo'n rhywbeth i'w deimlo dros eich hun."[46]

**LLAWN DYCHYMYG**

Roedd y plant yn ystyried Jai a Prinny yn ffrindiau ac yn gyfoedion. Oherwydd bod y plant yn amlwg yn gyffyrddus yn rhyngweithio â'r pypedau, roeddent yn gallu defnyddio'u dychymyg i arwain gemau gyda nhw.

**DISGYBLEDIG**

Rhoddodd y sesiynau amser yn yr awyr agored ac yn y goedwig i'r plant, lle gallasant redeg, neidio, cropian, cuddio ac ymarfer symud eu cyrff. Roedd y gemau cerddorol, a delwau cerddorol yn arbennig, yn annog y plant i ddatblygu eu sgiliau gwrando, symud a chydbwysedd, gan ymarfer er mwyn datblygu ac ehangu ar y sgiliau hyn ym mhob sesiwn.

[46] Ffurflen werthuso Cylch Chwarae Cymunedol Gogledd Corneli

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**

Galluogodd y profiad Dysgu Creadigol i staff y lleoliad deimlo'n fwy hyderus wrth gymryd risgiau creadigol gyda'r plant, ac i fod yn fwy arbrofol yn eu dulliau ac wrth ddefnyddio offer a deunyddiau gwahanol. Mae'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn teimlo'n fwy hyderus, "Rydym yn edrych ymlaen at sut y byddwn yn defnyddio'r holl sgiliau hyn yn y dyfodol."[47]

**DYFALBARHAUS**

Teimlodd rhai o staff y lleoliad yn anghyffyrddus wrth symud a chanu i gychwyn. Wrth i'r sesiynau mynd yn eu blaenau, datblygasant fwy o hyder i ymuno yn y canu ac i symud yn fwy rhwydd gyda'r plant, heb boeni am "edrych yn dwp".

**CYDWEITHIOL**

Mae'r heriau o ran lle sy'n codi yn y lleoliad yn golygu bod angen i staff y lleoliad weithio'n gydweithredol iawn i ddiwallu anghenion y plant. Gweithiodd y staff gyda'r Ymarferydd Creadigol yn gydweithredol i oresgyn yr heriau hyn, a chydweithiasant i roi profiadau deniadol a chyffrous i'r plant.

**LLAWN DYCHYMYG**

Teimlai staff y lleoliad eu bod wedi'u hysbrydoli gan yr Ymarferydd Creadigol ac roeddent yn llawn syniadau newydd a brwdfrydedd ar ôl y sesiynau. Bwriada staff y lleoliad barhau i ddefnyddio ffyrdd llawn dychymyg i ymgysylltu â'r plant.

**DISGYBLEDIG**

Roedd staff y lleoliad wedi mwynhau'n arbennig y ffordd daeth yr Ymarferydd Creadigol â cherddoriaeth i'r gweithgareddau, a gweld pa mor gadarnhaol oedd ymateb y plant pan oedd yn chwarae gitâr yn ystod y sesiynau. Datblygodd yr holl staff eu sgiliau canu a symud, ac ysbrydolwyd un aelod o staff i ddysgu chwarae gitâr er mwyn iddo barhau i'w chwarae i'r plant.

[47] ibid

## 3.18 Pobl Fach Llanandras

Mae Pobl Fach Llanandras wedi'i leoli yn nhref Llanandras ym Mhowys. Mae'r cylch chwarae'n lleoliad Saesneg, mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae mewn ardal yng Nghymru a ddisgrifir yn 'dref wledig a chyrion mewn lleoliad prin'.

Mae'r lleoliad yn agos iawn i'r ffin â Lloegr ac nid oedd llawer o staff a phlant y lleoliad yn teimlo'n hyderus yn defnyddio Cymraeg bob dydd. Roedd ar y lleoliad eisiau defnyddio'r sesiynau i ganolbwyntio ar ddatblygu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg drwy ganeuon, straeon a chreadigrwydd. Roedd arno eisiau ysbrydoli pawb yn y lleoliad i ddysgu mwy am Gymru, ei hanes a'i diwylliant, ac i deimlo ymdeimlad cryfach o berthyn neu gynefin.

Gweithiodd y lleoliad â dau Ymarferydd Creadigol. Mae'r gyntaf yn siaradwr Cymraeg, artist a cherddor a oedd yn archwilio chwedlau gwerin a straeon Cymru drwy gerddoriaeth a symud. Artist a saer coed yw'r ail Ymarferydd Creadigol, a gefnogodd y lleoliad i ddod â rhai o elfennau'r caneuon a straeon hyn yn fyw trwy waith coed a phrosesau creadigol eraill.

Defnyddiodd yr Ymarferwyr Creadigol chwedlau Blodeuwedd a'r Ddraig Goch fel sail i'r sesiynau, gan adrodd y straeon yn Saesneg i'r plant cyn cynnwys geiriau a chaneuon Cymraeg cysylltiedig. Trwy'r dull hwn, roedd y plant yn gallu deall cyd-destun y caneuon a'r geiriau Cymraeg a ddysgasant, a datblygu cysylltiad cryfach â nhw. Ymwelodd y plant â draig goch Llanandras, sef cerflun o ddraig goch yn cysgu sy'n coffau'r 35,000 o filwyr Cymru a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Ysbrydolwyd y plant i ddysgu mwy am eu tref ac i adeiladu draig eu hunain. Gweithiasant â'r Ymarferydd Creadigol i greu Draig Goch o bren, gan ddefnyddio amrywiaeth o offer. Mae'r lluniau isod yn dangos y plant yn defnyddio offer a'r Ddraig Goch ei hun.



Roedd y gweithgareddau wedi meithrin "...ymdeimlad o berthyn i'n cymuned a'r wlad sy'n gartref inni" ymysg yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar.

Dywedodd y lleoliad bod y plant a gymerodd rhan yn y sesiynau wedi magu hyder wrth i'r sesiynau mynd yn eu blaenau. Cymerodd un plentyn, na fyddai'n cymryd rhan mewn amser carped neu weithgareddau canu grŵp fel arfer, rhan weithgar ymhob sesiwn, gan ddangos llawer o frwdfrydedd i gymryd rhan. Disgrifiodd y lleoliad yr effaith a gafwyd ar blentyn arall, "mae [y plentyn] sy'n ddieiriau wedi dechrau siarad mwy trwy gydol y fenter hon. O ganlyniad, mae wedi llwyddo i feithrin cysylltiadau cryfach ag eraill."[48]

Mae'r plant a'r staff yn canu'n Gymraeg bob dydd erbyn hyn, gan ddefnyddio casgliad o ddeg cân a grëwyd gan yr Ymarferydd Creadigol. Trosglwyddwyd y caneuon i CD fel bod y lleoliad yn gallu eu defnyddio ar ôl i'r sesiynau ddod i ben. Cynhaliodd y lleoliad Arddangosfa Gelf i rieni a gofalwyr, er mwyn iddynt weld gwaith y plant o'r sesiynau, ac i rannu balchder y plant ym mhopeth yr oeddent wedi'i ddysgu a'i gyflawni. Dywedodd yr Ymarferydd Creadigol, "Roeddwn i wedi synnu pa mor hawdd oedd hi iddyn nhw ddysgu Cymraeg."

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**

Ysbrydolwyd y plant i ddysgu mwy am eu hetifeddiaeth a'u diwylliant, i fod yn chwilfrydig ac i ofyn cwestiynau am y gorffennol. Maent bellach yn defnyddio Cymraeg yn y lleoliad ac yn cael eu cefnogi i ddysgu mwy bob dydd. "Roedd y plant wrth eu boddau. Roedd eu hwynebau'n llawn rhyfeddod o hyd."

**DYFALBARHAUS**

Dywedodd un o'r Ymarferwyr Creadigol nad oedd rhai o'r plant mor hyderus yn defnyddio'r offer, ac roedd ar un plentyn eu hofn. Trwy fod yn ddyfalbarhaus ac yn ddewr, llwyddodd y plentyn i oresgyn ei ofnau a chyn bo hir "doedd dim stop arno".

**CYDWEITHIOL**

Mae'r lleoliad wedi cyflwyno bwrdd sialc gyda 'Geiriau Cymraeg yr Wythnos' arno, a welir gan y rhieni a gofalwyr pan fyddant yn casglu neu'n gollwng eu plant. Mae'r lleoliad yn cydweithio â'r rhieni a'r plant i'w cefnogi wrth iddynt barhau i ddysgu a defnyddio Cymraeg.

**LLAWN DYCHYMYG**

Roedd y plant wrth eu boddau yn clywed y straeon a'r chwedlau. Defnyddiasant y straeon hyn i chwarae rôl ac i ddyfeisio straeon newydd eu hunain.

**DISGYBLEDIG**

Cafodd yr holl blant y cyfle i ddatblygu sgiliau yn defnyddio offer gwahanol. Dysgasant sut i ddefnyddio pwysau gwahanol ar yr offer, i wthio'n galetach neu'n llai caled i gyflawni canlyniadau gwahanol. Dysgodd pob un ohonynt sut i gadw ei hun ac eraill yn ddiogel, a thyfodd eu hyder o'r herwydd.

[48] ibid

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**

Ysbrydolwyd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar i ddatblygu'r syniadau a gyflwynwyd yn ystod y sesiynau, ac i ehangu arnynt. Bwriada'r lleoliad greu gardd tylwyth teg, gan ddefnyddio darnau o bren dros ben o'r gwaith coed i wneud madarch. Bwriada gyflwyno straeon am y 'Tylwyth Teg' i barhau ag archwiliad y plant o Gymraeg a chwedleua am Gymru.

**DYFALBARHAUS**

Nid oedd staff y lleoliad yn siarad Cymraeg ac nid oeddent yn hyderus yn siarad Cymraeg â'r plant. Esboniasant, "Cyn y fenter hon, roedd siarad Cymraeg yn beth brawychus"[49]. Galluogodd y sesiynau iddynt ddatblygu eu gwybodaeth o'r iaith Gymraeg a magu hyder wrth ganu a siarad â'r plant. "Mae defnyddio Cymraeg wedi dod yn rhan o'n trefn bob dydd yma yn Llanandras, ac rydym yn awyddus i barhau i ddysgu, fel y gallwn drosglwyddo'r wybodaeth hon i'r plant."[50]

**CYDWEITHIOL**

Dywedodd yr Ymarferwyr Creadigol bod staff y lleoliad wedi bod yn gydweithredol iawn, ac yn "cytuno'n llwyr" â phopeth roeddent eisiau ei gyflwyno yn y lleoliad. Ymunodd y staff â'r gweithgareddau'n frwdfrydig, a chefnogi ei gilydd i ddysgu Cymraeg. Gallai'r Ymarferwyr Creadigol weld o'r ffordd roedd y plant wedi parhau i ddysgu bod staff y lleoliad wedi sicrhau eu bod yn canu ac yn siarad Cymraeg bob dydd, nid dim ond yn ystod y sesiynau creadigol.

**LLAWN DYCHYMYG**

Roedd yr amrywiaeth fawr o dechnegau creadigol a gweithgareddau a ddygwyd i'r lleoliad gan yr Ymarferwyr Creadigol wedi ysbrydoli staff y lleoliad i feddwl am syniadau a phosibiliadau newydd, "Rhoddodd llawer o syniadau rhyfeddol i'n hymarferwyr am sut i wella'r ddarpariaeth yn ein lleoliad. Rydym yn fwrlwm o syniadau newydd."[51]

**DISGYBLEDIG**

Teimlai staff y lleoliad yn fwy hyderus yn defnyddio offer gyda'r plant, gan ddysgu gan yr Ymarferwyr Creadigol sut i addasu dulliau fel eu bod yn gweithio ar gyfer dwylo bach.

[49] ibid

[50] ibid

[51] ibid

## 3.19 Gofal Dydd Puddleducks

Mae Gofal Dydd Puddleducks wedi'i leoli ym mhentref Trefnant yn Sir Ddinbych. Mae'r cylch chwarae'n lleoliad Saesneg, mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae mewn ardal a ddisgrifir yn 'bentref gwledig a gwasgaredig'.

Mae gan y lleoliad fynediad cyfyngedig i leoedd tu allan a thu mewn. Mae'r lleoliad yn rhannu gofod ag ysgol, a dim ond am 30 munud a allai ei ddefnyddio. Roedd ar y lleoliad eisiau canolbwyntio'r sesiynau ar ddod o hyd i ffyrdd gwell o ddefnyddio'r lle awyr agored cyfyngedig a oedd ar gael iddo, ac i annog y plant i fod yn fwy anturus. Fel Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar, teimlasant yn 'sownd mewn rhigol' ac roedd arnynt eisiau archwilio sut i gefnogi'r staff i deimlo'n fwy hyderus yn darparu gweithgareddau newydd a deniadol i'r plant. Penododd y lleoliad dau Ymarferydd Creadigol â phrofiad o ddatblygu profiadau awyr agored creadigol deniadol i blant.

Ymgysylltodd yr Ymarferwyr Creadigol y plant mewn amrywiaeth fawr o weithgareddau creadigol gan gynnwys defnyddio blodau gwyllt i wneud diod hud, plannu blodau haul, chwarae â dŵr, tynnu lluniau sialc, paentio defnydd, gwneud swigod, reidiau mewn whilber, a phlethu helyg. Mwynhaodd y plant arbrofi trwy lenwi cynhwysyddion o feintiau gwahanol â dŵr cyn ei arllwys allan, gan ymarfer defnyddio'r tap. Yn hytrach na strwythuro gweithgareddau, rhoddodd yr Ymarferwyr Creadigol deunyddiau, gwrthrychau ac eitemau ar hap i'r plant, er mwyn ymgysylltu â'u creadigrwydd a dychymyg.

Roedd yn heriol i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar rheoli cyffro'r plant yn y man bach i gychwyn. Cymerodd amser i'r staff deimlo'n gyffyrddus ac i ymlacio wrth ganiatáu i'r plant arwain y sesiynau. Fodd bynnag, wrth i'r sesiynau mynd yn eu blaenau, ac wrth i hyder y staff dyfu, dechreusant werthfawrogi'r buddion i brofiadau dysgu'r plant o ganiatáu iddynt fod 'yn rhydd'. Dywedasant, "Rydyn ni gyd wedi dod yn fwy hyderus yn ystod y prosiect yn gadael i'r plant ddewis beth yr hoffant ei wneud. Ychwanegu eu hawgrymiadau fel hylif golchi llestri i wneud swigod, neu baent powdr i newid y lliw."[52]

Teimlai staff y lleoliad yn hyderus y byddant yn parhau i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn y sesiynau. Ers i'r sesiynau ddod i ben, defnyddiasent hen darpolin i greu cysgod haul yn yr ardd. Maent hefyd yn fwy beiddgar ynghylch defnyddio eu lle awyr agored, gan wthio'n ôl yn erbyn y cyfyngiad 30-munud a rhoi cyfle hirach i'r plant fod yn yr awyr agored yn ystod y dydd.

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**

Roedd y plant yn ymgysylltu'n llawer gwell pan gawsant wahoddiadau heb strwythur i chwarae, a denodd eu chwilfrydedd. Roeddent wrth eu boddau yn gallu dilyn syniad, arbrofi a rhoi cynnig ar bethau.

[52] Dogfen PDF Digwyddiad Rhannu Gofal Dydd Puddleducks

**DYFALBARHAUS**

Roedd rhai o'r plant a staff y lleoliad yn poeni neu'n teimlo'n anghyffyrddus ynghylch mynd yn wlyb neu'n fudr. Cefnogodd yr Ymarferwyr Creadigol y plant i herio'u hunain er mwyn goresgyn yr amharodrwydd hwn ac i gymryd rhan lawn yn y gweithgareddau. Roedd y plant a'r staff yn poeni llai ac yn gallu cymryd rhan lawn yn y gweithgareddau gwlyb neu fudr erbyn diwedd y sesiynau.

**CYDWEITHIOL**

Gallai'r plant chwarae'n well gyda'i gilydd a chydweithredu yn ystod y sesiynau gan nad oeddent yn ymladd dros deganau penodol, ond yn hytrach yn cymryd rhan yn rhydd mewn ystod o weithgareddau.

**LLAWN DYCHYMYG**

Roedd y sesiynau'n seiliedig ar ddiddordebau'r plant ac yn dilyn i le bynnag yr oedd y plant yn eu harwain. Cyflwynodd yr Ymarferwyr Creadigol profiadau deniadol yr oedd y plant wedyn yn gallu eu siapio a'u tywys drwy ddilyn eu dychymyg.

**DISGYBLEDIG**

Gallai'r plant cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau a oedd yn cynnwys dysgu technegau newydd, a datblygu a mireinio sgiliau newydd. Arsylwodd yr Asiant Creadigol y plant yn cymryd rhan mewn profiadau a ddatblygai, "…rheolaeth dros y corff, cyd-symud, cryfder canol y corff, cydbwysedd, sgiliau echddygol bras a manwl."[53]

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**

Dechreuodd staff y lleoliad leisio eu syniadau eu hunain, gwneud awgrymiadau a magu hyder yn eu galluoedd creadigol eu hunain wrth i'r sesiynau mynd rhagddynt. O'r herwydd, teimlai'r staff eu bod yn rheoli'r lleoliad yn well ac yn gallu ymlacio, ac y gallant barhau i ddysgu ar ôl i'r sesiynau ddod i ben.

**DYFALBARHAUS**

Dywedodd arweinydd y lleoliad bod y staff yn fwy hyderus i roi cynnig ar bethau newydd, ac i beidio â digalonni os oedd pethau'n mynd o chwith, "Hefyd, credaf fod yr ymarferwyr yn gallu dioddef ansicrwydd yn well o ran rhoi cynnig ar weithgaredd. Does dim ots os aiff pethau o chwith, neu'n groes i'r disgwyl - maen nhw wedi rhoi cynnig arni ac mae'r plant yn gwneud beth maen nhw eisiau ei wneud."

**CYDWEITHIOL**

Dechreuodd y staff gydweithio'n fwy effeithiol wrth iddynt ddysgu gan yr Ymarferwyr Creadigol. Gallent arsylwi'r plant a'u cefnogi, rhoi cymorth a mewnbwn ychwanegol lle bo angen, a chydweithio i ganiatáu'r plant i arwain y sesiynau.

**LLAWN DYCHYMYG**

Gwelodd y lleoliad bod y staff yn fwy cyffyrddus yn dilyn eu greddf a'u dychymyg eu hunain, ac wedi magu mwy o hyder yn eu hunain, "O weld yr ymarferwyr yn defnyddio'u greddf eu hunain yn ystod y prosiect, rydym ni fel lleoliad wedi cael ein hybu i fentro, ac yn teimlo'n gyffyrddus i roi cynnig ar bethau newydd."[54]

[53] Ffurflen werthuso Gofal Dydd Puddleducks

[54] ibid

**DISGYBLEDIG**

Roedd y lleoliad yn brysur iawn ar ddechrau'r sesiwn, rhwng y plant, yr Ymarferwyr Creadigol, y staff a'r holl offer. Bu'r staff yn ystyried hyn a phenderfynasant rannu'r plant yn ddau grŵp er mwyn rheoli'r gweithgareddau'n fwy effeithiol ac aros o fewn y gymhareb. Roedd hyn yn gweithio cymaint yn well a galluogodd i bawb cael mwy o fudd o'r sesiynau.

## 3.20 Cylch chwarae cyn ysgol St Mary's

Mae Cylch Chwarae cyn ysgol St Mary's wedi'i leoli yn ninas Wrecsam. Mae'r cylch chwarae cyn ysgol yn lleoliad Saesneg, mewn ardal yng nghategori'r 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae mewn un o'r ardaloedd lleiaf poblog yng Nghymru, a ddisgrifir yn 'ddinas a thref drefol'.

Symudodd y lleoliad i eiddo newydd yn ddiweddar, ac roedd arno eisiau canolbwyntio ar ddefnyddio'r sesiynau i archwilio sut i ddefnyddio'i lle awyr agored. Roedd arno eisiau canolbwyntio ar ddefnyddio 'rhannau rhydd' wrth chwarae ac archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio lleoedd awyr agored mwy gwyllt ar gyfer chwarae mwy mentrus ac anturus. Gweithiodd y lleoliad â dau Ymarferydd Creadigol â phrofiad mewn chwarae yn yr awyr agored, rhannau rhydd a chreu profiadau deniadol i blant ifanc.

Yn ystod y sesiynau, daeth yr Ymarferwyr Creadigol â llawer o wrthrychau gwahanol fel hen ffonau, bysellfyrddau, hetiau ac eitemau ar hap eraill i'r lleoliad a chaniatáu i'r plant ymgysylltu â nhw fel y mynnant, gan ddefnyddio'u dychymyg i greu eu gemau a'u gweithgareddau eu hunain. Ymgysylltodd yr Ymarferwyr Creadigol â'r plant hefyd wrth greu ardal goedwig, lle adeiladasant siglen a thân gwersyll, archwilio natur a mynd yn fudr.

Teimlasai'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar bod hyn wedi bod yn "anhygoel" ac roedd wedi helpu i holl staff y lleoliad deimlo'n fwy hyderus wrth alluogi'r plant i archwilio a mynd ar antur yn yr awyr agored. Teimlasant fod yr Ymarferwyr Creadigol wedi gwneud "yn anhygoel ac wedi cael syniadau gwych." Roeddent yn mynd i barhau â'r chwarae rhannau rhydd ac wedi creu bocsys eu hunain o "sothach ar hap" (yn eu geiriau nhw) i greu awyrgylch chwarae deniadol heb strwythur i'r plant.

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**
Dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar bod llawer o'r plant sy'n dod i'r lleoliad yn byw mewn fflat heb fynediad rheolaidd i le awyr agored. Roedd yn bwysig felly i'r plant cael mynediad i'r awyr agored yn y gofal cyn ysgol, a'u bod yn rhydd i ryngweithio â natur a gofod naturiol. Rhoddodd y sesiynau gyfle i'r plant archwilio, bod yn chwilfrydig ac i ymgysylltu â natur.

**DYFALBARHAUS**
Roedd rhai o'r plant yn llai cyffyrddus yn y lleoliadau awyr agored i gychwyn, gan nad oeddent mor gyfarwydd â mwd a rhyngweithio â bwystfilod bach. Daeth pob plentyn yn fwy hyderus yn chwarae'n anturus yn yr awyr agored trwy'r sesiynau, ac maent bellach yn gyffrous i chwarae tu allan.

**CYDWEITHIOL**
Dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar, "Mae'r plant wedi dysgu sut i rannu a chymryd tro, ac wedi magu hyder yn cymryd risgiau ac yn wynebu heriau yn ein hardal awyr agored newydd."

**LLAWN DYCHYMYG**
Gwahoddwyd y plant i ddefnyddio'u dychymyg gan y chwarae rhannau rhydd. Dywedodd staff y lleoliad bod y plant wedi "ymgolli" yn y chwarae, yn creu eu gemau eu hunain, yn chwarae rôl ac yn gweithio gyda'i gilydd.

**DISGYBLEDIG**

Dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar bod y plant wedi ffurfio, "…rhwydwaith agosach, a defnyddiwyd mwy o iaith wrth iddynt ddefnyddio'r siglen yn ein hardal awyr agored newydd."[55]

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**

Roedd holl staff y lleoliad yn barod i roi cynnig ar ddull newydd iawn o chwarae a gyflwynwyd gan yr Ymarferwyr Creadigol. Roeddent yn agored i archwilio sut  y byddai'r dull newydd yn gweithio yn eu lleoliad nhw a sut y byddai o fudd i'r plant.

**DYFALBARHAUS**

Gallai'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar wynebu'r her a gododd o roi mwy o ryddid i'r plant a chaniatáu iddynt gymryd mwy o risgiau yn y chwarae awyr agored. Gwelodd yr Ymarferwyr Creadigol bod y staff yn llai ofnus ac yn ymlacio mwy ar ôl gweld sut y gellid rheoli risg yn ystod y sesiynau.

**CYDWEITHIOL**

Bu'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn cydweithredu'n agos â'r Ymarferwyr Creadigol, gan "…groesawu'r her hwn, heb ofni derbyn risg ac yn bwysicach, yn caniatáu i'r plant gymryd risgiau hefyd, heb ymdeimlad llethol o ofn, neu 'beth os…'"[56]

**LLAWN DYCHYMYG**

Mae'r lleoliad yn defnyddio'r dull rhannau rhydd o chwarae ar ôl gweld faint mae'r plant wedi elwa o chwarae mewn amgylchedd mor ddeniadol ac effeithiol. Dywedodd y staff eu bod wedi'u hysbrydoli i gael gafael ar lawer o wrthrychau newydd fel bod y plant yn ymgysylltu â nhw nawr bod y sesiynau wedi dod i ben.

**DISGYBLEDIG**

Dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar eu bod yn teimlo'n fwy cyffyrddus pan oedd y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau mwy mentrus. Roeddent yn gallu myfyrio'n feirniadol ar y buddion i blant a ddaw o'r dull hwn o ymgysylltu â natur a'r awyr agored.

[55] Ffurflen werthuso Cylch chwarae cyn ysgol St Mary's

[56] ibid

## 3.21 The Den

Mae The Den wedi lleoli ym mhentref Marchwiel ger Wrecsam. Mae'n lleoliad Saesneg, mewn ardal yng nghategori'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae mewn ardal a ddisgrifir yn 'bentref gwledig a gwasgaredig'.

Roedd ar y lleoliad eisiau gweithio â'r Ymarferwyr Creadigol i archwilio ffyrdd o wella cyfathrebu'r plant, eu datblygiad corfforol a'u hyder yn defnyddio offer, rheoli risg a rhoi cynnig ar brofiadau creadigol newydd. Penododd y lleoliad dau Ymarferydd Creadigol a fyddai'n darparu sesiynau i'r plant mewn amrywiaeth o ymarferion creadigol, gan gynnwys gwaith coed.

Newidiwyd staff y lleoliad rhwng adeg cynllunio'r sesiynau a dechrau'r sesiynau. Cafwyd rhywfaint o fân heriau o ran rheoli risg i gychwyn, a arweiniodd at golli hyder yn y broses a rhai anawsterau cyfathrebu rhwng un o'r Ymarferwyr Creadigol a'r lleoliad. Fodd bynnag, aeth y sesiynau ymlaen ar ôl eu haddasu i leihau'r posibilrwydd o unrhyw risgiau.

Ymwelsom â'r lleoliad ac arsylwi'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag un o'r Ymarferwyr Creadigol. Penderfynodd y lleoliad ddod â'r plant i'r gweithgareddau mewn grwpiau bach er mwyn rheoli risg. Roedd hyn yn ei wneud yn anoddach i'r Ymarferydd Creadigol ddatblygu'r sesiynau mewn ffordd lai strwythuredig a lifai, a oedd yn destun rhwystredigaeth iddo. Fodd bynnag, cyflwynodd yr Ymarferydd Creadigol flociau mawr yr oedd y plant yn mwynhau eu rholio a'u gwthio drosodd. Ysbrydolodd hyn yr Ymarferydd Creadigol i weithio gyda'r plant i greu gêm dominos mawr y gallai'r plant adeiladu â nhw a'u bwrw drosodd.

Clywsom gan dîm y lleoliad am y gwaith a wnaethant gyda'r Ymarferydd Creadigol arall a ymgysylltodd â'r plant ar thema'r llyfr 'Y Lindysyn Llwglyd Iawn'. Cefnogwyd y plant gan yr Ymarferydd Creadigol i greu lindysyn *decoupage*, ac i ddefnyddio gwrthrychau gwahanol fel mefus a dail i brintio ar bapur, i gynrychioli'r bwyd a fwytawyd gan y lindysyn ar ei daith. Creodd y plant pili palaod a blodau a'u gosod ar faner fawr sydd, "...wedi'i arddangos yn falch yn ein hardal awyr agored ac ar waliau'r ystafell gotiau."

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**
Dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar bod y sesiynau wedi galluogi'r plant i fod yn fwy parod i archwilio a dilyn eu chwilfrydedd. Roeddent yn fwy hyderus yn gofyn cwestiynau ac yn fwy agored i roi cynnig ar weithgareddau newydd.

**LLAWN DYCHYMYG**
Dywedodd y staff Blynyddoedd Cynnar bod y plant yn gallu archwilio deunyddiau celf gwahanol a phrosesau creadigol yn well ar ôl cymryd rhan yn y sesiynau. Mwynhasant ddefnyddio eu dychymyg i archwilio stori'r Lindysyn Llwglyd Iawn trwy edrych ar fwystfilod bach ac archwilio siapiau, blasau a lliwiau'r bwydydd yr oedd y lindysyn wedi'u bwyta.

**DISGYBLEDIG**
Datblygodd y plant amrywiaeth o sgiliau creadigol yn ystod y sesiynau, a mireinio eu technegau wrth ddefnyddio morthwylion pren ac offer syml eraill.

## 3.22 Ysgol Feithrin Pont-y-pŵl

Mae Ysgol Feithrin Pont-y-pŵl wedi'i lleoli yn nhref Pont-y-pŵl yn Nhorfaen. Mae'n lleoliad Cymraeg, mewn ardal yng nghategori'r 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl y system Gategoreiddio Gwledig Trefol, mae mewn ardal a ddisgrifir yn 'ddinas a thref drefol'.

Roedd ar y lleoliad eisiau canolbwyntio ar greu mwy o amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau creadigol i'r plant. Roedd arno eisiau datblygu hyder a dyfalbarhad y plant, a'u brwdfrydedd dros greadigrwydd. Hefyd, roedd arno eisiau rhoi hyder a sgiliau creadigol i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar y gallasent barhau i'w defnyddio gyda'r plant ar ôl i'r sesiynau ddod i ben.

Gweithiodd y lleoliad ag Ymarferydd Creadigol sy'n artist amlgyfrwng â sgiliau mewn ystod o arferion creadigol. Gweithiodd gyda'r plant, yn eu helpu i wneud printio sgrin (yn defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu), gwthio blodau a dail i mewn i glai, cefnogi'r plant i ddefnyddio peiriant gwnïo, gwnïo â llaw, creu baneri, plygu gwifren i greu cerflun. Dangosir rhai o'r gweithgareddau hyn yn y lluniau isod.



Ymwelsom â'r lleoliad ac arsylwi'r plant yn creu lliw o ddeunyddiau naturiol. Cefnogwyd y plant i stwnsio aeron, cymysgu powdr sbeis, malu petalau a dail, a defnyddio gograu a hen ddefnydd i dynnu'r lliwiau o'r deunyddiau gwahanol. Roedd y plant yn ymgysylltu'n dda iawn â'r gweithgareddau, yn aros yn amyneddgar ac yn cymryd eu tro, ond yn gofyn cwestiynau o hyd ac yn defnyddio geirfa newydd i ddisgrifio'r lliwiau, arogleuon ac ansawdd y lliwiau. Ar ôl tynnu'r lliwiau, aeth y plant tu allan lle'r oedd darnau mawr o bapur wedi'u gosod ar lawr yr ardd, a defnyddio'r lliwiau gwahanol i baentio ar y papur. Roedd y plant yn mwynhau gweld sut olwg oedd ar y lliwiau gwahanol, a chofio sut yr oeddent wedi creu pob lliw. Mwynhaodd y plant troi'r potiau lliw drosodd a gwylio'r lliwiau'n rhedeg i lawr y papur, yn cymysgu gyda'i gilydd i greu lliwiau newydd (gweler y llun isod).



Rhoddodd y sesiynau "blwch offer" newydd o weithgareddau i'r lleoliad, a disgrifiodd rheolwr y lleoliad y sgiliau a ddatblygwyd gan yr holl staff trwy'r sesiynau yn "enfawr". Rhwng y sesiynau, ysbrydolwyd yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar i addasu pob sgil, ei ddatblygu a chymryd perchnogaeth ohono. Roedd cryfder y berthynas rhwng yr Ymarferydd Creadigol a'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn rhan bwysig o lwyddiant y broses Dysgu Creadigol hon. Adeiladwyd y berthynas drwy gyfathrebu cryf a chlir, a thrwy neilltuo amser ar ddechrau'r broses i gynllunio a datblygu dealltwriaeth a rannwyd. Disgrifiodd rheolwr y lleoliad yr Ymarferydd Creadigol fel "rhan o'r teulu".

**Prif effeithiau – Plant**

**CHWILFRYDIG**
Roedd y plant yn gallu dilyn eu chwilfrydedd a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o ryngweithio â deunyddiau. Roedd y sesiwn yn creu lliwiau gwahanol wedi caniatáu iddynt arbrofi, darganfod sut roedd sylweddau gwahanol yn creu lliwiau gwahanol, a gweld sut olwg oedd ar y lliwiau o'u defnyddio fel paent.

**DYFALBARHAUS**
Roedd y plant yn ei chael yn anodd gwthio edau trwy nodwydd a defnyddio'r peiriant gwnïo i gychwyn. Fodd bynnag, daethant yn fwy medrus wrth iddynt ddyfalbarhau, fel dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd, "Mae'r plant wedi dysgu creu patrymau, arbrofi gyda phob math o ddeunyddiau, gwnïo gyda pheiriant a chotwm ac edau sydd yn arwain at ddatblygu sgiliau echddygol manwl trwy brofiadau go iawn."

**CYDWEITHIOL**
Cydweithiodd y plant i greu llun hardd yn defnyddio lliwiau naturiol a wnaethant eu hunain. Roeddent yn gallu cydweithio i greu darn o gelf ar y cyd, yr oeddent yn haeddiannol falch ohono.

**LLAWN DYCHYMYG**
Gallai'r plant ymgysylltu â gweadau, deunyddiau a phrosesau creadigol gwahanol. Daethant yn gyffyrddus i roi cynnig ar bethau newydd a deall sut roedd gweithrediadau gwahanol yn achosi canlyniadau gwahanol.

**DISGYBLEDIG**
Gallai'r plant ddefnyddio amrywiaeth fawr o sgiliau creadigol yn ystod y sesiynau, a dangosant welliant mawr yn eu galluoedd o ran gwthio edau trwy nodwydd, marcio, a dilyn camau clir.

**Prif effeithiau - Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar**

**CHWILFRYDIG**
Gallai'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar arsylwi'r sesiynau gyda'r Ymarferydd Creadigol a defnyddio'r hyn a ddysgant trwy gydol yr wythnos gyda'r plant. Roedd hyn yn eu galluogi nhw i archwilio sut y gallent hwy a'r plant addasu ac ymestyn y gweithgareddau creadigol, gan gymryd perchnogaeth ohonynt.

**DYFALBARHAUS**
Teimlai staff y lleoliad ei fod yn heriol iddynt alluogi'r holl blant gymryd rhan ymhob gweithgaredd creadigol o fewn y ffrâm amser, ac roedd angen addasu ar rai o'r gweithgareddau er mwyn iddynt weithio i'r plant. Tyfodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn fwy cyffyrddus yn rhoi cynnig ar bethau newydd ac o ran yr ansicrwydd yr oedd hyn yn ei achosi.

**CYDWEITHIOL**
Bu'r Ymarferydd Creadigol a'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn cydweithio trwy gydol y fenter, yn gweithio gyda'i gilydd i drafod yr hyn a fyddai'n gweithio yn y lleoliad, sut i addasu gweithgaredd creadigol i'w wneud yn hygyrch i'r plant, sut i reoli'r sesiwn a sut i gynnal sylw pawb. Datblygodd y tîm berthynas gweithio agos ac effeithiol trwy gyfathrebu'n dda ac ymddiried yn ei gilydd.

**LLAWN DYCHYMYG**

Ysbrydolwyd yr holl Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar gan yr Ymarferydd Creadigol i ddod â mwy o weithgareddau creadigol newydd i'r lleoliad. Dywedodd pob un ohonynt eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ac, "mae'r staff wedi dysgu edrych tu allan i'r bocs"[57]

**DISGYBLEDIG**

Datblygodd yr holl Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar eu sgiliau creadigol ochr yn ochr â'r plant, gan ehangu ar eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn amrywiaeth fawr o ymarferion creadigol. Dywedodd rheolwr y lleoliad wrthym, "Doedden ni ddim yn gallu credu bod cymaint o ffyrdd inni wneud celf a chreadigrwydd gyda'r plant."

[57] Ffurflen werthuso Ysgol Feithrin Pont-y-pŵl


# 4. Effaith

### 4.1 Effaith ar yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar

Ceir tystiolaeth amlwg bod yr holl leoliadau a gwblhaodd y broses ddysgu wedi cyflawni, neu wedi rhagori ar eu disgwyliadau o ran datblygu Arferion Creadigol y Meddwl. Yn ystod blwyddyn gyntaf y fenter, nodwyd nad oedd rhai o'r lleoliadau a gymerodd rhan mor gyfarwydd ag Arferion Creadigol y Meddwl fel methodoleg ar gyfer gwerthuso a chefnogi creadigrwydd. Eleni, nododd y gwerthusiad nad oedd Arferion Creadigol y Meddwl wedi'u hymwreiddio'n llawn yn arferion yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a gymerodd rhan. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth amlwg bod Asiantau Creadigol wedi gweithio gyda lleoliadau i wella eu dealltwriaeth o'r fethodoleg, ac y gallai gymryd mwy o amser i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar dderbyn y fethodoleg hon yn llawn. Gwnaethom gyfweld ag un o'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a gymerodd rhan ym mlwyddyn gyntaf y fenter, a ddywedodd yr oedd wedi cymryd tipyn o amser iddo fynd i'r afael ag Arferion Creadigol y Meddwl yn iawn. Iddo ef, nid oedd yn rhywbeth y gallai ei ddeall yn llawn yn ystod amserlen ei ymgysylltiad yn y flwyddyn gyntaf, ond roedd bellach yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio'r fethodoleg yn ei leoliad.

O archwilio'r naratifau yn y ffurflenni gwerthuso, ein cyfweliadau a'r dystiolaeth a gasglwyd yn y digwyddiadau rhannu, roedd deuddeg o'r lleoliadau wedi datblygu Arferion Creadigol ychwanegol i'r rhai ar eu Ffurflenni Gwerthuso.

Roedd ffurflenni gwerthuso'r lleoliadau'n cynnwys cwestiwn wedi'i raddio a ofynnodd i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar rhoi sgôr i'r effaith a gafodd y fenter ar eu hyder, "A yw cymryd rhan yn y fenter hon wedi gwella eich hyder o ran defnyddio ymagweddau creadigol yn eich lleoliadau?" Mae sgorau'r cwestiwn wedi'u nodi yn y graff isod.




Roedd lefelau hyder o ran defnyddio ymagweddau creadigol ym mhob un o'r lleoliadau yn uchel, gyda sgôr o 9 allan o 10 ar gyfartaledd.

Fel yn y flwyddyn gyntaf, effaith fwyaf arwyddocaol y fenter oedd ysbrydoli hyder ymysg yr


Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar. Mae hwn yn ganlyniad hollbwysig, o gofio mai un o'r tri nod allweddol yw, "I ddatblygu hyder yr ymarferwyr blynyddoedd cynnar a'r ymarferwyr creadigol i dreialu ffyrdd newydd o weithio."[58] Ym mhob lleoliad, dywedodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio creadigrwydd yn eu lleoliad. Roedd pob un ohonynt yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r syniadau a sgiliau creadigol gyda'r plant.

Datblygodd llawer o'r Ymarferwyr Creadigol hyder yn gweithio gyda phlant blynyddoedd cynnar hefyd a dywedodd rhai ohonynt eu bod wedi datblygu eu harferion eu hunain ar ôl cymryd rhan yn y sesiynau. Yn y lleoliadau lle cafwyd dau Ymarferydd Creadigol, roedd llawer yn croesawu'r cydweithredu a'r hyder yn eu gwaith eu hunain a ddaeth o'r herwydd.

Roedd peth dryswch o hyd ymysg yr Ymarferwyr Creadigol a'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar ynghylch a oedd Arferion Creadigol y Meddwl yn cael eu datblygu i'r plant, i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar, neu i'r ddau. Rydym wedi casglu tystiolaeth drwy gydol y gwerthusiad o blaid y ddau, ond gallai fod yn fuddiol yn ystod y flwyddyn olaf i fod yn fwy clir yn yr hyfforddiant a'r ffurflenni gwerthuso ynghylch pa grŵp yw'r prif ffocws. Yn ogystal, dylid cynnwys cyfarwyddiadau mwy penodol yn y ffurflenni gwerthuso ynghylch pa dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos effaith.

## 4.2 Effaith ar y Plant

Yn ogystal, gofynnodd y ffurflen werthuso i'r lleoliadau i werthuso effaith y sesiynau ar y plant. Roedd sgorau'r cwestiwn "A yw defnyddio ymagwedd dysgu creadigol wedi cael effaith ar ddysgu a datblygiad eich plant 3-5 oed?" yn gadarnhaol hefyd, fel y gwelir yn y graff isod.




Teimlai'r lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a gymerodd rhan yn y broses ddysgu creadigol eleni bod yr ymagweddau creadigol wedi cael effaith gadarnhaol ar y plant, gyda sgôr o 8.7 allan o 10 ar gyfartaledd.

[58] Gwahoddiad i Dendro gwreiddiol, Cyngor Celfyddydau Cymru

Yn ogystal, rhoddodd y ffurflenni gwerthuso tystiolaeth o niferoedd y plant a gymerodd rhan eleni. Amcangyfrifodd y ffurflenni cynllunio gwreiddiol y byddai 436 yn cymryd rhan yn y fenter. Dangosodd y ffurflenni gwerthuso bod 493 o blant ledled Cymru yn rhan o'r profiadau creadigol hyn. Mewn dwy flynedd, mae rhaglen Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar wedi ymgysylltu â **736** o blant ledled Cymru, a chyfanswm o **34** o leoliadau Blynyddoedd Cynnar.

Eleni, rhoddwyd mwy o bwyslais ar y Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir yng Nghymru[59] yn yr hyfforddiant ac yn ystod y broses werthuso. Mae'r Cwricwlwm yn sefydlu llwybrau datblygu sy'n cefnogi lleoliadau i wireddu elfennau gorfodol y Cwricwlwm ac "yn atgyfnerthu dysgu dilys a phwrpasol, ac yn sicrhau fod pob plentyn yn gwneud cynnydd."[60] Mae'r pum llwybr yn perthyn i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru ehangach (dysgwyr uchelgeisiol, galluog, cyfranwyr mentrus, creadigol, dinasyddion egwyddorol, gwybodus, ac unigolion iach, hyderus).

Roedd hyfforddiant yr Ymarferwyr Creadigol, Asiantau Creadigol a'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn archwilio'r chwe maes canolbwyntio a oedd yn seiliedig ar y Cwricwlwm. Y pum llwybr datblygu, ynghyd â'r "Arsylwi a Sylwi ar Blant mewn Gweithgareddau Creadigol" ychwanegol oedd wrth galon y meysydd canolbwyntio, ar sail egwyddor allweddol y Cwricwlwm sef oedolion, "...medrus, sylwgar a brwdfrydig, sy'n cynnig profiadau dilys a diddorol mewn amgylcheddau effeithiol a chyffrous."[61]

Rydym wedi defnyddio'r datganiad "Rwy'n dysgu sut i..." pob llwybr datblygu i archwilio sut y mae Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar wedi cyfrannu at gefnogi'r meysydd datblygu hyn. Mae'r datganiadau "Rwy'n dysgu sut i...' wedi'u mynegi o safbwynt y plentyn, "er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar anghenion, diddordebau a chwilfrydedd plant tair a phedair oed"[62].

### 4.2.1 Perthyn

Cafwyd nifer o enghreifftiau yn y gwerthusiad lle'r oedd y sesiynau creadigol wedi rhoi cyfleoedd i'r plant gymryd rhan ym mywyd y lleoliad. Roedd y plant yn gallu helpu i wneud ardaloedd chwarae newydd a chreu meinciau, planwyr, gwestai pryfed, siglenni, ysgrifennu caneuon a chreu pypedau - a phob un ohonynt yn rhan o etifeddiaeth barhaus y sesiynau.

Archwiliodd nifer o leoliadau sut i gefnogi'r plant i ymgymryd â risg, a dysgodd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a'r plant gyda'i gilydd sut i gadw pawb yn ddiogel wrth wneud gwaith coed, archwilio yn yr awyr agored a choginio ar danau agored.

Roedd ar lawer o leoliadau eleni eisiau canolbwyntio ar ddatblygu'u defnydd o fan awyr agored. Rhoddodd hyn gyfleoedd i lawer o blant ymgysylltu â natur, pryfed a bywyd gwyllt, gan ddatblygu chwilfrydedd a pharch at bethau byw. Roedd llawer o'r sesiynau creadigol yn defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a'u haddasu at ddibenion gwahanol, gan helpu i'r plant ddysgu sut i ofalu am eu hamgylchedd naturiol trwy ailddefnyddio ac ailgylchu.

---

[59] Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir (llyw.cym)

[60] https://ndna.org.uk/ndna-cymru/curriculum-for-wales/the-five-developmental-pathways/

[61] Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir (llyw.cym)

[62] ibid

Trwy gydol blwyddyn bresennol y fenter Dysgu Creadigol, cafwyd trafodaethau diddorol ynghylch y ffordd cafodd y plant eu cefnogi i ddatblygu eu hymdeimlad o 'gynefin'. Mae Cwricwlwm i Gymru'n disgrifio cynefin fel;

"dyma'r man y teimlwn ein bod yn perthyn iddo... Nid dim ond man yn yr ystyr ffisegol neu ddaearyddol ydyw... dyma'r lleoliad hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi ffurfio ac sy'n parhau i ffurfio'r gymuned sy'n trigo yno"[63]

Cefnogwyd y plant i ddatblygu a gwerthfawrogi'r Gymraeg, ac i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru trwy straeon, caneuon, cerddoriaeth, dawns, chwarae rôl ac archwilio corfforol. Bu'r sesiynau creadigol yn helpu i'r plant ddatblygu cysylltiadau cryfach â'u cymunedau trwy weithgareddau pontio'r cenedlaethau a thrwy ddysgu am eu cartref, eu cymdogion a sut y maent yn rhan o hanes a diwylliant a rennir. Cefnogwyd y plant hefyd i weithio gyda'i gilydd, i barchu anghenion a gwahaniaethau ei gilydd, ac i ddangos empathi. Dysgasant fod "...'perthyn' yn golygu derbyn pobl eraill cymaint ag y bo'n rhywbeth i'w deimlo dros eich hun."

### 4.2.2 Cyfathrebu

Dywedodd llawer o'r lleoliadau bod y plant yn cyfathrebu'n well, ymysg ei gilydd a gydag oedolion, ar ôl cymryd rhan yn y sesiynau creadigol. Roeddent yn fwy hyderus, yn gallu codi llais a rhannu eu syniadau a'u hawgrymiadau. Roedd y dulliau gwahodd i chwarae a'r 'rhannau rhydd' yn benodol wedi galluogi'r plant i gydweithredu'n fwy effeithiol, gan arwain at lai o anghytuno a llai o angen ymyrryd gan staff y lleoliad.

Roedd pob sesiwn creadigol yn cynnwys elfen o chwarae rôl, ac roedd y plant yn gallu mynegi eu hunain trwy amrywiaeth fawr o gyfryngau gwahanol. Roedd y sesiynau'n aml yn defnyddio cân neu stori gyfarwydd, yr oedd y plant yn gallu ei pherfformio neu ei hailddweud yn eu ffyrdd eu hunain. Roedd llawer o'r plant wedi gallu gwella eu cyfathrebu yn Gymraeg. Llwyddodd rhai lleoliadau i gyflawni cynnydd mawr o ran eu hyder yn defnyddio'r Gymraeg, gan greu cysylltiadau cryf rhwng y geiriau a'u hystyron trwy chwarae, canu a chwedleua.

Defnyddiodd y plant eu bysedd, ffyn, brwsys ac ystod o wrthrychau gwahanol i ymarfer eu marcio. Cafwyd nifer o enghreifftiau o blant yn datblygu sgiliau echddygol manwl trwy ddefnyddio offer, dysgu gwnïo a gwthio edau trwy nodwydd, a threfnu gwrthrychau bach, sy'n hanfodol i gefnogi datblygiad llawysgrifen[64].

### 4.2.3 Archwilio

Arweiniwyd llawer o'r sesiynau creadigol gan y plant, gan alluogi i'r plant fynd â'r gweithgareddau i ba bynnag cyfeiriad yr oedd eu diddordebau a'u chwilfrydedd yn eu tywys. Cawsant gyfleoedd i roi cynnig ar bethau newydd, i wneud camsyniadau ac ymarfer hyd nes eu bod yn gallu cyflawni eu nodau.

Defnyddiodd y sesiynau llawer o ddeunyddiau newydd a chyffrous y gallai'r plant arbrofi â nhw, megis ffotograffiaeth seianoteip, creu lliwiau o ddeunyddiau naturiol, ac ychwanegu paent i swigod. Roedd y plant yn gallu archwilio sut oedd eu gweithrediadau yn arwain at ganlyniadau gwahanol.

---

63 https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm

64 https://www.jstage.jst.go.jp/article/jpts/30/2/30_jpts-2017-450/_article

Gallai'r plant ymarfer mesur ac amcangyfrif, dysgu am rifau a meintiau yn eu sesiynau gwaith coed. Roedd angen llawer o gydnerthedd a dyfalbarhad gan y plant yn y sesiynau hyn gan fod defnyddio offer yn aml yn anodd, yn swnllyd ac yn gwneud iddynt deimlo'n rhwystredig i gychwyn, ond daeth y sesiynau'n haws gan fod y plant yn gallu ymarfer eu sgiliau.

### 4.2.4 Datblygiad Corfforol

Rhoddodd y sesiynau llawer o gyfleoedd i'r plant symud, rhedeg, cropian, neidio a dawnsio. Roedd symud yn thema arbennig o gryf yn y fenter y flwyddyn hon, gyda llawer o leoliadau yn cynnwys symud tu mewn a thu allan yn eu cynlluniau. Galluogwyd i'r plant ymgysylltu ag ystod o amgylcheddau gwahanol a chawsant eu cefnogi i ddatblygu eu hyder ac i fynegi eu hunain drwy symud.

### 4.2.5 Llesiant

Cafwyd nifer o gyfeiriadau at y plant yn datblygu eu gallu i fod yn amyneddgar a chymryd tro. Dysgodd llawer o'r plant y pwysigrwydd o aros a rhoi lle i bobl eraill wrth wneud y gweithgareddau mwy mentrus. Roedd y plant yn gallu deall y cyfarwyddiadau a'u mynegi i blant eraill, gan atgoffa eu cyfoedion pan oeddent yn anghofio i ddilyn y rheolau.

Dywedodd rhai o'r lleoliadau bod y sesiynau wedi galluogi i rai o'r plant, yn enwedig y rhai ag AAY, gwella eu canolbwyntio, eu tawelu ac ymgysylltu mwy.

### 4.2.6 Arsylwi a Sylwi ar Blant mewn Gweithgareddau Creadigol

Mae'r Cwricwlwm yn disgrifio 'oedolion sy'n galluogi dysgu' sydd â "...[rôl sy'n] hanfodol i gynnydd pob plentyn ac yn arbennig o bwysig yn ystod y cyfnod dysgu cynnar hwn."[65] Trwy gydol y gwerthusiad hwn, cafwyd enghreifftiau diri o'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar, yr Ymarferwyr Creadigol a'r Asiantau Creadigol yn modelu ymagwedd chwilfrydig a llawen at ddysgu. Soniodd nifer o'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar am y ffordd roedd y sesiynau wedi'u helpu nhw i ystyried y ffordd maent yn ymgysylltu â phlant mewn gweithgareddau. Roedd yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn gallu arsylwi chwarae'r plant ac ystyried beth oedd o ddiddordeb iddynt ac yn ddeniadol, yn hytrach na rhagddiffinio strwythur a chyfeiriad y gweithgareddau. O ganlyniad i'r ymagwedd hon o 'gamu'n ôl' a chaniatáu i'r plant arwain y ffordd a defnyddio'u dychymyg, roedd y plant yn cysylltu mwy â'r sesiwn, ac am gyfnodau hirach.

[65] Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir (llyw.cym)

# 5. Cyflawni a Rheoli

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin a Chwmpas yn rhannu ymrwymiad i bwysigrwydd addysg Blynyddoedd Cynnar, a pharch at yr holl weithwyr creadigol proffesiynol a'r gweithwyr blynyddoedd cynnar proffesiynol sy'n cymryd rhan yn y fenter. Mae cyfathrebu rhwng y sefydliadau partner a'r tîm gwerthuso wedi bod yn gadarnhaol ac yn gynhyrchiol iawn.

Trwy gydol cam cyflawni ail flwyddyn y fenter, mae'r tîm cyflawni wedi gwahodd adborth yn weithredol gan yr Asiantau Creadigol, yr Ymarferwyr Creadigol a'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar trwy ddeialog agored ac arolygon ar-lein. Cafwyd rhai heriau eleni, a gweithiodd y tîm cyflawni a'r sefydliadau partner yn gydweithiol i ddeall unrhyw broblemau, gwrando ar y rhai a effeithiwyd, a llunio datrysiadau er mwyn sicrhau na fydd y problemau'n codi ym mlwyddyn tri.

### 5.1 Recriwtio Ymarferwyr Creadigol

Cafwyd rhai heriau o ran recriwtio Ymarferwyr Creadigol eleni. Roedd rhai o'r heriau'n ymwneud â recriwtio Ymarferwyr Creadigol sy'n siaradwyr Cymraeg hyderus i weithio mewn lleoliadau Cymraeg. Mae cyflawni dysgu creadigol i blant mor ifanc yn set sgiliau arbenigol o hyd, ac efallai nid oes digon o ymarferwyr creadigol eto sy'n teimlo'n hyderus i dderbyn yr her o gymryd rhan yn y fenter – yn enwedig y rheiny sy'n siarad Cymraeg. Byddai'n ddefnyddiol i'r Cyngor Celfyddydau weithio gyda'r sefydliadau partner i ddyfeisio ffyrdd o ehangu ar y gronfa o Ymarferwyr Creadigol posibl y gellid eu defnyddio ym mlwyddyn tri.

### 5.2 Amseru

Awgrymodd nifer o'r lleoliadau nad oedd amseru'r fenter yn ystod tymor olaf y flwyddyn yn ddelfrydol, oherwydd hwn yw'r tymor a ddisgrifir yn aml fel yr un mwyaf prysur sy'n achosi llawer o straen. Fodd bynnag, dywedodd lleoliadau eraill bod yr amseru'n gweithio'n dda iddynt, yn enwedig o ran cynllunio gweithgareddau awyr agored. Teimlasant fod y rhain yn gweithio'n well yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf.

### 5.3 Y broses ymgeisio

Wynebodd nifer o leoliadau heriau wrth gofrestru ar borth ar-lein y Cyngor Celfyddydau, a oedd yn broblem a gododd yn y flwyddyn gyntaf hefyd. Gweithiodd y Cyngor Celfyddydau, Blynyddoedd Cynnar Cymru a Mudiad Meithrin yn galed gyda'r lleoliadau i ddatrys yr anawsterau, ond roedd llawer ohonynt wedi'u hachosi gan anawsterau gweinyddol (fel rhoi enw cyfrif banc gwahanol i'r un yn y ddogfen llywodraethu) a oedd yn anodd iawn eu datrys. Cawsom adborth gan nifer o leoliadau a gafodd anawsterau gyda'r porth eleni, ac roedd llawer ohonynt wedi gwastraffu amser gwerthfawr a phrin y staff yn ceisio ei ddefnyddio. Methodd un lleoliad ddatrys y problemau gyda'r porth ac nid oedd wedi gallu cymryd rhan yn y broses eleni, ond mae'n bwriadu ymuno â'r fenter ym mlwyddyn tri.

Deallwn fod y Cyngor Celfyddydau'n cydnabod yr anhawster hwn fel rhwystr difrifol i leoliadau Blynyddoedd Cynnar rhag cymryd rhan yn y fenter hon, a bod camau'n cael eu cymryd i ddileu'r angen iddynt gofrestru ar y porth ar gyfer y fenter flwyddyn nesaf. Bydd dileu mynediad i'r porth fel rhag-amod yn gymorth sylweddol i'r lleoliadau Blynyddoedd Cymorth ymgysylltu â'r fenter ym mlwyddyn tri, ac efallai'n cynorthwyo'r bartneriaeth i ymgysylltu ag ystod fwy amrywiol o leoliadau ym mlwyddyn olaf y fenter.

## 5.4 Pwysigrwydd Perthnasoedd

Fel yn y flwyddyn gyntaf, roedd y perthnasoedd cadarnhaol a ffurfiwyd rhwng yr Asiantau Creadigol, yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a'r Ymarferwyr Creadigol yn ffactor llwyddiant allweddol ym mlwyddyn dau. Cafwyd llawer iawn o adborth cadarnhaol gan leoliadau ynghylch pwysigrwydd meithrin perthynas gref â'r ymarferwyr creadigol yn seiliedig ar ymddiriedaeth, cyd-barch, cyfathrebu a nodau a rennir. Disgrifiodd llawer o'r lleoliadau'r berthynas a adeiladasant â'r Ymarferwyr Creadigol fel petai'n un o'r tîm neu'n aelod o'r teulu, "daeth yn rhan ohonom ni – yn rhan o'r teulu."[66]

Mae'r Asiantau Creadigol yn benodol wedi bod yn rhan hanfodol o'r fenter. Maent wedi rhwystro rhai prosesau dysgu creadigol rhag mynd o chwith, ac wedi rhoi llawer iawn o gymorth i leoliadau gyda gwaith gweinyddol, llenwi ffurflenni a chymorth cyffredinol parhaus.

Cafwyd tri achos lle'r oedd y berthynas rhwng y lleoliad a'r Ymarferwyr Creadigol dan bwysau. Mewn un achos, llwyddodd yr Asiant Creadigol i ddod â'r partïon ynghyd i gyfathrebu'n glir ac i ddatrys yr anawsterau. Mewn achos arall, roedd diffyg cyfathrebu rhwng y lleoliad ac Ymarferydd Creadigol nad oedd modd ei ddatrys. O'r herwydd, cyfyngwyd ar y sesiynau mewn ffordd a leihaodd eu heffaith ar y plant a'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar.


Yn y trydydd achos, torrodd y berthynas rhwng yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a'r Ymarferwyr Creadigol i'r fath graddau nad oedd modd parhau â'r gweithgareddau, a methodd y lleoliad â chwblhau'r broses ddysgu. Roedd ar y lleoliad eisiau defnyddio'r sesiynau Dysgu Creadigol i adnewyddu ei ardal awyr agored, gan gyflawni gwaith seilwaith helaeth yr oedd y lleoliad wedi cytuno i roi arian cyfatebol iddo. Nid hwn yw diben arian y fenter Dysgu Creadigol, a ddefnyddir yn bennaf i dalu am yr amser a dreulir yn y lleoliad gan yr Ymarferwyr Creadigol fel arfer, felly roedd hwn yn gamddealltwriaeth sylweddol. Roedd y lleoliad yn anfodlon â'r cynnydd a wnaed yn erbyn y nodau a bennwyd ganddynt, dirywiodd ymddiriedaeth ac roedd y cyfathrebu rhwng y lleoliad a'r ymarferwyr creadigol yn llai effeithiol. Yn y pendraw, gofynnwyd i'r Ymarferwyr Creadigol beidio â mynd i'r lleoliad, a daeth y broses ddysgu i ben. Arweiniodd y profiad hwn at siom ac ypset i bawb ac yn drist, ni wireddwyd yr effeithiau a fwriadwyd i'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a'r plant.

Nid oedd modd inni siarad â'r Ymarferwyr Creadigol na'r Asiant Creadigol a oedd yn ymwneud â'r lleoliad hwn, ond siaradasom â'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar. Clywsom fod yr aelod o staff a wnaeth cais i gymryd rhan yn y fenter wedi gadael y lleoliad tua'r adeg pan ddechreuodd y sesiynau. Golygai hyn nad oedd gan yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a barhaodd â'r sesiynau yr un ddealltwriaeth o ddiben a nodau'r broses Dysgu Creadigol. O gofio bod yr Ymarferwyr Creadigol yn newydd i'r fenter Dysgu Creadigol, mae'n bosibl hefyd nad oeddent wedi llwyr ddeall diben ehangach y fenter na'u rôl nhw yn ei gyflawni. Efallai bod hynny oherwydd newid i'r hyfforddiant a roddwyd yn yr ail flwyddyn. Caiff hyn ei ymchwilio ymhellach yn adran 5.6 o'r adroddiad hwn.

[66] Cyfweliad Cylch Meithrin Crymych

### 5.5 Hyfforddiant

Cyfunwyd hyfforddiant yr Ymarferwyr Creadigol, yr Asiantau Creadigol a’r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn sesiwn undydd eleni, a gafodd ei gynnal yn y gogledd ac yn y de er mwyn lleihau gofynion teithio’r cyfranogwyr. Cynaliasom arolwg ar-lein i gasglu adborth am yr hyfforddiant ac rydym yn archwilio rhai o’r prif ganfyddiadau isod.




Fel dengys y graff uchod, roedd y rhan fwyaf o’r cyfranogwyr yn deall pwrpas yr hyfforddiant, a chafwyd sylwadau cadarnhaol gan rai ohonynt ynghylch buddion dod â phawb ynghyd i, ”…rannu syniadau a dod i adnabod pawb.”

Roedd gan yr Ymarferwyr Creadigol a’r Asiantau Creadigol gwell ddealltwriaeth o Arferion Creadigol y Meddwl na’r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar ar ôl yr hyfforddiant. Nid yw’n syndod bod gan yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar gwell ddealltwriaeth o 6 Maes Canolbwyntio'r Cwricwlwm na’r ymarferwyr creadigol. Pan ofynnwyd i’r cyfranogwyr a oeddent yn deall camau nesaf eu prosesau dysgu, roedd llai o hyder ymysg yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar, ond roedd y sylwadau’n awgrymu eu bod yn bwriadu cwrdd â’r Asiantau Creadigol a’r Ymarferwyr Creadigol yn y lleoliadau i archwilio hyn yn fwy manwl.

Cafwyd adborth gan rai o’r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a ddywedodd eu bod wedi teithio’n bell i gyrraedd yr hyfforddiant, ond dim ond cost yr oriau a lenwyd yn y lleoliad a dalwyd, nid yr amser a dreuliwyd yn teithio na’r amser a dreuliwyd yn yr hyfforddiant. Dywedodd un cyfranogwr ei fod yn teimlo’n rhwystredig am hyn gan y teimlai fod yr hyfforddiant yn “neis ond heb fod yn angenrheidiol.” Trafodwyd y mater hwn gyda’r bartneriaeth, ac mae Mudiad Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi cytuno i weithio gyda’r lleoliadau hyn ym mlwyddyn tri fel nad yw’r staff sy’n mynychu’r hyfforddiant a’r dyddiau rhannu dan anfantais yn ariannol.

Dangosodd y gwerthusiad bod rhai o'r lleoliadau lle'r aeth pethau o chwith wedi ymwneud ag Ymarferwyr Creadigol nad oeddent yn rhan o'r fenter yn ystod y flwyddyn gyntaf. Efallai bod y penderfyniad i gynnal hyfforddiant ar y cyd wedi golygu nad oedd yr ymarferwyr creadigol a oedd yn newydd i'r fenter yn deall nodau a diben Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar yn llawn. Ym mlwyddyn tri, efallai y bydd angen darparu hyfforddiant penodol ar gyfer Asiantau Creadigol ac Ymarferwyr Creadigol newydd er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o rolau, cyfrifoldebau, ffiniau, a diben ehangach y fenter Dysgu Creadigol.

Awgrymodd y sylwadau cyffredinol y byddai'r cyfranogwyr wedi hoffi cael mwy o amser yn ystod y sesiwn i gynllunio'r cam nesaf. Adlewyrchwyd hyn yn sylwadau ac adborth y ffurflenni gwerthuso a'r cyfweliadau, a awgrymodd bod diffyg amser i gynllunio a chreu cyd-ddealltwriaeth o'r hyn a fyddai'n digwydd yn y lleoliad wedi arwain at rywfaint o gam-gyfathrebu gan roi rhai perthnasoedd dan bwysau. Mae'r amser a ddynodwyd i gyflawni'r sesiynau creadigol yn werthfawr iawn, a hoffa'r Ymarferwyr Creadigol a'r lleoliadau sicrhau y caiff cymaint â phosibl o'r amser hwn ei dreulio yn cyflawni gweithgareddau gyda'r plant. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod y canlyniadau'n fwy llwyddiannus lle roddwyd amser i'r Ymarferwyr Creadigol ymweld â'r lleoliad a magu perthynas â'r staff. Ym mlwyddyn tri, efallai byddai'n fuddiol i ganolbwyntio ar ganiatáu mwy o amser i dimau'r lleoliadau gyd-gynllunio yn ystod y diwrnodau hyfforddi, neu i ddefnyddio rhywfaint o'r gyllideb hyfforddi i gynnal sesiwn cynllunio ychwanegol ym mhob lleoliad.

### 5.6 Cyllid

Mater a godwyd gan yr Ymarferwyr Creadigol a'r Asiantau Creadigol yn y cyfweliadau ac yn yr arolwg adborth oedd eu bod yn treulio mwy o amser yn y lleoliadau, yn teithio, cynllunio ac yn trefnu nag a ganiatawyd ar ei gyfer yn eu horiau dan gontract. Cawsom adborth gan ymarferwyr creadigol a awgrymai y dylid talu am deithio ar wahân i'r gwaith a gyflawnwyd yn y lleoliadau;

"Teimlais fod rhai o'r lleoliadau'n methu allan oherwydd eu bod yn talu am fy nheithio yn lle diwrnod yn y lleoliad. Dylid talu costau teithio'r Ymarferwyr Creadigol. Roedd fy holl leoliadau o leiaf 1.5 awr i ffwrdd yn y car, a theimlais yn anghyffyrddus yn negodi am dâl ar gyfer hyn. Pan fyddaf yn gweithio i'r Cyngor Celfyddydau ar brosiectau ysgolion creadigol arweiniol, telir 45c y filltir am gostau teithio, sydd i weld yn decach imi."

Efallai bod problem y gost o deithio'n bell yn waeth oherwydd diffyg ymarferwyr creadigol sy'n siarad Cymraeg, a olygai nad oes ymarferwyr addas ar gael yn lleol i'r lleoliad bob amser. Gallai ehangu ar y gronfa o ymarferwyr creadigol Cymraeg helpu i leihau'r broblem o deithio costus i'r ymarferwyr creadigol.

Cawsom adborth hefyd gan ymarferwyr creadigol a fuddsoddodd amser ychwanegol yn eu lleoliadau. Ni dalwyd am yr amser hwn, gan ei fod yn mynd tu hwnt i gyllideb Dysgu Creadigol y lleoliad. Cawsom adborth gan bum Asiant Creadigol a gyfrannodd amser ychwanegol, rhwng dau ddiwrnod a naw a hanner diwrnod o waith di-dâl. Gwaith cynllunio, recriwtio a gwaith papur oedd hwn yn bennaf. Ymatebodd pedwar Ymarferydd Creadigol i'r arolwg gan ddweud eu bod wedi rhoi amser ychwanegol i'r lleoliad hefyd - rhwng 5 a 12 o oriau di-dâl ychwanegol. Er bod yr holl sylwadau a gafwyd gan yr ymarferwyr creadigol yn gadarnhaol am eu profiad ac am eu balchder o fod yn rhan o'r fenter, credasant fod y canlyniadau a gyflawnwyd ganddynt ond wedi bod yn bosibl oherwydd iddynt weithio mwy na'u horiau dynodedig.


Wrth i fenter Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar gyrraedd ei blwyddyn olaf a dechrau ystyried parhad i'r gwaith gwerthfawr hwn, mae'n bwysig rhoi ystyriaeth i sicrhau y caiff unrhyw fenter yn y dyfodol ei hariannu'n llawn, ac y bydd yn gynaliadwy.

# 6. Y Dyfodol

## 6.1 Recriwtio ar gyfer Blwyddyn Tri

Fel yr archwiliwyd yn adran 3 yr adroddiad hwn, roedd 71% o'r lleoliadau a gymerodd rhan yn ail flwyddyn y fenter mewn ardaloedd yng nghategori '50% lleiaf difreintiedig' Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, defnyddiasom ddata a ddarparwyd gan Fudiad Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru er mwyn pennu bod 167 o leoliadau yng Nghymru yn bodloni meini prawf y fenter. Aethom ati wedyn i bennu categori Mynegai Amddifadedd pob lleoliad, a chymharu'r data hyn â'r lleoliadau sydd eisoes wedi cymryd rhan yn y fenter. Mae'r graff isod yn dangos y canfyddiadau.




Fel y gwelir o'r graff uchod, mae nifer sylweddol o leoliadau cymwys mewn ardaloedd o amddifadedd heb gymryd rhan yn y fenter eto. Mae ein data hefyd yn awgrymu yr oedd nifer gyfrannol fwy o leoliadau mewn ardal sydd ymysg y 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig wedi cymryd rhan yn ystod y ddwy flwyddyn gyntaf.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn, dewisodd y bartneriaeth ddefnyddio system "galwad agored" i'r lleoliadau cael cymryd rhan, a lwyddodd i ymgysylltu â lleoliadau. Fodd bynnag, efallai byddai strategaeth recriwtio mwy targededig yn fwy addas ym mlwyddyn tri, er mwyn sicrhau y bydd y fenter Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar yn cyflawni un o'i nodau sylfaenol;

Bydd y rhaglen yn cyflymu'r adferiad ôl-Covid i blant ifanc, yn rhoi blaenoriaeth i gyfathrebu, llesiant a pherthyn; ac yn caniatáu i'n sefydliadau ganolbwyntio ar y 28% o deuluoedd â phlant dan 4 oed mewn amddifadedd incwm yng Nghymru. Bydd yn gwella cyfraniadau at waith cydraddoldeb hil yng Nghymru ac yn cefnogi dwyieithrwydd a threftadaeth Cymru.

Bydd dileu'r angen i ddefnyddio'r porth ar-lein hefyd yn dileu rhwystr sylweddol i'r broses o ymgysylltu â lleoliadau newydd, yn enwedig y rhai â llai o adnoddau ac amser staff.

## 6.2 Etifeddiaeth

Yn adroddiad gwerthuso'r flwyddyn gyntaf, dywedasom y byddai datblygu adnoddau y gellid eu rhannu â'r sector ehangach yn ganlyniad cadarnhaol. Gallai'r adnoddau hyn fod yn 'gardiau rysáit' syml yn amlinellu gweithgaredd creadigol penodol ac yn rhoi manylion gwybodaeth allweddol am sut i'w gynnwys yn eich lleoliad, a'r effaith a allai ei gael. Rydym yn ymwybodol bod rhai o'r Ymarferwyr Creadigol a gymerodd rhan yn y fentr eleni wedi creu adnoddau tebyg a'u gadael gyda'r lleoliadau ar ôl i'r sesiynau ddod i ben, er mwyn rhoi canllawiau hawdd i'w dilyn i'r staff. Awgrymodd y lleoliadau y byddai cael adnoddau fel templedi asesiadau risg ar gyfer y gweithgareddau awyr agored mwy mentrus neu ddefnyddio offer yn fuddiol hefyd, ac y gallent gefnogi lleoliadau Blynyddoedd Cynnar eraill i gael eu hysbrydoli ac i rannu yn y doreth o ddysgu a chreadigrwydd a gafodd ei chreu.

Gallai'r ryseitiau gynnwys:

- **Amdanon ni** – ble, faint o blant, ffeithiau perthnasol
- **Beth oedden ni ei eisiau** – ein cynllun, pam ei fod ei angen arnom
- **Beth wnaethon ni** – trosolwg o'r gweithgareddau
- **Sut wnaeth y broses ein helpu ni** – ffeithiau allweddol am unrhyw effaith a gafwyd ar yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar ac ar y plant
- **Awgrymiadau** – beth wnaeth helpu i'r broses weithio (neu ddim gweithio) yn y lleoliad, unrhyw anawsterau a ddatryswyd, problemau posibl, cyngor gorau."

Aethom ati i geisio dilyn i fyny ar rai o'r lleoliadau a gymerodd rhan ym mlwyddyn gyntaf y fenter i archwilio effaith y fenter Dysgu Creadigol yn y tymor hirach. Siaradasom ag Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar a gymerodd rhan yn y flwyddyn gyntaf, ac aeth ymlaen i fod yn Asiant Creadigol mewn lleoliad yn ystod yr ail flwyddyn. Roedd hefyd wedi cymryd rhan yn Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol Cyngor Celfyddydau Cymru, yr aelod cyntaf o leoliad Blynyddoedd Cynnar i wneud hynny. Dywedodd yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar bod cymryd rhan yn y flwyddyn gyntaf wedi "rhoi buddion gwirioneddol" i'w leoliad, ac arweiniodd at newid trawsnewidiol yn ymagwedd y lleoliad at chwarae a'i agwedd at risg. Ysbrydolwyd yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar gan bwysigrwydd Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar i'r sector a siaradodd yn angerddol drosto, a sut y gobeithiai y byddai'n ymestyn creadigrwydd ac yn rhoi hyder i leoliadau, ac yn newid y canfyddiad ehangach ynghylch gwerth addysg blynyddoedd cynnar. Esboniodd yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar bod y broses ddysgu creadigol wedi rhoi gwell ddealltwriaeth iddo o fuddion creadigrwydd i blant. Dywedodd hefyd ei fod yn glir bod y fenter Dysgu Creadigol ac Arferion Creadigol y Meddwl yn alinio â'r Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir, ac yn ei gefnogi.

Ar gyfer gwerthusiad blwyddyn tri, byddwn yn parhau i archwilio effeithiau'r fenter Dysgu Creadigol yn y tymor hirach drwy gynnal mwy o gyfweliadau â lleoliadau a gymerodd rhan ym mlynyddoedd un a dau. Bydd hyn yn tyfu'r sail dystiolaeth sy'n cefnogi effeithiau Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar yn y tymor hirach.

# 7. Casgliadau

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol ail flwyddyn y fenter Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar wedi cefnogi a gwella ein dealltwriaeth o fuddion cefnogi'r gwaith o ddatblygu creadigrwydd mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Fel y dangoswyd yng ngwerthusiad y flwyddyn gyntaf, yr effaith fwyaf nodweddiadol a gafwyd ar yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar oedd datblygu eu hyder i ddatblygu dulliau newydd ac ehangu ar eu cysyniadau o greadigrwydd. Cawsant eu cefnogi i gymryd mwy o risgiau wedi'u rheoli ac i 'gamu'n ôl', arsylwi a darparu profiadau deniadol ac amgylcheddau effeithiol i'r plant yn eu lleoliadau. Dywedodd yr holl Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a gwblhaodd y broses ddysgu eu bod wedi datblygu o leiaf tri Arfer Creadigol y Meddwl. Dangosodd llawer o staff y lleoliadau eu bod wedi datblygu eu hyder a'u sgiliau ym mhob Arfer Creadigol y Meddwl, hyd yn oed os nad oeddent yn gwbl hyderus i ddefnyddio'r fethodoleg fel arf myfyrio.

Yn ogystal, ceir tystiolaeth gref bod y plant a gymerodd rhan yn y broses ddysgu wedi profi buddion cadarnhaol hefyd. Gallai'r plant fod yn chwilfrydig ac yn anturus yn yr awyr agored, yn dysgu am y byd naturiol. Estynnwyd gwahoddiadau iddynt chwarae ac i ddilyn eu dychymyg a'u diddordebau eu hunain mewn ffyrdd newydd. Datblygasant sgiliau echddygol bras a manwl, gan deimlo balchder yn eu galluoedd newydd yn defnyddio offer a pheiriannau, yn creu gwrthrychau ac yn arbrofi gyda deunyddiau gwahanol. Cafwyd datblygiadau diddorol yn ymdeimlad y plant o gynefin hefyd, a chawsant eu cefnogi i ddatblygu cysylltiad cryfach â'u cartref a'u cymuned, ac i wella eu dealltwriaeth ohonynt. Dengys y dystiolaeth bod y rhan fwyaf o'r plant wedi datblygu ym mhob Arfer Creadigol y Meddwl, ac wedi dangos datblygiad amlwg yn erbyn y meysydd canolbwyntio a amlinellir yn y Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir. Dywedodd Ymarferydd Creadigol, "Roedd yn hyfryd i weld y rhyfeddod ar wynebau'r plant".

Mae'r heriau a wynebwyd gan rai o'r lleoliadau eleni wedi atgyfnerthu pwysigrwydd yr hyfforddiant priodol a'r angen i neilltuo amser ar gyfer cynllunio a sefydlu cynlluniau clir a nodau a rennir cyn dechrau ar y broses gyflawni yn y lleoliadau. Yr adborth a gafwyd mwyaf aml oedd sicrhau bod amser cynllunio'n rhan o'r cam sefydlu, yn hytrach na fod yn rhan o amser sesiynau creadigol y lleoliadau. Efallai byddai'n fuddiol hefyd i roi hyfforddiant ychwanegol i Ymarferwyr Creadigol ac Asiantau Creadigol newydd a dibrofiad ar wahân i'r diwrnod hyfforddiant cydweithiol, er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu rôl a'i ffiniau yn llawn, ynghyd â nodau ehangach y fenter Dysgu Creadigol.

Fel y nodwyd yn y flwyddyn gyntaf, mae Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar yn alinio'n gryf â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gan yr effeithiau a nodir yn yr adroddiad hwn gysylltiadau amlwg â saith nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phwysigrwydd "harneisio pŵer creadigrwydd"[67] i greu "dyfodol disglair ac optimistaidd" i Gymru[68]. Mae'r plant sy'n cymryd rhan yn y broses ddysgu yn cael y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder a fydd yn eu helpu i gyrraedd eu potensial llawn fel dinasyddion Cymru.

Cyfeiriwyd at waith y fenter Dysgu Creadigol mewn adroddiad gan Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd ym mis Gorffennaf 2024. Cyfeiria'r adroddiad at y ffaith bod ymweliad arsylwi sesiynau Dysgu Creadigol ym meithrinfa Enfys Fach wedi'i amlygu'n enghraifft o ymarfer da;

---

[67] https://www.futuregenerations.wales/cy/work/diwylliant-ar-iaith-gymraeg/

[68] https://www.futuregenerations.wales/cy/work/cymru-can/

“Gwelodd Jenny Rathbone AS bwyslais trwm ar ddysgu sy’n canolbwyntio ar y plentyn ym meithrinfa Enfys Fach yn Aberhonddu, gyda darpariaeth dan do ac awyr agored ddi-dor. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda cherflunydd i wneud stoliau pren wedi’u dylunio gan bob plentyn.”[69]

Yn anffodus, nid yw’r adroddiad yn nodi bod y sesiwn yn rhan o fenter Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar, ac mae’r partneriaid yn mynd i’r afael â hyn. Er hynny, mae’n arwyddocaol bod gwerth yr ymagwedd Dysgu Creadigol yn cael ei gydnabod gan y Senedd.

Mae’r sector Blynyddoedd Cynnar yn parhau’n broffesiwn nad yw’n cael ei werthfawrogi’n llawn, ac mae llawer o leoliadau yn dioddef o ddiffyg adnoddau a throsiant uchel o staff. Dywedodd rhai o’r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a gymerodd rhan yn y fenter eu bod yn teimlo’n flinedig, wedi’u llethu a heb ysbrydoliaeth ar adegau. Ar ôl iddynt gymryd rhan yn y broses ddysgu, roedd llawer o’r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn teimlo wedi’u hysbrydoli, wedi’u hailfywiogi, yn fwy brwdfrydig ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd eu proffesiwn yn fwy, “Am brosiect gwych a phroses wych i fod yn rhan ohonynt.”

Mae’n werth ailadrodd bod Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar yn ymwneud cymaint â thynnu sylw at broffesiynoldeb a phwysigrwydd y rôl a chwaraeir gan yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn ein cymdeithas, ag y mae i’w helpu nhw i ddatblygu sgiliau creadigol a hyder. Mae’r fenter hon yn galluogi lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a’r gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio ynddynt i roi i blant yng Nghymru'r gofal gorau posibl, ac i’w helpu nhw i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae’r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a siaradasom â nhw yn ystod y gwerthusiad yn ymgorffori lluniad y Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir o ‘oedolion sy’n galluogi dysgu’. Maent yn weithwyr proffesiynol medrus sy’n darparu amgylcheddau diogel yn emosiynol, ac yn cefnogi’r plant i ddysgu a ffynnu. Mae’r prosiect yn cefnogi’r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar i “fodelu agwedd lawen at ddysgu, ac annog a chefnogi chwilfrydedd naturiol plant…” Dywedodd llawer o’r Ymarferwyr Creadigol a’r Asiantau Creadigol eu bod wedi dysgu cymaint â hynny, os nad mwy gan yr Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar;

“Mae’r bobl sy’n gweithio mewn lleoliadau yn anhygoel – gwych.”
“Roeddem yn rhannu sgiliau yn y ddau gyfeiriad.”
“Roedd yn fraint ac yn anrhydedd i gymryd rhan. ”
“Aethom ar daith greadigol gyda’n gilydd”

[69] https://senedd.wales/media/wsikwtt4/cr-ld16609-w.pdf

# 8. Argymhellion

**Mae Cwmpas yn cynnig yr argymhellion canlynol o ganlyniad i'r gwaith gwerthuso:**

1. Gweithio gyda sefydliadau partner i archwilio sut i gefnogi, datblygu a recriwtio mwy o Ymarferwyr Creadigol sy'n siarad Cymraeg i ymuno yn nhrydedd flwyddyn y Fenter Dysgu Creadigol.

2. Adolygu'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer yr holl gyfranogwyr gan ganolbwyntio mwy ar ddarparu hyfforddiant ychwanegol i Ymarferwyr Creadigol ac Asiantau Creadigol newydd er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

3. Adolygu sut y dynodir amser ac adnoddau yn ystod y cam sefydlu er mwyn sicrhau bod amser digonol (yn y lleoliad o ddewis) gan yr Ymarferwyr Creadigol, Asiantau Creadigol a'r Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar i ddod at ei gilydd a chyd-lunio cynllun cyn i'r sesiynau ddechrau.

4. Cyflwyno dull mwy targededig o recriwtio lleoliadau ym mlwyddyn tri, er mwyn annog cyfranogiad gan fwy o leoliadau mewn ardaloedd â mwy o amddifadedd.

5. Datblygu 'ryseitiau' neu astudiaethau achos o'r flwyddyn gyntaf i roi enghreifftiau o effaith y prosiect trwy leisiau'r lleoliadau a gymerodd rhan. Dylai hyn helpu i ddangos effaith y prosiect, annog lleoliadau eraill i gymryd rhan, a sicrhau y caiff yr hyn a ddysgwyd ym mlynyddoedd un a dau ei rhannu â'r sector ehangach. Bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o greu gwaddol parhaus o adnoddau a dysgu gan fenter Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar.

6. Archwilio a oes angen cynnwys adnodd ychwanegol sy'n cefnogi Ymarferwyr Creadigol ac Asiantau Creadigol i reoli anghenion eu rolau mewn unrhyw gais am gyllid yn y dyfodol.

cwmpas

T: 0300 111 5050
E: jenny.phillips@cwmpas.coop

**cwmpas.coop**

Mae Cwmpas yn gymdeithas gofrestredig dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.